

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18



**Comisiynydd  
Plant Cymru**

Children's  
Commissioner  
for Wales

<b>01 Rhagair gan Gomisiynydd Plant Cymru</b>	<b>03</b>
<b>02 Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiaadau</b>	<b>07</b>
<b>Gwaith Prosiect</b>	
• Blwyddyn 1 (2016/17)	9
• Blwyddyn 2 (2017/18)	11
<b>Gwaith Craidd</b>	
• Blwyddyn 1 (2016/17)	23
• Blwyddyn 2 (2017/18)	24
<b>03 Barn ein paneli ymgynghorol</b>	<b>26</b>
<b>04 Y Ffordd Gywir</b>	<b>28</b>
a. Ein 'ffordd gywir' ni	30
b. Enghreifftiau o achosion eraill	32
<b>05 Ein 'cerdyn adroddiad'</b>	<b>34</b>
• Hawliau Plant yng Nghymru	35
• Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen	42
• Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais	51
• Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol	60
• Safon Byw sy'n Ddigonol	68
<b>06 Diwedd glo ac argymhellion allweddol</b>	<b>76</b>
<b>07 Prosesau sefydliadol</b>	<b>81</b>
<b>08 Cyfrifon</b>	<b>91</b>



Allwn ni ddim adlunio,  
cynllunio at y dyfodol  
na gweithio'n glyfrach  
heb sicrhau mai pobl  
sydd yn ganolog wrth  
wneud penderfyniadau.





# Rhagair

Adlunio, blaengynllunio, ac integreiddio. Rydyn ni'n clywed y geiriau hynny'n aml gan bobl yn y byd cyhoeddus. Ond beth maen nhw'n ei olygu? Sut maen nhw'n effeithio ar fywydau pobl? Yn fy marn i mae'r ateb yn syml. Allwn ni ddim adlunio, cynllunio at y dyfodol na gweithio'n glyfrach heb sicrhau mai pobl sydd yn ganolog wrth wneud penderfyniadau.

I sicrhau bod plant yn ganolog wrth lunio polisi, rhaid i ni sylweddoli'n gyntaf nad ydynt yn syrthio'n dwt i 'flichau'. Mae eu bywydau'n aml yn gymhleth; mae'r heriau y maen nhw'n eu hwynebu a'r materion mae'n rhaid iddyn nhw eu goresgyn yn gysylltiedig â'i gilydd, sy'n golygu na all yr atebion fod yng ngofal un Gweinidog, nac un adran. Ond os ydyn ni am fedru newid bywydau, rhaid i ni'n gyntaf ddeall yr heriau a'r materion hynny trwy sicrhau bod pobl yn ganolog wrth wneud penderfyniadau.

>>>



Mae'r adroddiad yma'n cynnwys enghreifftiau o sut rydyn ni wedi defnyddio'r dull gweithredu yma i sbarduno gwelliannau gwirioneddol i blant yng Nghymru.

Byddwch chi hefyd yn gweld sut mae barn a phrofiadau plant yn gyrru popeth rwyf fi'n ei wneud fel Comisiynydd iddyn nhw. Mae eu profiadau bywyd a'u barn i'w gweld ym mhob agwedd o'n gwaith, o'r hyn y bydda i'n codi llais amdano yn y cyfryngau a sut rydyn ni'n mynd ati i ddylanwadu newidiadau yn y Llywodraeth, i sut dylai fy sefydliad fynd ati i ailgylchu.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos ein bod ni'n dal i wrando, yn dal i godi llais, ac yn dal i gyflawni. Diolch o galon unwaith eto i'm fîm o staff, fy mhaneli ymgynghorol ac i blant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru sydd wedi bod mor barod i rannu eu barn gyda fi.

Bellach rydw i'n union hanner ffordd trwy fy nghyfnod o 7 mlynedd fel comisiynydd. Rwyf wedi gweld peth cynnydd yn ystod y cyfnod hwnnw o ran ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc Cymru i'w hawliau dynol mewn rhai rhannau o'u bywydau, ac mae fy nhîm a minnau wedi chwarae rhan yn hynny, ond mae heriau aruthrol yn parhau. Byddaf yn parhau i weithio'n ddiflino i hybu a diogelu hawliau plant yng Nghymru, gyda'r nod o sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod.

**Sally Holland**  
Comisiynydd Plant Cymru

**...ein bod ni'n dal  
i wrando, yn dal  
i godi llais, ac  
yn dal i gyflawni  
canlyniadau**

# Cipolwg ar ein blwyddyn

## Eleni rydyn ni wedi:

- Gwrando ar 9443 plant a phobl ifanc ledled Cymru
- Helpu 554 plentyn unigol trwy ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor
- Asesu gwelliannau hygyrchedd cadair olwyn mewn ysgolion
- Cyhoeddi adroddiad 'Stori Sam', sy'n tanlinellu profiadau 2000 o blant o fwlio, datblygu adnoddau gwrthfwlio i ysgolion a chynnal arddangosfa yn y Senedd
- Cyflwyno tystiolaeth newydd ar brofiadau plant o chwarae a hamdden
- Datblygu adnoddau pwerus a sensitif i ysgolion ar Daclo Islamoffobia sydd wedi newid dealltwriaeth ac agwedd plant
- Gwrando ar brofiadau plant gydag anableddau dysgu, a'u teuluoedd, wrth iddyn nhw symud i oedolaeth
- Sicrhau dyletswydd cyfriethiol newydd hawliau plant yn rhan o ddarpariaeth addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Sicrhau cyfleoedd ac arian ychwanegol i bobl ifanc sy'n gadael gofal
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn gofal wedi cael cyfle i ddweud eu dweud trwy'r holiadur Bright Spots
- Gweithio gyda chyrrff cyhoeddus, yn cynnwys byrddau iechyd, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Carchar Parc, Amgueddfa Cymru, ac awdurdodau lleol i hybu Dull Hawliau Plant
- Cyhoeddi canllaw newydd i ysgolion ar Ddull Hawliau Plant, a chefnogi miloedd o blant a'u hathrawon i ddysgu mwy am hawliau plant a dylanwadu ar ein gwaith trwy ein cynlluniau Llysgenhadon llwyddiannus
- Creu teclun hunan-asesu gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i helpu chyrrff cyhoeddus cyfuno eu gwaith ar hawliau plant gyda'u gwaith ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Ymyrryd er mwyn amddiffyn Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol
- Cefnogi ysgolion cynradd i greu clybiau newydd sy'n pontio'r cenedlaethau
- Gweithio gyda phwyllgor Eco ysgol gynradd i asesu i ba raddau rydyn ni'n ecogyfeillgar, a newid ein hymarfer o ganlyniad
- Cael ein hadnabod fel cyflogwr sy'n talu'r Cyflog Byw
- Sicrhau 763 darn o sylw yn y wasg



...gweithio'n ddiflino i hybu  
a diogelu hawliau plant  
yng Nghymru, gyda'r nod  
o sicrhau bod pob plentyn  
yng Nghymru yn cael  
cyfle cyfartal i fod y gorau  
gallan nhw fod.



# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau

## Y cynllun tair blynedd

Ar sail yr ymgynghoriad helaeth gyda mwy na 7000 o blant, pobl ifanc ac oedolion yn 2015, fe gyhoeddwyd ganddom gynllun strategol tair blynedd yn gynnar yn 2016: Cynllun ar gyfer Pob Plentyn a Pherson Ifanc 2016 i 2019. Mae'r cynllun tair blynedd hwn yn cynnwys chwe blaenoriaeth:

1. Iechyd meddwl, lles a thaclo bwlio
2. Tlodi ac anghydraddoldeb cymdeithasol
3. Chwarae a hamdden
4. Diogelwch (yn y gymuned, yr ysgol a'r cartref)
5. Cynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP a hybu'r gwaith o'i fabwysiadu ar draws gwasanaethau cyhoeddus
6. Pontio i oedolaeth ar gyfer pob person ifanc sydd angen cefnogaeth a gofal parhaus



Isod cewch ddadansoddiad o'n prif gyflawniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ym **mlynyddoedd 1 a 2** o'n cynllun strategol, trwy gyflawni ein **gwaith prosiect**.

## Blwyddyn 1 (2016/17)

### IECHYD MEDDWL, LLESIANT A BWLIO

#### Stori Sam

Ymgynghoron ni â mwy na 2000 o blant a bron 300 o weithwyr proffesiynol am eu teimladau a'u profiadau o fwlio yng Nghymru.

Cynhalion ni ddwy gyfnewidfa tystiolaeth i gasglu barn gweithwyr proffesiynol.

Rydyn ni wedi ymrwymo i gyhoeddi canfyddiadau'r ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2017 er cof am Gomisiynydd Plant cyntaf Cymru, Peter Clarke.

### TLODI AC ANGHYDRADDOLDEB CYMDEITHASOL

#### Cynllun Llysgenhadon Cymunedol

Rydyn ni wedi cadw mewn cysylltiad â'n grwpiau yng Nghaerdydd, Abertawe a Blaenau Gwent, ac rydyn ni wedi sefydlu grwpiau newydd ym Mhowys, Sir y Fflint a Cheredigion – maent i gyd yn cynrychioli grwpiau diddordeb arbennig er mwyn sicrhau bod llais rhai o bobl ifanc mwyaf bregus Cymru yn cael dylanwad uniongyrchol ar ein gwaith

### CHWARAE A HAMDDEN

#### Gweithio mewn Partneriaeth: Mudiad Meithrin

Rydyn ni wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â'r Mudiad Meithrin a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i gael presenoldeb ar y cyd yn Eisteddfod yr Urdd 2017, er mwyn ymgynghori â phlant, pobl ifanc ac oedolion ynghylch chwarae a darpariaeth hamdden

### DIOGELWCH YN Y GYMUNED, YR YSGOL A'R CARTREF

#### Prosiect pontio'r cenedlaethau

Buon ni'n gweithio gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i greu adnodd a fydd yn hybu a dathlu perthnasoedd sy'n pontio'r cenedlaethau.

Mae fideos sy'n cefnogi'r adnodd wedi cael eu gwyllo 9000 o weithiau ar YouTube ac roedd y cynlluniau gwersi wedi cael eu lawrlwytho 117 o weithiau rhwng Chwefror ac Ebrill 2017

>>>

### CYNYDDU YMWYBYDDIAETH O CCUHP A'I FABWYSIADU AR DRAWS GWASANAETHAU CYHOEDDUS

#### Cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr

Lansiwyd y Rhaglen ym mis Medi 2016 yn dilyn peilot. Roedd 67 o ysgolion uwchradd ledled Cymru wedi ymgysylltu â'r cynllun erbyn mis Mawrth 2017 – roedd y rhif hwn bron wedi dyblu erbyn mis Mawrth 2018

>>>

### PONTIO I OEDOLAETH

#### Breuddwydion Cudd

Haf 2016: Cynhalion ni ddiwyddiadau ar gyfer pobl ifanc mewn gofal a rhai oedd yn gadael gofal

Medi 2016: cyflwynwyd arolwg i bob awdurdod lleol

Mawrth 2017: Lansio'r adroddiad a Llywodraeth Cymru yn ymrwymo £1m tuag at fwrsariaeth ymadawyr gofal a fydd yn mynd yn uniongyrchol i ymadawyr gofal i'w cefnogi gyda hyfforddiant, addysg, trafnidiaeth a gweithgareddau hamdden, yn ogystal â nifer o ymrwymadau pendant eraill gan Lywodraeth Cymru ac WLGA.

>>>

# Blwyddyn 1 (2016/17)

## DIOGELWCH YN Y GYMUNED, YR YSGOL A'R CARTREF

### AGENDA

Fe ymunon ni â'r NSPCC yng Nghymru, Prifysgol Caerdydd, Cymorth i Ferched Cymru a Llywodraeth Cymru i greu AGENDA: canllaw pobl ifanc i sicrhau bod perthnasoedd cadarnhaol yn bwysig. Mae'r adnodd – sydd ar gael ar [www.agenda.wales](http://www.agenda.wales) – yn darparu amrywiaeth o syniadau creadigol, a gafodd eu treialu a'u profi mewn ysgolion yng Nghymru, sy'n galluogi pobl ifanc i arwain addysg perthnasoedd iach er mwyn atal a gwrthweithio bwlio sy'n ymwneud â rhywiaeth a homoffobia. Bydd grŵp o fyfyrwyr o ysgol gyfun, sydd wedi mabwysiadu dulliau gweithredu AGENDA, yn cynrychioli Cymru mewn cynhadledd gyfranogiad i Gomisiynwyr Plant Ewrop.

## CYNYDDU YMWYBYDDIAETH O CCUHP A'I FABWYSIADU AR DRAWS GWASANAETHAU CYHOEDDUS

### 'Y Ffordd Gywir'

Gweithion ni gyda Phrifysgol Abertawe i greu Y Ffordd Gywir, Dulliau Hawliau Plant sy'n addas i Gymru.

Mawrth 2017: cyhoeddodd ni ganllaw, a lawrlwythwyd 314 o weithiau o'r wefan yn ystod yr wythnos gyntaf.

Ymrwymodd sefydliadau oedd yn cynnwys Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru ac Amgueddfa Cymru i ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

## PONTIO I OEDOLAETH

### 'Y Gofal Cywir: Hawliau Plant mewn Gofal Preswyl yng Nghymru'

Mehafin 2016: cyhoeddodd ni adroddiad am hawliau pobl ifanc sy'n byw mewn ac yn gadael gofal preswyl. Cafodd yr holl argymhellion eu derbyn yn llawn gan Brif Weinidog Cymru.

Chwefror 2017: cafodd pob un o'r pedwar argymhelliad yn ein hadroddiad eu datblygu trwy waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen penodedig yn Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd i edrych ar leoliadau preswyl i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

# Blwyddyn 2 (2017/18)

## IECHYD MEDDWL, LLESIANT A BWLIO

### [Seminar Iechyd Plant Gyntaf Cymru Gyfan](#)

Mewn cydweithrediad â Iechyd Cyhoeddus Cymru, fe gynhalion ni Seminar Iechyd Plant gyntaf Cymru Gyfan.

Gallwch chi ddarllen mwy am y seminar yma ar dudalen 32.

### [Stori Sam](#)

Cyhoeddon ni adroddiad am brofiadau plant a phobl ifanc o fwlio yng Nghymru, ar sail ymgynghori â dros 2000 o blant a phobl ifanc a bron 300 o weithwyr proffesiynol.

Gweithion ni gydag Ysgol Gynradd Penygawsi i greu a chyhoeddi cyfres o ddeunyddiau i ysgolion eu defnyddio yn ystod Wythnos Gwrthfwlio 2017

>>>

## TLODI AC ANGHYDRADDOLDEB CYMDEITHASOL

### [Bywydau Llawn, Mynediad Cyfartal?](#)

Fe wnaethon ni adolygu'r cynnydd a wnaed gan bob un o'r 22 awdurdod lleol o ran mynediad i gadeiriau olwyn mewn ysgolion uwchradd.

Mae saith awdurdod lleol eisoes wedi ymrwymo i wneud gwelliannau ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiweddarau eu canllawiau i adlewyrchu hawliau plant.

## CHWARAE A HAMDDEN

### [Erthygl 31: adroddiad sbotolau](#)

Cyhoeddon ni adroddiad ar brofiadau 450 o blant a phobl ifanc oedd yn cael mynediad i chwarae/ amser rhydd, chwaraeon, hamdden, diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau yng Nghymru.

Darllen mwy am yr adroddiad yma ar dudalen 19.

## CHWARAE A HAMDDEN DIOGELWCH YN Y GYMUNED, YR YSGOL A'R CARTREF

### [Mynd i'r afael ag Islamoffobia](#)

Cynhyrchon ni adnodd ar gyfer ysgolion uwchradd, oedd yn galluogi'r disgyblion i archwilio mater Islamoffobia.

Arweiniodd y gwaith at 85 enghraifft o sylw cadarnhaol yn y cyfryngau ar gyfer yr adnodd, a dywedodd 96% o'r disgyblion a ddychwelodd ffurflenni gwerthuso o fewn y 3 mis cyntaf eu bod yn fwy tebygol o adnabod stereoteipio negyddol a byddai 78% ohonyn nhw'n herio stereoteipio negyddol.

## CYNYDDU YMWYBYDDIAETH O CCUHP A'I FABWYSIADU AR DRAWS GWASANAETHAU CYHOEDDUS

### [Y Ffordd Gywir: Dyfodol i Gymru sy'n addas i blant yng Nghymru](#)

Gweithion ni gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i gynhyrchu adnodd, oedd yn cynnwys pecyn offer hunanasesu, i alluogi cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus i wreiddio hawliau plant yn ogystal â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

## PONTIO I OEDOLAETH

### [Breuddwydion Cudd: Flwyddyn yn ddiweddarach](#)

Cyhoeddon ni adroddiad dilynol ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y meysydd a awgrymwyd ar gyfer gwelliant yn adroddiad 'Breuddwydion Cudd' 2016/17.

Bu'r Comisiynydd yn ymweld â phob un o'r 22 awdurdod lleol i drafod y cynnydd a wnaed.

Mae 6 awdurdod lleol eisoes wedi eithrio'u hymadawyr gofod rhag gorfod talu Treth y Cyngor.

Mae o leiaf 411 o bobl ifanc ledled Cymru wedi elwa'n uniongyrchol o gronfa Dydd Gŵyl Dewi.

>>>



# Blwyddyn 2 (2017/18)

## IECHYD MEDDWL, LLESIANT A BWLIO

### Mannau Disglair (Bright Spots)

Fe weithion ni mewn partneriaeth â Coram Voice a Llywodraeth Cymru i ariannu rhaglen beilot gyda 6 awdurdod lleol i gynnal arolwg o lesiant plant sy'n derbyn gofal yn eu hawdurdodau yn eu tro. Lluniwyd adroddiadau wedi'u teilwra ar gyfer pob awdurdod, ac roedd bwriad i gyhoeddi adroddiad cenedlaethol yn 2018/19.

## CYNYDDU YMWYBYDDIAETH O CCUHP A'I FABWYSIADU AR DRAWS GWASANAETHAU CYHOEDDUS

### Darlithoedd i'w lawrlwytho am CCUHP a'r Comisiynydd

Creu deunyddiau darlithio i'w lawrlwytho ar gyfer colegau a Phrifysgolion yn trafod hawliau plant a rôl y Comisiynydd yn hybu a diogelu'r hawliau hynny yng Nghymru.

## PONTIO I OEDOLAETH

### Pontio i oedolaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n byw gydag anableddau dysgu

Dechrau gwaith yn edrych mewn i brofiadau pobl ifanc sydd yn byw gydag anableddau dysgu a'u teuloedd, a cyhoeddi'r canfyddiadau yn 2018/19.

# Rhai o uchafbwyntiau'r gwaith prosiect

## Bright Spots

Mae Coram Voice a Phrifysgol Bryste wedi datblygu arolwg Dy Fywyd Di, Dy Ofal Di, sy'n offeryn ar gyfer mesur ansawdd profiadau gofal plant sy'n derbyn gofal a'u hymdeimlad o lesiant. Datblygwyd yr arolwg gyda phlant a phobl ifanc, gan gydnabod eu bod yn arbenigwyr ar eu profiadau eu hunain. Mae Dy Fywyd Di, Dy Ofal Di wedi'i seilio ar ddau adolygiad llenyddiaeth rhyngwladol, trafodaeth bord gron gyda gweithwyr proffesiynol ar draws y sector plant, a grwpiau ffocws a chyfweiliadau gyda 140 o blant a phobl ifanc. Y nod yw canfod "Mannau Disglair" o ran ymarfer, yn ogystal â nodi meysydd y gall awdurdodau lleol eu gwella er mwyn cefnogi'n well lesiant a phrofiadau eu plant sy'n derbyn gofal.

Nodwyd ganddom botensial yr arolwg hwn i dysgu am ac i wella profiadau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru a gwella'r profiadau hynny, a chynigiodd i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol y dylai gael ei beilota yng Nghymru. Roedden ni wrth ein bodd yn cael ymateb cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i'r cynnig hwn.

Y 6 awdurdod lleol a fu'n rhan o'r arolwg yw Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Caerffili, Sir y Fflint, Sir Benfro a Chaerdydd. Mae'r gwaith wedi cael ei ariannu'n bennaf gan Grŵp Ymgynghori Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar wella canlyniadau i Blant, gyda chyfraniad gan ein swyddfa. Cafodd pob awdurdod lleol gefnogaeth wedi'i theilwra i hybu'r arolwg ymhlith eu plant oedd yn derbyn gofal, a bydd yn derbyn adroddiad ysgrifenedig gyda chanlyniadau unigol eu hardal. Mae'r arolwg yn gweithredu ar 3 lefel oed wahanol, yn amrywio o 4-18 oed, ac mae fersiynau gwahanol ar gyfer pob grŵp oedran, fel bod awdurdodau lleol yn gallu gweld beth mae'r grŵp oed dan sylw wedi'i ddweud ac ymateb yn briodol.

Bydd yna hefyd adroddiad cenedlaethol a fydd yn cyfuno'r Mannau Disglair/Bright Spots of practice a bydd hwnnw'n cael ei rannu mewn digwyddiad cenedlaethol yn ddiweddarach yn 2018.



# Rhai o uchafbwyntiau'r gwaith prosiect

## Pontio i Oedolaeth – anabledau dysgu

Yng nghynllun gwaith eleni fe aethon ni ymlaen â'n gwaith ar Bontio i Oedolaeth, y tro hwn yn canolbwyntio ar bobl ifanc ag anabledd dysgu.

Fe sylweddolom ni fod gan eraill eisoes lawer o wybodaeth arbenigol yn y maes hwn, ac felly fe drefnon ni fod dau dîm yn gwneud y gwaith ymchwil oedd yn darparu cynnwys ar gyfer yr adroddiad hwn.

### Roedd dwy elfen i hyn:

#### a) Adolygiad o'r dystiolaeth: beth sydd eisoes yn hysbys o'r gwaith ymchwil?

Cynhaliodd Dr Axel Kaehne a'i gydweithwyr ym Mhrifysgol Edge Hill 'adolygiad chwim' o'r gwaith ymchwil presennol i'r pwnc hwn. Ar gais gennym ni, fe fuon nhw'n edrych yn arbennig ar berthnasedd yr ymchwil i Gymru.

#### b) Barn a phrofiadau uniongyrchol pobl ifanc, eu rhieni neu eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol

Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn yr adroddiad yn dod yn uniongyrchol oddi wrth bobl ifanc ag anabledau dysgu a'r oedolion sy'n gofalu amdany'n nhw neu'n gweithio gyda nhw. Fe gysyllton ni â Vikki Butler a'i thîm yn CARP Collaborations i wneud y gwaith yma. Fe fuon nhw'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilydd o blith eu cymheiriaid – ymchwilydd ifanc ag anabledau dysgu – i'w helpu i wneud hynny'n iawn. Mae'r adroddiad hwn i gael ei gyhoeddi yn haf 2018, ond mae'r holl waith maes a gwaith ymchwil wedi digwydd yn ystod 2017-18.



# Rhai o uchafbwyntiau'r gwaith prosiect

## Stori Sam

Mae diffyg cysondeb o ran sut mae ysgolion ac awdurdodau yn trin ac yn adrodd am achosion o fwlio mewn ysgolion yn arwain at rai plant yn teimlo'n ynysig ac eraill yn ansicr beth i'w wneud os byddan nhw'n ymwybodol bod eraill yn cael eu bwlio. Dyma oedd canfyddiad allweddol ymgynghoriad ar raddfa fawr gyda mwy na 2000 o blant a phobl ifanc a bron 300 o weithwyr proffesiynol y buon ni'n ei arwain yn 2017.

Roedd yr ymgynghoriad hwn – yn archwilio eu teimladau a'u profiadau o fwlio gyda phlant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a lleoliadau cymunedol ar draws y wlad. Mae'r canlyniadau'n llawer rhy gyfarwydd. Mae cael eu gweld fel rhai 'gwahanol' o ran eu golwg, eu diddordebau neu eu hunaniaeth yn ffactorau pwysig y tu ôl i pam mae plant yn cael eu bwlio. Nid yw'n syndod bod seiberfwlio hefyd yn bryder mawr, yn arbennig i ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd.

### Canfyddiadau allweddol oddi wrth fwy na 2000 o blant a phobl ifanc

- Mae plant yn gweld **gwahaniaeth** fel mater allweddol yng nghyswllt bwlio. Mae hyn yn cynnwys materion fel ethnigrwydd, tlodi, anabledd a stereoteipio rhywedd.
- Mae **ynysu** yn un arall o achosion bwlio
- Mae **rhieni** yn aml yn cael eu gweld fel rhai sydd ddim yn ymateb neu sy'n aneffeithiol.
- Ymddengys bod person **sy'n gallu cael eu trystio** i siarad â nhw yn llwybr allweddol ar gyfer delio gyda bwlio, ac yn aml athro yw'r person yna sy'n cael ei drystio.

### Canfyddiadau allweddol oddi wrth bron 300 o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

- **Cysondeb**; mynegodd nifer awydd am fwy o gysondeb ar draws ysgolion mewn ardaloedd awdurdodau lleol ac ar draws Cymru gyfan. Mae'r deunydd a gasglwyd yn awgrymu darlun amrywiol ac anwastad iawn.
- **Monitro**: nododd y cyfranogwyr nad oedd safon na system genedlaethol gyson ar gyfer monitro achosion o fwlio.
- **Natur bwlio**: er bod rhai ffactorau nodweddiadol oedd yn golygu bod plentyn yn fwy agored i gael ei fwlio, roedd hefyd ystod eang iawn o ffactorau posibl, ac roedd hwn yn fater cymhleth.
- **Diffiniad o fwlio**: thema cyson oedd pwysigrwydd eglurder ynghylch beth yw bwlio.

- **ymgyngoriad mawr**
- **2000 o blant a phobl ifanc**
- **bron 300 o weithwyr proffesiynol**



# Rhai o uchafbwyntiau'r gwaith prosiect

Roedd yr adroddiad yn cynnwys cyfres o flaenoriaethau ar gyfer gwelliant, gan gynnwys:

- gosod dyletswydd statudol ar ysgolion i roi gwybod am bob achos o fwlio;
- gwneud addysg hawliau dynol yn rhan orfodol o'r cwricwlwm newydd;
- ymgorffori perthnasoedd iach a dulliau gweithredu adferol i'r cwricwlwm;
- ystyried sut mae diwygio'r cwricwlwm yn cydweddu â diwygio gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant er mwyn sicrhau'r gefnogaeth orau bosibl ar gyfer llesiant disgyblion;
- adolygu'r Canllawiau Parchu Eraill; a sicrhau bod cynllun strategol, hir dymor ar gyfer datblygu dull gweithredu cyson o dacio bwlio ledled Cymru.

## Rhannu'r negeseuon o Stori Sam – a gweithredu ar sail yr argymhellion

Un o brif argymhellion ein gwaith ar 'Stori Sam' yw bod plant a phobl ifanc o bob oed yn cael amser bugeiliol wedi'i hwyluso i fyfrio ar eu perthnasoedd a'u trafod. Fe wnaethon ni gyhoeddi adnoddau ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cyn wythnos gwrthfwlio 2017, gan ddefnyddio'r adnoddau hyn yn un dull o weithredu ar sail yr argymhellion. Roedd yr adnoddau hyn yn darparu syniadau a gweithgareddau ymarferol i athrawon a swyddogion cymorth bugeiliol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm ac yn helpu arwain trafodaethau, a hyrwyddo ymwybyddiaeth am broblemau bwlio ar draws Cymru yn 2017. Cafodd ein hadnoddau ar gyfer ysgolion cynradd eu lawrlwytho 10,640 o weithiau, a lawrlwythwyd yr adnodd uwchradd 1439 o weithiau.

**Adnodd Ysgolion Cynradd** – aeth Ysgol Gynradd Penygawsi ati fel ysgol gyfan i gyflawni tasg arbennig Stori Sam ym mis Hydref 2016, gan ddatblygu cyfres o gynlluniau gwersi wedi'u gwahaniaethu ar gyfer pob cyfnod allweddol ac addasu'r adnoddau oedd eisoes yn bodoli. Fe fuon ni'n gweithio gydag athro yn yr ysgol i gyd-gynhyrchu adnodd gwrthfwlio oedd yn arddangos y dull gweithredu ysgol gyfan roedd Penygawsi yn ei ddefnyddio wrth addysgu.

**Adnodd Ysgolion Uwchradd** – buon ni'n gweithio gyda Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru i gynhyrchu Adnodd i Ysgolion Uwchradd. Yn ogystal â chyfres o weithgareddau ymarferol a syniadau, fe wnaethon ni gynnwys canllawiau i athrawon ysgolion uwchradd ar fwlio seiliedig ar hunaniaeth: beth mae angen i athrawon ei wybod. Mae hyn yn esbonio sut gall dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus gael ei defnyddio i fynd i'r afael â bwlio seiliedig ar hunaniaeth yn yr ysgol, a hefyd yn rhoi gwybodaeth i athrawon fel eu bod yn deall y nodweddion a amddiffynnir yn well ac yn adlewyrchu hynny yn eu trafodaethau gyda disgyblion.



# Rhai o uchafbwyntiau'r gwaith prosiect

## Mynd â negeseuon Stori Sam i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ym mis Tachwedd 2017, fe fuon ni'n arddangos detholiad o ddelweddau a geiriau, a grewyd gan blant a phobl ifanc, ac a gasglwyd fel rhan o ymgynghoriad Stori Sam. Fe gymeron ni'r cyfle hwn i amlygu effaith wirioneddol cael eu bwlio ar fywydau plant yng Nghymru, gan ddod â'r negeseuon hynny'n uniongyrchol at ymwelwyr cyhoeddus â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a'r llunwyr penderfyniadau sy'n gweithio yno.

Cyfrannodd grŵp o artistiaid ifanc oedd yn rhan o'r grŵp, Criw Celf, ymateb artistig i'r deunydd gasglon ni'n wreiddiol, ac archwilio'r syniad o'u rhoi eu hunain yn 'esgidiau Sam'. Fe roeson ni ddetholiad o'r delweddau gweledol, yr hanesion ysgrifenedig a'r blogiau roedden ni wedi'u derbyn i'r grŵp o artistiaid ifanc. Bu'r grŵp yn myfyrio ar y rhain ac yn ymateb iddyn nhw, gan ychwanegu atynt yn effeithiol â'u naratif personol eu hunain a'u profiadau o fwlio, a chyfrannu at yr arddangosfa hon oedd yn cynnig digon i gnoi cil arno. Bu Swyddogion fîm Addysg ac Ymgysylltu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys ymweliad â'n harddangosfa fel rhan o'u teithiau ym mis Tachwedd. Daeth mwy na 200 o ddisgyblion i ymweld â'r arddangosfa.





# Rhai o uchafbwyntiau'r gwaith prosiect

## Bywydau Llawn: Mynediad Cyfartal?

Yn ystod 2017 fe wnaethon ni waith dilynol ar ein hadroddiad 'Bywydau Llawn: Mynediad Cyfartal?' o fis Tachwedd 2014, oedd yn amlygu pryderon ynghylch mynediad i gadeiriau olwyn ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd yng Nghymru.

Cyflwynodd yr adroddiad argymhellion i Lywodraeth Cymru, a gofyn iddyn nhw ddiweddarau eu canllawiau ar fynediad i ddisgyblion anabl, a sicrhau bod y rhai sy'n adeiladu ysgolion newydd o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn dangos eu bwriad i gynyddu hygyrchedd. Gofynnwyd hefyd i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob Awdurdod Lleol ac ysgol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Fe gysyllton ni â phob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru, a siarad â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru (WAO). Roedden ni eisiau gwybod a yw Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer cynyddu mynediad disgyblion yng Nghymru i addysg. Roedden ni hefyd eisiau gwybod a yw plant a'u teuluoedd yn gallu cael mynediad i wybodaeth glir am hygyrchedd ysgolion yn eu hardal, er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus ac i sicrhau bod plant yn gallu mynd i'w dewis ysgol, ynghyd â'u ffrindiau.

Cyhoeddwyd yr adroddiad dilynol ym mis Mawrth 2018. Roedd yr adroddiad hwn yn amlygu gwelliannau cyffredinol yn ymwybyddiaeth ysgolion ac awdurdodau lleol o'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ond mae'n dal yn wir ei bod hi'n eithriadol o anodd i blant a'u teuluoedd gael yr wybodaeth angenrheidiol pan fydd angen iddyn nhw wneud penderfyniadau ynghylch llefydd ysgol. Roedd hefyd yn wir, heblaw am ambell enghraifft unigol gadarnhaol, nad yw ysgolion ac awdurdodau lleol yn ymgynghori â phobl ifanc fel mater o drefn nac yn eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch pa le ysgol fydd orau iddyn nhw. Roedd y profiadau amlygon ni yn dangos, os yw pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio pontio i'r ysgol uwchradd, er enghraifft, fod y profiadau hynny'n llawer mwy cadarnhaol. Gall y ddarpariaeth gael ei theilwra i anghenion unigol y dysgwyr, gan sicrhau bod modd iddo/iddi gyrchu pob rhan o ystâd yr ysgol.

Roedd y canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch mynediad i ysgolion yn dal wedi dyddio'n fawr, heb gyfeiriad clir at hawliau plant nac at bwysigrwydd cynnwys pobl ifanc yn y penderfyniadau ynghylch llefydd hygyrch yn yr ysgol.

Yn eu hymateb i'r adroddiad hwn, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithio gyda'm swyddfa i er mwyn diwygio'u canllawiau ac adlewyrchu'r pwyntiau hyn.



# Rhai o uchafbwyntiau'r gwaith prosiect

## Chwarae a Hamdden: Erthygl 31 CCUHP

Ym mis Mawrth 2018 fe gyhoeddodd ni adroddiad Sbotolau: Erthygl 31 – yr hawl i bob plentyn gael gorffwys a hamdden, cymryd rhan mewn chwarae a gweithgareddau adloniant a chyfranogi mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau. Llywiodd yr adroddiad gan farn dros 450 o blant a phobl ifanc yng Nghymru, ac roedd yn rhoi cipolwg ar eu profiadau o chwarae a mynediad i chwaraeon, y celfyddydau, a chyfleoedd diwylliannol a threftadaeth.

Roedd yn braf clywed yn ystod y gwaith maes fod llawer o blant a phobl ifanc yn mwynhau'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw, ond mae'n eglur bod angen gwneud mwy. Roedd yn drawiadol, er gwaethaf yr amrywiaeth o amgylchiadau byw a gwahanol anghenion, bod nifer o rwystrau cyffredin wedi dod i'r amlwg. Sefyllfa ariannol, trafndiaeth a diffyg dewis oedd y prif resymau dros fethu cymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig. Yn y cyfamser roedd negeseuon clir ynghylch y gwerth mae ein plant a'n pobl ifanc yn ei roi ar chwarae a chael profiadau yn agos at ble maen nhw'n byw, a bod meddu ar hyder neu amser i wneud yn fawr o'r cyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd yn cael eu gweld fel anawsterau gwirioneddol iddyn nhw.

Bu plant a phobl ifanc mewn amgylchiadau arbennig hefyd yn nodi'r heriau penodol roedden nhw'n eu hwynebu. Er enghraifft, roedd plant anabl yn teimlo eu bod nhw'n cael ychydig iawn o gyfleoedd y tu allan i'r ysgol i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau roedd eu cyfoedion heb anabled yn eu mwynhau. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys enghreifftiau o sut mae sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu cyfleoedd chwarae, adloniant, celf, diwylliant a threftadaeth yn gallu ymgorffori hawliau plant i'w gwaith trwy fabwysiadu Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant.

Rydym ni wedi hyrwyddo'r adroddiad i amrywiaeth o sefydliadau a'u hannog, nid yn unig i ystyried sut gall lywio eu ffordd bresennol o feddwl, ond hefyd i ystyried a ydyn nhw'n darparu trefniadau digonol i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i'w galluogi i lywio a chynllunio eu gwasanaethau. Mae gwerth gwirioneddol i ddarparu cyfleoedd o'r fath, nid yn unig i blant a phobl ifanc, ond i'r sefydliadau eu hunain.

# Rhai o uchafbwyntiau'r gwaith prosiect

## Taclo Islamoffobia

Mae ymchwili yn dangos bod troseddau atgasedd crefyddol wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bod hynny'n fwy tebygol o effeithio ar Fwslimiaid nag unrhyw grŵp crefyddol arall. Mae'r ffigurau hefyd yn dangos bod y gymuned Fwslimaidd yn ifancach na Phrydain yn gyffredinol, gyda 33% yn 15 oed neu dan hynny yn 2011, o gymharu â 19% o holl boblogaeth Prydain ar yr adeg honno, sy'n golygu y gallai Islamoffobia gael effaith anghymesur ar bobl ifanc.

Fe glywsom ni'n uniongyrchol gan Fwslimiaid ifanc o bob rhan o Gymru sy'n aml yn cael eu cam-drin, eu sarhau a'u bygwth oherwydd eu ffydd. Roedden ni eisiau cynyddu ymwybyddiaeth o'r niwed a achosir gan Islamoffobia ac annog pob plentyn a pherson ifanc i fedru adnabod stereoteipio negyddol ar Fwslimiaid yn y cyfryngau, sef rhywbeth roedden ni wedi'i nodi fel ffactor pwysig y tu ôl i gamdriniaeth Islamoffobig.

Er mwyn cyflawni ein nod o herio stereoteipiau negyddol o Fwslimiaid a chynyddu ymwybyddiaeth o Islamoffobia yng Nghymru, fe benderfynon ni fod angen i ni wneud y canlynol:

- **Creu adnodd ar gyfer ysgolion uwchradd oedd yn caniatáu i ddisgyblion archwilio'r pwnc**
- **Sicrhau bod adnoddau yn cynnwys cysylltiadau clir i ysgolion â Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Llywodraeth Cymru a'r Fframwaith Llythrennedd Digidol**
- **Creu fideos i rannu profiadau uniongyrchol Mwslimiaid ifanc gyda'u cyfoedion ym mhob rhan o Gymru**
- **Annog disgyblion i adnabod a herio portreadau niweidiol yn y cyfryngau**
- **Helpu disgyblion i ddeall pa mor niweidiol yw camdriniaeth hiliol**
- **Helpu disgyblion i ddathlu'r elfennau cyffredin rhwng pobl a'i gilydd**
- **Helpu disgyblion i ddeall nad rhywbeth wedi'i gyfyngu i fannau sy'n bell i ffwrdd yw Islamoffobia: mae'n fater sy'n effeithio ar bobl ifanc yng Nghymru yn ogystal ag ar draws y byd.**

<sup>1</sup> <http://www.theguardian.com/world/2015/oct/26/muslim-leaders-in-uk-warn-of-worrying-levels-of-islamophobia>

<sup>2</sup> <http://www.bbc.co.uk/news/uk-31435929>

## Rhai o uchafbwyntiau'r gwaith prosiect

Fe gwrddon ni â staff yn y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) yn Abertawe a Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yng Nghaerdydd – sydd fel ei gilydd yn sefydliadau blaenllaw yng Nghymru, yn gweithio gyda ac ar ran Mwslimiaid ifanc, ym msg grwpiau eraill. Roedd eu cyngor yn adleisio barn y Mwslimiaid ifanc yn ein grwpiau ffocws; roedd Islamoffobia yn bryder cynyddol ac roedd unrhyw ddeunydd fyddai'n cefnogi cynyddu ymwybyddiaeth i'w groesawu.

Fe gwrddon ni hefyd â grŵp o staff addysgu uwch o bum ysgol uwchradd. Fe ddwedon nhw wrthyn ni fod angen i'r adnodd fod yn ddiddorol ac yn hyblyg, ac y dylid defnyddio'r iaith Gymraeg i adlewyrchu'r ffaith bod modd i Fwslimiaid yng Nghymru fod mor 'Gymreig' ag unrhyw ddinesydd arall, a bod Islamoffobia yn broblem yng Nghymru.

Fe gynhyrchon ni adnodd Tacllo Islamoffobia, oedd yn cynnwys tair sesiwn, a luniwyd ar gyfer pobl ifanc 11-14 oed (Cyfnod Allweddol 3). Roedd pob sesiwn yn canolbwyntio ar hawl wahanol, fel y nodwyd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Trwy ddefnyddio fideos a gweithgareddau rhyngweithiol, gallai pobl ifanc archwilio sut mae pobl ifanc yng Nghymru yn gyffredinol yn profi eu hawliau, a Mwslimiaid ifanc yng Nghymru yn benodol. Gallai'r sesiynau gael eu cyflwyno fel rhai annibynnol, ond byddant yn fwyaf effeithiol o'u cynnal fel cyfres o dair, fel bod y dysgu'n gynyddol. Roedd y canllawiau ategol i athrawon yn cynghori athrawon ynghylch y ffordd orau o hwyluso cyfle i bobl ifanc archwilio hawliau plant a deall a herio camwahaniaethu.

### Dyma'r canlyniadau:

- **1274 wedi lawrlwytho'r adnodd**
- **4674 wedi gwyllo'r fideo**
- **85 enghraifft o sylw cadarnhaol yn y cyfryngau wedi'u sicrhau ar gyfer yr adnodd newydd, er mwyn cyrraedd 31 miliwn**

**Roedd 96% o'r disgyblion a ddychwelodd y ffurflenni gwerthuso yn y tri mis cyntaf yn cytuno eu bod yn 'fwy tebygol o adnabod stereoteipio negyddol yn y cyfryngau', tra bod 78% yn cytuno eu bod yn 'fwy tebygol o herio stereoteipio negyddol.'**




**1274**

wedi lawrlwytho'r adnodd



**4674**

wedi gwyllo'r fideo



**85**

enghraifft o sylw cadarnhaol yn y cyfryngau wedi'u sicrhau ar gyfer yr adnodd newydd, er mwyn cyrraedd 31 miliwn



## Dyfyniadau o ffurflenni gwerthuso disgyblion

Maent yn cael eu trin yn wahanol,  
ac mae anegn stopio hyn

Rwy'n gwybod eu bod  
nhw'n union fel fi

Maent wedi fy helpu i ddeall bod  
hyn yn digwydd ym mhob man

Rydw i'n gwybod am beth i chwilio, a bydda i'n  
ceisio cael hyd i newyddion mwy dibynadwy



# Uchafbwyntiau'r gwaith craidd

Isod ceir dadansoddiad o'n prif gyflawniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ym **mlwyddyn 1** (2016-17) o'n cynllun strategol, trwy gyflawni ein **gwaith craidd** (o ddydd i ddydd).

## POLISI A MATERION CYHOEDDUS

### Eiriolaeth

Mae ein gwaith dylanwadu pwysig eleni, ynghyd â chyrrff eraill allweddol megis WLGA a Llywodraeth Cymru, wedi arwain at ymrwymiad gan bob awdurdod lleol i roi dull gweithredu cenedlaethol ar waith yng nghyswllt eiriolaeth erbyn mis Mehefin 2017. Mae hynny'n golygu y bydd rhai o blant mwyaf peryglus Cymru yn cael cynnig gwasanaeth eiriolydd, a hynny mewn modd rhagweithiol.

## CYFATHREBU

### Cysylltiadau Cyfryngau

Sicrhawyd 437 enghraifft bositif/niwtral o sylw i'n gwaith a materion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc

Cyfryngau cymdeithasol: lansio tudalen Facebook a chynyddu nifer y dilynwyr Twitter

## CYFRANOGIAD

### Grŵp Ymgynghorol

Recriwtio a hyfforddi aelodau 12-18 oed i roi cyngor a chefnogaeth annibynnol i'r Comisiynydd a'r fim o staff.

### Senedd Ieuentid

Ym mis Hydref, ymatebodd Llywydd y Cynulliad i'n galwad am ofod democrataidd cenedlaethol i bobl ifanc. Cyhoeddodd Elin Jones AC ei bwriad i weithio tuag at sefydlu senedd ieuentid i Gymru yn gynnar yn y tymor Cynulliad hwn. Mae'r Comisiynydd ac aelod o'i phanel ieuentid ymgynghorol wedi chwarae rhan weithredol yn y gweithgor a grewyd gan y Cynulliad i gefnogi'r gwaith o greu hyn.

## YMCHWILIADAU A CHYNGOR

### Gwaith achosion

Bu ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor annibynnol yn delio gyda 529 o achosion unigol

## CYLLID, AD A TG

### Archwilio Mewnol

Mae sawl adroddiad annibynnol a gafwyd gan Deloitte wedi rhoi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd a digonolrwydd llawer o agweddau ar ein prosesau a'n systemau mewnol, sy'n golygu ein bod yn rheoli'r adnoddau sydd ar gael i ni yn effeithiol.

### Recriwtio

Cafodd pobl ifanc eu cefnogi i gyflawni rôl bwysig wrth recriwtio nifer o aelodau staff newydd, gan gynnwys swyddogion polisi, cyfranogiad ac ymchwiliadau a chyngor.

# Uchafbwyntiau'r gwaith craidd

Isod ceir dadansoddiad o'n prif gyflawniadau dros blant a phobl ifanc ym **mlwyddyn 2** (2017-18) o'n cynllun strategol, trwy gyflawni ein **gwaith craidd** (o ddydd i ddydd).

## POLISI A MATERION CYHOEDDUS

### Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae dyletswydd 'sylw dyledus' i CCUHP wedi cael ei chynnwys yn Neddff Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Bydd hynny'n golygu bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu disgwyl bod eu hawliau'n cael eu hystyried a'u parchu gan awdurdodau lleol a chyrrff eraill sy'n gwneud penderfyniadau am y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i gyflawni eu potensial ym myd addysg.

### Eiriolaeth

Mae'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol bellach yn ei le ym mhob rhanbarth yng Nghymru, gan gynnwys Cynnig Eiriolaeth Gweithredol. Mae ein gwaith wedi cael dylanwad sylweddol ar hyn.

## CYFATHREBU

### Cysylltiadau Cyfryngau

Sicrhawyd 763 o enghreifftiau gwahanol o sylw yn y cyfryngau i'n gwaith ac i faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc – pob un ohonynt yn gadarnhaol yn bennaf neu'n sylw niwtral

### Cyfryngau Cymdeithasol

Cyfryngau cymdeithasol: lansio proffil Instagram a chynyddu nifer y dilynwyr Twitter i fwy na 10,000

Cynhyrchu dros 5000 o negeseuon trydar gan ddefnyddio'r hashnod #AwrHawliau, er mwyn dathlu gwaith hawliau plant ledled Cymru.

## CYFRANOGIAD

### Cynlluniau Llysgenhadon

Llysgenhadon Gwych

- 402 ysgol gynradd

Llysgenhadon Myfyrwyr

- 102 o ysgolion uwchradd, gan gynnwys 9 coleg ac UCD

Llysgenhadon Cymunedol

- Recriwtio 11 o grwpiau newydd, wedi 14 o weithdai
- Creu pecyn adnoddau rhyngweithiol i gefnogi'r grŵp
- Ymwneud â 5 o'n prosiectau eleni
- Cynnal digwyddiadau rhanbarthol i'r llysgenhadon gwrdd â'r Comisiynydd
- Hwyluso sgwrs am ostwng oed pleidleisio i 16 rhwng llysgenhadon a Mark Drakeford AC

## YMCHWILIADAU A CHYNGOR

### Gwaith achosion

554 o achosion unigol wedi derbyn sylw gan ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor annibynnol

- 342 o faterion wedi'u codi am addysg, gan gynnwys Anghenion Addysgol Arbennig (98), cwynion (66) a Bwlio (25)
- 251 o faterion wedi'u codi am wasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys cwynion (91) a darparu gwasanaeth (22)

Pwy gysylltodd â ni gyntaf?

- 322 o rieni
- 56 aelod estynedig o'r teulu
- 31 aelod o'r cyhoedd
- 26 o blant neu bobl ifanc
- 21 aelod etholedig
- 20 o weithwyr proffesiynol eraill
- 19 gofalwr maeth
- 11 gwasanaeth eiriolaeth
- 17 anhysbys

## CYLLID, AD A TG

**Mae gwerthusiad o rai o'n prosesau mewnol i'w weld ar dudalen 82.**

### Cyflog Byw

Cawson ni ein hachredu gan y Sefydliad Cyflog Byw fel cyflogwr cyflog byw. Mae hynny'n golygu ein bod ni'n talu o leiaf gyflog byw gwirioneddol i'r holl staff a gyflogir yn uniongyrchol a chontractwyr ar y safle.

### Gweithio mewn Partneriaeth

Fe ymunon ni ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i ddarparu storio wrth gefn oddi ar y safle. Gan ddefnyddio menter PSBA Llywodraeth Cymru, mae'r cydweithio hwn yn ddewis amgen cost-effeithiol ar gyfer storio oddi ar y safle fel rhan o Strategaeth Adfer wedi Trychineb.

# Uchafbwyntiau'r gwaith craidd

Isod ceir dadansoddiad o'n prif gyflawniadau dros blant a phobl ifanc ym **mlwyddyn 2** (2017-18) o'n cynllun strategol, trwy gyflawni ein **gwaith craidd** (o ddydd i ddydd).

## POLISI A MATERION CYHOEDDUS

### Breuddwydion Cudd

O ganlyniad i'n gwaith dylanwadu ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, dyrannwyd £625,000 ychwanegol eleni i gefnogi lleoliadau gwaith/lleoedd i hyfforddeion sy'n ymadawyr gofal.

Mewn ymateb i'r adroddiad hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gronfa Gŵyl Ddewi o £1filiwn ar gyfer ymadawyr gofal a chyllid pellach er mwyn i awdurdodau lleol ymateb i'n galwad am gefnogaeth Ymgynghorydd Personol i bawb sy'n gadael gofal hyd at 25 oed.

### 'Y Gofal Cywir: hawliau plant mewn gofal preswyl', 2016

Erbyn mis Chwefror 2017, roedd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Preswyl Plant wedi derbyn a chynnwys ein holl argymhellion yn ei gynllun gwaith.

## CYFRANOGIAD

### Senedd Ieuentid

Bu'r Comisiynydd ac aelod o'n panel ymgynghorol yn chwarae rhan weithredol yn y gweithgor a sefydlwyd gan y Llywydd i gynghori ynghylch trefniant y senedd ieuentid newydd i Gymru.

### Gwaith ymgysylltu

Fe wnaethon ni ymgysylltu'n uniongyrchol â 9443 o blant a phobl ifanc, gan gynnwys 2450 ar gyfer ein gwaith prosiect.

## CYLLID, AD A TG

### Cyfle i Hyfforddai

Drwy weithio gyda Choleg CNPT, fe wnaethon ni groesawu person ifanc ar gwrs 12 wythnos i hyfforddai. Roedd y rhaglen i'r person ifanc wedi'i seilio ar ganlyniadau NVQ Gweinyddiaeth Fusnes, ond roedden nhw hefyd yn cael cyfle i gydweithio'n agos â'r swyddogaeth gyfranogiad.

Ar ôl cael trafferth sicrhau cyflogaeth ar y cychwyn, llwyddodd y person ifanc i sicrhau cyfweiliadau gyda sawl cyflogwr ar ôl treulio cyfnod gyda ni.



**Mae ein paneli ymgynghorol yn parhau i gael effaith positif iawn ar ein gwaith. Mae'r tudalennau nesa yn dangos peth o'r effaith yma, wedi ei dynnu gan artist mewn digwyddiad diweddar.**





# EFFAITH EIN GWAITH AC UNRHYW WERSI I'W DYSGU





Y 5 egwyddor o Dull  
Hawliau Plant yw  
Ymgorffori hawliau  
plant, Cydraddoldeb  
a Di-wahaniaethu,  
Grymuso, Cyfranogiad  
ac Atebolrwydd.



# Y Ffordd Gywir

**Ym mis Mawrth 2017, fe gyhoeddwn ni 'Y Ffordd Gywir', sy'n cyflwyno model i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ei ddefnyddio i sicrhau Dull Gweithredu Hawliau Plant, a fyddai'n galluogi sefydliadau i roi blaenoriaeth i hawliau plant yn eu gwaith.**

Roedd cymaint o ddiddordeb yn y canllaw hwn nes i ni benderfynu creu model wedi'i deilwra ar gyfer sefydliadau addysg, ['Y Ffordd Gywir i Addysg'](#), a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017. Mae'r dull gweithredu hwn, a seiliwyd ar Hawliau Plant, o ymdrin ag addysg yn ceisio diogelu anghenion tymor hir plant a phobl ifanc, a bydd yn helpu i ddatblygu unigolion iach, hyderus sy'n gallu dysgu a ffynnu. Mae'r fframwaith yn gwneud hawliau plant yn ganolog i brofiad plentyn o fyd addysg ac yn greiddiol i gynllunio, addysgu, gwneud penderfyniadau, polisiau ac ymarfer yn yr ysgol. Cynhwysir rhai enghreifftiau o ymarfer diddorol o ysgolion ledled Cymru sy'n ymdrin ag addysg mewn modd sy'n seiliedig ar Hawliau Plant.

Yn ogystal ag annog pob corff cyhoeddus i weithredu 5 egwyddor dull gweithredu Hawliau Plant, rydyn ni hefyd wedi dadansoddi i ba raddau mae ein sefydliad ein hunain yn rhoi'r egwyddorion hynny ar waith.



# Ein 'ffordd gywir'

## Gwreiddio:

**dylai hawliau plant fod yng ngreiddiol wrth gynllunio a darparu gwasanaeth**

- Mae ein Polisi Cynllunio Strategol a'n Cynllun Strategol wedi ei greu o amgylch hawliau plant
- Mae cyfeiriad penodol at ddiogelu a hybu hawliau plant yn rhan benodol o ddisgrifiad swydd pob aelod o staff
- Mae gennym dîm Cyfranogiad ymroddedig sy'n helpu i hybu hawliau plant trwy ein cynlluniau Llysgenhadon
- Mae gennym dîm Cyfathrebu ymroddedig sy'n helpu i hybu hawliau plant
- Mae ein cofrestr risgiau corfforaethol yn cyfeirio'n benodol at yr angen i ni ddiogelu hawliau plant yn ein gwaith

## Grymuso:

**gwella galluedd plant fel unigolion er mwyn iddyn nhw fod mewn sefyllfa well i fanteisio ar eu hawliau**

- Mae ein tîm Ymchwiliadau a Chyngor yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddiogelu hawliau plant
- Mae ein Cynlluniau Llysgenhadon yn galluogi plant a phobl ifanc i fod yn llysgenhadon dros hawliau plant a'r Comisiynydd yn eu hysgolion a'u cymunedau
- Mae aelodau ein panel ymgynghorol pobl ifanc yn derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol i graffu ar ein gwaith a'n cynghori yn ei gylch
- Mae ein holl gyhoeddiadau'n cael eu cyhoeddi mewn fformatau hygrych
- Mae pobl ifanc yn aml yn cael gwahoddiad i lunio adolygiad cymheiriaid ar ein gwaith cyn ei gyhoeddi
- Mae ein Cynllun Strategol a'n Cynlluniau Gwaith i gyd wedi'u bwriadu i hybu hawliau plant yng Nghymru
- Mae cyfres deunyddiau Y Ffordd Gywir i gyd yn hybu ac yn annog cyrff cyhoeddus ledled Cymru i fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant

## Cydraddoldeb a pheidio â

### chamwahaniaethu:

**sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i wneud yn fawr o'u bywydau, a thrin pawb yn deg**

- Un o'n prif werthoedd sefydliadol yw gwrthweithio pob math ar gamwahaniaethu a'n hymrwymiad i lynu at ddeddfwriaeth cydraddoldeb ym mhob rhan o'n gwaith
- Mae ein rhaglen hyfforddi flynyddol i staff yn cynnwys elfen hyfforddiant gorfodol ar fater cydraddoldeb
- Mae gennym ni Gynllun Cydraddoldeb Strategol, sy'n cynnwys gofyniad i bob rheolwr prosiect gynnal Asesiad Effaith llawn ar Gydraddoldeb ar eu gwaith
- Bob blwyddyn, byddwn ni'n cynnal arolwg i ganfod lefelau ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r Comisiynydd Plant, ac mae canlyniadau hynny yn dal i gael eu rhannu yn ôl oedran a chefnidir demograffig
- Y prif ddyhead yr ydym wedi'i gynnwys yn ein strategaeth tair blynedd, yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod.

# Ein 'ffordd gywir'

## Cyfranogiad:

### gwrando ar blant a rhoi sylw ystyrlon i'w barn

- Mae ein datganiad o weledigaeth yn cynnwys ymrwymiad i alluogi plant a phobl ifanc i chwarae rhan eglur, ddilys yn y gwaith o hysbysu a helpu cyfeirio ein gwaith.
- Mae ein Strategaeth Gyfranogiad yn cynnwys manylion ein holl waith ymgysylltu, y cyfan wedi'i seilio ar Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru
- Mae cyfranogiad gyda phlant a phobl ifanc yn cael ei gynnwys ym mhob disgrifiad swydd
- Mae ein holl gynlluniau prosiect yn cynnwys gwaith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau bod ein holl waith wedi'i seilio ar leisiau a phrofiadau plant
- RHANNU: cyfarfod wythnosol yw hwn lle mae'r holl geisiadau am ymweliadau ysgol a gweithdai yn cael eu trafod a'u dyrannu i'r staff
- Mae ein panel ymgynghorol pobl ifanc yn cynnwys aelodau o bob rhan o Gymru, ac yn meddu ar rôl benodol o ran ein galw ni i gyfrif ynghylch ein haddewidion. Gwahoddir yr Aelodau i ddod yn aelodau o'n gweithgorau prosiect hefyd.
- Mae ein cynlluniau Llysgenhadon yn darparu sylfaen systematig i ni alluogi plant a phobl ifanc o ystod aruthrol o gefndiroedd fedru dylanwadu ar ein gwaith

## Atebolrwydd:

### bod yn atebol i blant am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau

- Yn ein hadroddiad blynyddol rydyn ni'n sôn am y cynnydd a wnaethom yn erbyn ein cynllun strategol
- Rydyn ni'n mesur effaith ein gwaith yn flynyddol, ac yn cynhyrchu adroddiad arno bob mis i'n Tîm Rheoli, bob tri mis i'n Pwyllgor Archwilio, ac yn flynyddol yn ein hadroddiad blynyddol
- Rydyn ni'n gofyn i'n paneli ymgynghorol (gan gynnwys ein panel ymgynghorol pobl ifanc) i'n galw i gyfrif o ran yr ymrwymadau rydyn ni wedi'u gwneud
- Mae gwybodaeth ynghylch sut mae cwyno amdanon ni ar gael mewn fformat hygyrch ar ein gwefan

## Ein cynllun gwella

- Parhau i weithio gyda thîm Senedd leuenctid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i sefydlu mecanwaith er mwyn i aelodau newydd fedru galw'r Comisiynydd i gyfrif
- Nodi ffyrdd y gallwn ni edrych ymhellach ar ddealltwriaeth ymgeiswyr o'n gwerthoedd craidd, a hefyd am hawliau plant yn ystod ymgyrchoedd recriwtio.

# Y Ffordd Gywir

## Rhai enghreifftiau o gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru sydd wedi penderfynu mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant, yn dilyn ein gwaith dylanwadu

### Seminar Iechyd Plant Gychwynnol Cymru Gyfan

Ym mis Mehefin 2017, ar y cyd â Iechyd Cyhoeddus Cymru, cynhaliodd ein swyddfa seminar ar gyfer cynrychiolwyr o bob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd yng Nghymru, i drafod hawliau plant mewn lleoliadau iechyd.

Roedd llawer o bobl yn bresennol, a chafwyd trafodaethau ffrwythlon ar egwyddorion Y Ffordd Gywir, gyda phawb oedd yno yn cytuno i wneud rhai addunedau er mwyn ymgorffori hawliau plant yn eu maes. Bydd y seminar yn dod yn ddigwyddiad blynyddol, ac yn caniatáu gweld beth yw hynt yr addunedau hyn. Mae'n gyfle i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau ddod at ei gilydd i rannu syniadau ac enghreifftiau o arfer da, fydd wedyn yn gallu cael eu rhoi ar waith ledled Cymru. Mae hefyd yn ein cynorthwyo i gael gwybod am y tueddiadau a'r materion allweddol diweddaraf sy'n codi mewn lleoliadau iechyd ledled Cymru, a chadw mewn cysylltiad â'r arweinydd diogelu penodedig ym mhob sefydliad.

### Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu defnyddio dull gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant, a dechreuodd trwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc (8-18 oed) i gasglu adborth ar 'Beth maen nhw'n ei ddisgwyl wrth ddefnyddio unrhyw un o'n gwasanaethau'. Yna defnyddiwyd yr adborth hwn i ddatblygu cyfres o 'Addewidion i Blant a Phobl Ifanc', fydd yn cael eu rhannu gyda staff yr Ymddiriedolaeth. Bydd profiadau plant a phobl ifanc yn cael eu mesur yn erbyn yr addewidion hyn.

### Amgueddfa Cymru

Fel rhan o'i menter 'Kick the Dust', mae'r tim wedi bod yn gweithio gyda phobl ifanc i ddod i fyny gyda syniadau gwahanol ar sut i apelio at gynulleidfaoedd ifanc, yn enwedig rheiny o grwpiau ymylol neu heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae nhw hefyd wedi bod wrthi'n dechrau gwreiddio hawliau plant yn eu polisiau diogelwch, atebolrwydd a chydarddoldeb.

# Y Ffordd Gywir

## Cyngor Sir Powys

Ym mis Hydref 2017, yn dilyn ymweliad arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Gorffennaf 2017, rhoddwyd Hysbysiad Rhybudd i Wasanaethau Cymdeithasol Plant Cyngor Sir Powys, o dan Ran 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ar ôl cyflwyno'r Hysbysiad Rhybudd, cafwyd cais gan Lywodraeth Cymru i'n Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Rachel Thomas, gynrychioli'r swyddfa ar y Bwrdd Gwelliant a sefydlwyd i helpu'r Cyngor i ymateb i ganfyddiadau'r arolygiad.

Mae Rachel wedi ymwneud â gweithgareddau'r Bwrdd yn fisol, ac mae hi'n gweithio i sicrhau bod lleisiau plant a'u hawliau yn cael eu cydnabod yn benodol, a bod gweithredu ar sail hynny yng ngwaith y Cyngor. Mae Rachel yn parhau i ymwneud â'r Bwrdd Gwelliant a Sicrwydd diwygiedig fel ymgynghorydd.

Mae'r Cynllun Gwella ar gyfer gwasanaethau plant yn cyfeirio'n benodol at CCUHP ac yn gwneud ymrwymadau cysylltiedig, gan gynnwys gwreiddio CCUHP yng ngwaith y Cyngor a dilyn egwyddorion Y Ffordd Gywir.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda Phrif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn rhannu unrhyw bryderon ac adroddiadau am y cynnydd diweddaraf.

## Carchar EM a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc

Yn dilyn cyfarfod rhwng y Comisiynydd a'r Llywodraethwr yn y Parc, roedden nhw'n awyddus i wreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau yn eu hymarfer. Trwy ddilyn egwyddorion 'Y Ffordd Gywir' rydyn ni wedi bod yn cefnogi'r Parc i ganfod ffyrdd ymarferol o fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn yr uned addysg. Cytunwyd ar yr agwedd gweithredu gan yr uwch staff ac wedi trefnu ymweliad ag Ysgol Gynradd y Garth, Pen-y-bont, er mwyn i'r rheolwyr weld yn uniongyrchol effaith gadarnhaol bosibl dull gweithredu o'r fath ar bobl ifanc.

**I gael rhagor o fanylion am yr astudiaethau achos hyn, neu i ddarllen mwy am y sefydliadau sydd wedi mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, ewch i'n gwefan [www.complantcymru.org.uk](http://www.complantcymru.org.uk)**



Rwyf wrth fy moddeï  
bod wedi sicrhau 'sylv  
dyledus' i hawliau plant  
yn y ddeddfwriaeth  
newydd anghenion  
dysgu ychwanegol.



# Hawliau Plant yng Nghymru

## Mesurau Gweithredu Cyffredinol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnal ar lefel genedlaethol, mae nifer o fesurau a elwir yn 'Fesurau Gweithredu Cyffredinol' sy'n gallu cael eu defnyddio i fesur cynnydd ym mhob gwlad neu barti gwladol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfreithiau, polisiau, sefydliadau, cyllidebau a chamau gweithredu eraill y bydd angen i wledydd ganolbwyntio arnynt er mwyn gweithredu'r hawliau a geir yn CCUHP yn effeithiol.

Rydyn ni wedi rhoi sylw i Fesurau Gweithredu Cyffredinol CCUHP yn yr adran sy'n dilyn, er mwyn nodi faint o gynnydd mae Cymru wedi'i wneud ym maes hawliau plant yn ystod y flwyddyn.

# Hawliau Plant yng Nghymru

## Ymgorffori

Mae ymgorffori CCUHP yn uniongyrchol i ddeddfau a pholisïau Cymru yn rhoi i'r hawliau a geir yn y Confensiwn effaith ystyrion i blant.

Rydym yn falch iawn o nodi, wedi cryn lobio a chyflwyno tystiolaeth helaeth gan ein swyddfa innau ac eraill, fod dyletswydd i roi 'sylv dyledus' i CCUHP wedi cael ei chynnwys ar wyneb Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Bydd hyn yn golygu bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu disgwyl bod eu hawliau'n cael eu hystyried a'u parchu gan awdurdodau lleol a chyrrff eraill sy'n gwneud penderfyniadau am y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni eu potensial ym myd addysg.

## Cynllun Gweithredu

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gofyn bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu Cynllun Hawliau Plant. Mae'r cynllun hwnnw'n galw am gynhyrchu adroddiad cydymffurfio sy'n edrych ar effeithiolrwydd y Llywodraeth yn cyflawni yn erbyn y Mesur a CCUHP yn ystod y cyfnod ers yr adroddiad diwethaf (Mehefin 2015).



# Hawliau Plant yng Nghymru

Cynhyrchwyd yr Adroddiad Cydymffurfio diweddaraf gan Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ym mis Mawrth 2018. Roedden ni'n falch bod yr adroddiad wedi'i strwythuro o amgylch pum egwyddor Y Ffordd Gywir er mwyn i Lywodraeth Cymru ystyried i ba raddau mae eu gwaith wedi datblygu dull gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant.

Mae'r adroddiad yn cwmpasu hyfforddiant, asesiadau effaith ar hawliau plant, cyfranogiad, polisiau cysylltiedig â hawliau plant a gwaith cynyddu ymwybyddiaeth.

Rydyn ni wedi annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi adolygiad o'u hymrwymiadau i CCUHP yn 2019, gan y bydd hynny hanner ffordd trwy dymor y Llywodraeth a chylch adrodd CCUHP. Gallai hynny gynnwys cynllun penodol ar hawliau plant yn ogystal â diwygio'r cynllun hawliau plant yn unol â'r bwriad. Hefyd, yn 2019 bydd hi'n 30 mlynedd ers i CCUHP gael ei lofnodi gyntaf.

Ni fu trafod na chraffu ar yr adroddiad hyd yma yn y Cynulliad Cenedlaethol, felly nid yw'r aelodau Cynulliad wedi cael cyfle i graffu'n uniongyrchol ar gydymffurfiaeth â'r Mesur.

## Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)

O'r 15 ymgynghoriad perthnasol gan Lywodraeth Cymru y bu'r swyddfa'n ymateb iddyn nhw yn ystod 2017-18, dim ond 3 oedd yn cynnwys Asesiad Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) a gyhoeddwyd gyda'r papurau ymgynghori.

Rydyn ni wedi nodi mewn tystiolaeth a gohebiaeth â Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad fod ansawdd y dadansoddi yn yr Asesiadau Effaith hynny'n amrywio. Mae rhai CRIA yn syml yn adlewyrchu rhifau'r erthyglau perthnasol o CCUHP, ond heb gymhwyso'r cynigion polisi i'r erthyglau hynny, na phwyso a mesur ble teimlir effeithiau cadarnhaol a negyddol. Yn wir, anaml y sonnir am effeithiau negyddol o gwbl. Mae'n bwysig cydnabod y gall fod peth effaith negyddol i benderfyniadau, y cam nesaf wedyn yw dadansoddi a yw'r elfennau cadarnhaol yn gorbwysu'r negyddol ac a oes modd lliniaru unrhyw effeithiau negyddol, wrth lunio ffurf derfynol y polisi.

# Hawliau Plant yng Nghymru

Enghraifft nodedig o CRIA trylwyr yn y cyfnod hwn oedd yr un ar gyfer y cynigion isafbris alcohol. Er nad yw hwn o reidrwydd yn fater amlwg hawliau plant, roedd yr awdur yn medru ystyried a fyddai rhai camau gweithredu yn effeithio ar ymddygiad a dewisiadau plant neu beidio. Mewn cyferbyniad, er bod y cynllun Fy Nhocyn Teithio ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed, ni chwblhawyd CRIA yn y lle cyntaf pan benderfynwyd dileu'r cynllun hwnnw (er bod hynny bellach wedi'i wrydroi). Nid oedd y CRIA a gwblhawyd, ar ôl i ni ofyn am un yn dadansoddi effaith y penderfyniad i ddileu'r cynllun ac a oedd unrhyw beth arall ar gael a fyddai'n cefnogi'r plant hynny oedd yn gymwys i'w dderbyn. Roedd y CRIA yn nodi'n syml mai cynllun cyfnod cyfyngedig oedd hwn, ac felly ni nodwyd unrhyw effaith negyddol, gan fod dod â'r cynllun i ben wedi bod yn fwriad o'r cychwyn.

Mae'r Cynllun Hawliau Plant yn dal mewn grym ac yn gofyn bod CRIA yn cael eu cynnal fel rhan o waith Gweinidogion Cymru yn cyflawni eu dyletswydd sylw dyledus o dan y Mesur. Er nad yw CRIA yn cwmpasu pob elfen o gyflawni'r ddyletswydd honno, dyna'r ddogfen allweddol sy'n dangos sut mae'r Llywodraeth wedi rhoi sylw dyledus i CCUHP, ac felly mae angen ei chwblhau'n llawn a sicrhau ei bod yn cynnwys dadansoddi digonol i ddangos sut mae hynny wedi digwydd.

## Cyllideb a dyrannu adnoddau

Bu Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad yn craffu'n fanwl ar gyllideb 2018-19. Nid oedd y dogfennau cyllideb ddrafft cychwynol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn arbennig o fanwl; roedd yn anodd nodi meysydd penodol yn y gyllideb oedd yn ymwneud â phlant gan fod y ffigurau cyfanswm ar gyfer pob maes 'cwmpas' heb ddadansoddi'n fanwl sut cyrhaeddwyd y ffigur hwnnw.

>>>



# Hawliau Plant yng Nghymru

Yn ogystal, nid oedd Asesiad Effaith Hawliau Plant (CRIA) o gynigion y gyllideb. Pan ofynnwn ni am ragor o wybodaeth ynghylch hyn, dywedwyd wrthyn ni'n ysgrifenedig fod asesiad effaith integredig strategol wedi cael ei gynnal a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft. Cawson ni wybod hefyd y dylsai'r CRIA gael ei gyflawni ar y lefel bolisi i lywio'r asesiad cyffredinol hwn. Fodd bynnag, rydyn ni wedi gofyn am y CRIA ar gyfer tri mater pwysig i blant, ac wedi cael gwybod nad oes CRIA penodol ar gyfer unrhyw un o'r canlynol:

- **Y Grant Gwisg Ysgol;**
- **Y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig; a**
- **Rhaglen Cyswllt ag Ysgolion Cymru Gyfan.**

Mae pob un o'r uchod wedi bod yn destun toriadau cyllid yn y cylch cyllideb hwn, ond nid yw hynny wedi cael ei wneud yn glir yn benodol mewn unrhyw ddogfennau a gyhoeddwyd. Mae hynny wedi golygu bod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, WLGA, a'n swyddfa ni wedi gorfod cychwyn gohebiaeth fanwl a thrafodaethau ar wahân ar bob un o'r materion hyn gan arwain at rhai torriadau yn cael eu lleihau neu eu gwarchod. Er bod rhai cyhoeddiadau cyllid cadarnhaol wedi cael eu gwneud ar gyfer plant a phobl ifanc yn ystod eleni, fel y cyllid ar gyfer cynnyrch iechydol i atal "flodi mislif", mae hynny'n digwydd ochr yn ochr â thoriadau eraill i wasanaethau sy'n diogelu ac yn hybu hawliau'r grwpiau o blant yng Nghymru sy'n fwyaf agored i niwed.

Gwnaeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg argymhellion pendant yng nghyswllt cyllidebu ar gyfer plant yn eu hadroddiad craffu, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi derbyn y prif argymhellion.

# Ein Cerdyn Adroddiad

Mae'r polisiau a'r materion a geir yn yr adran hon wedi cael eu rhannu ar sail y dangosyddion plant a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Ewropeaidd dros Hawliau Sylfaenol (FRA). Mae'r FRA wedi datblygu dangosyddion sy'n ymwneud â phob un o feysydd CCUHP, gan nodi dangosyddion strwythurol, proses a chanlyniadau y maent hwy'n dadlau ddylai gael eu defnyddio i ddeall cynnydd gwlad tuag at wireddu CCUHP.

<sup>3</sup> FRA (2010) Developing indicators for the protection, respect and promotion of the rights of the child in the European Union.

# Ein Cerdyn Adroddiad

Rydyn ni wedi defnyddio'r dangosyddion hyn i fapio'r cynnydd a wnaed yma yng Nghymru ar faterion plant allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Y dangosyddion yw:**

- **Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen;**
- **Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais;**
- **Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol; a**
- **Safon Byw sy'n Ddigonol.**

Ry' ni wedi cynnwys y materion mwyaf dwys sydd wedi wynebu plant a phobl ifanc yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018. Ry' ni hefyd wedi cynnwys manylion ar sut rydyn ni wedi ceisio dylanwadu, enghreifftiau o'n gwasanaeth annibynnol [Cyngor a Chymorth](#), enghreifftiau o sut rydyn ni wedi siarad am y materion yn y wasg a hefyd tipyn o farn plant a phobl ifanc am y materion.

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## AMDDIFFYNIAD CYFARTAL

### Y materion allweddol

Nid oes gan Blant yng Nghymru amddiffyniad cyfartal rhag ymosodiad o dan y gyfraith o'u cymharu ag oedolion. Mae hyn yn achos sylfaenol o dorri hawl pob plentyn i gael eu cadw'n ddiogel, ac mae gan y wladwriaeth rôl i'w chwarae o ran sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel rhag niwed. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru, ym manifestio etholiad 2016, i ddileu amddiffyniad cosb resymol o'r gyfraith er mwyn rhoi amddiffyniad cyfartal i blant. Mae'n bwysig bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei gyflawni er mwyn sicrhau bod yr amddiffyniad hwnnw'n cael ei wireddu i holl blant Cymru.

### Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Rydyn ni wedi trafod y mater hwn yn rheolaidd gyda'r Gweinidogion perthnasol a'u swyddogion, gyda llefarwyr dros blant o bob plaid yn y Cynulliad a chyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Fe wnaethon ni hefyd gyflwyno briffiad i'r holl Aelodau Cynulliad ynghylch cynigion Llywodraeth Cymru a beth fydden nhw'n ei olygu neu beidio yn ymarferol.

Fe ymatebon ni i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn gynnar yn 2018, a mynychu digwyddiad ymgynghori cyhoeddus fel rhan o hyn. Nid oedd yr ymgynghoriad yn gofyn a ddylai'r amddiffyniad gael ei ddileu neu beidio, gan fod y llywodraeth eisoes wedi ymrwymo i hynny; roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch sut roedd cyflawni hynny a sicrhau cefnogaeth i rieni a gweithwyr proffesiynol wrth wneud y newid hwn. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cydnabod bod cysylltiad annatod rhwng dileu amddiffyniad cosb resymol o'r gyfraith a hawliau plant o dan CCUHP, a bod rhwymedigaeth ar y Llywodraeth i weithredu lle gallai fod perygl niwed i blant yng Nghymru. Rwyf wedi croesawu hyn yn fy ymateb i'r ymgynghoriad, gan fod fy swyddfa, fel llawer o bobl eraill, wedi ymgyrchu ar y sail hon ers blynyddoedd lawer.

>>>

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

Mae ein hymateb i'r ymgynghoriad hwnnw ar gael ar ein gwefan, ynghyd â nifer o bapurau safbwynt polisi eraill megis gofal plant, dewis addysgu gartref a diwygio'r cwricwlwm. Mae hyn yn ddatblygiad newydd yr ydym wedi'i greu yn ystod eleni, er mwyn sicrhau bod ein safbwyntiau polisi allweddol ar gael i'r cyhoedd.



## Yn y newyddion

**Trydar: @JakeyCat:** Strong Statement from the Children's Commissioner for Wales on equal protection from assault for children  
17 Gorffennaf 2017

## Barn plant a phobl ifanc

Bu disgyblion Blwyddyn 5 o ysgol gynradd yn ne Cymru yn cysylltu â'm swyddfa yn ystod cyfnod ymgynghori Llywodraeth Cymru. Roedden nhw wedi cynnal trafodaeth ar y pwnc ac roedden nhw eisiau rhannu eu barn gyda fi a'r Gweinidog. Yn ystod ymweliad â'r ysgol, dyma rai o'r sylwadau gan y bobl ifanc:

**"Dylai plant gael eu hamddiffyn, nid eu smacio"**

**"Mae smacio bob amser yn gallu mynd yn rhy bell, ble rydych chi'n tynnu'r llinell?"**

**"Mae rhai pobl yn meddwl bod rhaid i chi smacio plant iddyn nhw ddysgu sut i ymddwyn. Rydw i'n anghytuno, mae'n gwbl ddiangen".**

**"Dylech chi siarad ac esbonio fel eu bod nhw ddim yn gwneud yr un peth eto."**

**"Yn lle smacio, gallwch chi wahardd y teledu neu'r iPad; mae unrhyw beth yn well na smacio"**



# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## Cynnydd ac argymhelliad

Mae ymgynghoriad y Llywodraeth wedi cau, ac rydyn ni'n disgwyl am y camau nesaf. Bydd angen cyflwyno Bil i'r Cynulliad i ddileu'r amddiffyniad o'r gyfraith bresennol; **rwyn argymell** y dylai Bil gael ei gyflwyno cyn gynted â phosib i sicrhau bod ymrwymiad y Llywodraeth yn cael ei gyflawni.

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## Pobl ifanc sy'n gadael gofal: BREUDDWYDION CUDD

### Y prif faterion

Mae ein hadroddiad Breuddwydion Cudd, 2017, yn cyflwyno'r gefnogaeth mae pobl ifanc sy'n gadael gofal wedi dweud wrthyn ni yr hoffon nhw gael, er mwyn cyflawni eu huchelgais o ran addysg, gwaith a hyfforddiant. Roedd pwysigrwydd cefnogaeth bersonol a mentora i'w helpu i reoli byw'n annibynnol ochr yn ochr ag ymrwymadau gwaith neu goleg yn neges gref iawn yn y gwaith hwnnw.

### Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Yn haf 2017 bu'r Comisiynydd yn ymweld â phob awdurdod lleol yng Nghymru, i drafod argymhellion yr adroddiad a sut gallen nhw gael eu gweithredu i gynnig mwy o gefnogaeth i'r bobl ifanc yn eu hardal. Roedd lefel da o bresenoldeb yn y cyfarfodydd, gyda chynrychiolaeth o uwch-swyddogion amrywiaeth o adrannau ar draws y cyngor, a chytunodd pob awdurdod lleol ar bwytiau penodol y bydden nhw'n ceisio'u datblygu.

Fe gofnodon ni addunedau pob awdurdod lleol mewn llythyron a anfonon ni atyn nhw ym mis Gorffennaf 2017 ar ôl yr holl ymweliadau. Yna fe wnaethon ni gomisiynu Practice Solutions Ltd i wneud gwaith dilynol gyda phob awdurdod lleol yn gynnar yn 2018 er mwyn darganfod pa newidiadau oedd wedi cael eu gwneud o ganlyniad. Fe gyhoeddod ni adroddiad dilynol Flwyddyn yn Ddiweddarach oedd yn nodi cynnydd sylweddol. Mae wedi bod yn wych gallu rhannu enghreifftiau o arfer da a syniadau a chynnal momentwm yr argymhellion yn yr adroddiad hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i bob awdurdod lleol estyn eu darpariaeth ymgynghorwyr personol i bob person ifanc sy'n gadael gofal hyd at 25 oed, ac mae wedi darparu arian ychwanegol ar gyfer hyn. Mae hwn yn gam pwysig iawn sy'n cydnabod gwerth cefnogi pobl ifanc yn ystod y cyfnod pontio hwn.

>>>

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

Yn ôl gwybodaeth gan Grŵp Cyngori Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Wella Canlyniadau i Blant, ym mis Rhagfyr 2017, nododd adroddiadau gan 18 awdurdod lleol fod 411 o bobl ifanc eisoes wedi elwa o gronfa newydd G yl Ddewi i gefnogi ymadawyr gofal.

Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn iddyn nhw ystyried eithrio eu hymadawyr gofal o dalu treth y cyngor. Hyd yma, mae chwe awdurdod lleol wedi eithrio'u hymadawyr gofal o dalu treth y cyngor er mwyn ysgafnhau'r baich ariannol arnyn nhw wrth iddyn nhw ddechrau byw'n annibynnol. Mae 7 awdurdod lleol arall wrthi'n edrych ar hyn.

## Enghraifft o Achos Ymchwiliadau a Chyngor

**Y Problem:** Cysylltodd person ifanc oedd yn gadael gofal â'r swyddfa ynghylch anawsterau mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn talu am llety yn y brifysgol. Roedd y person ifanc wedi bod mewn gofal maeth gyda'r awdurdod lleol ac roedd yn cychwyn ar gwrs yn y brifysgol, felly roedd angen arian ar gyfer bond a blaendal ar fflat. Roedd angen penderfyniad cyflym ar y person ifanc oherwydd bod risg o gollir llety.

**Beth wnaethon ni:** Cysylltodd swyddog Ymchwiliadau a Chyngor â nifer o wahanol swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn datrys y mater hwn, ac yn y diwedd llwyddwyd i hwyluso canlyniad positif i'r person ifanc. Roedd prosesau gwneud penderfyniadau oddi mewn i'r awdurdod lleol wedi achosi oedi, heb i'r person ifanc gael y gefnogaeth ariannol roedd ei hangen ar unwaith. Gwaethygydd y sefyllfa oherwydd bod y person ifanc yn teimlo nad oedd yr ymgynghorydd personol yn rhoi cefnogaeth, a methiant i fynd ar ôl y mater hwn trwy'r ymgynghorydd.

**Y Canlyniad:** Talwyd yr arian ar gyfer llety i'r person ifanc oedd yn gadael gofal, a lwyddodd i dalu'r landlord a sicrhau'r llety. Roedd yn bwysig cydnabod, yn yr achos hwn, bod angen i'r awdurdod lleol oedd yn gweithredu fel rhiant corfforaethol ac ymateb mor gyflym ac mor gefnogol â phetaen nhw'n rhiant go iawn. Yn yr achos hwn, roedd y cyfathrebu â'r ymgynghorydd personol wedi methu, ac roedd y person ifanc yn ansicr sut i symud ymlaen gyda phryderon. Roedd hynny wedi achosi teimladau o rwystredigaeth a bod mewn sefyllfa fregus. Yn ogystal â sicrhau hawliau pellach i ymadawyr gofal, bydd ein swyddfa'n parhau i bwysu am gefnogaeth ansawdd uchel.

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen



## Yn y newyddion

Newyddion BBC Radio Wales, 17 Hydref 2017, 'Ymadawyr gofal yn Nhorfaen fydd y cyntaf yng Nghymru i gael eu heithrio o dreth y Cyngor'

**Cyrhaeddiad: 137,000**

## Barn plant a phobl ifanc

Chwaraeodd pobl ifanc â phrofiadau o ofal ran allweddol yn y gwaith o lywio ein hadroddiad 'Breuddwydion Cudd'. Gwahoddwyd y bobl ifanc y cafodd eu barn ei chynnwys yn yr adroddiad i fynychu cyfarfodydd rhwng y Comisiynydd ac arweinyddion yn eu hawdurdodau lleol eu hunain er mwyn sicrhau ymrwymadau i ymadawyr gofal gan bob awdurdod. Cefnogwyd pobl ifanc i fynychu cyfarfodydd yn y lleoliadau canlynol: Merthyr Tydfil, Bro Morgannwg, Sir Fynwy, Caerdydd, Wrecsam, Sir y Fflint a Chonwy.

**Trefnodd Lleisiau o Ofal** – sefydliad cenedlaethol annibynnol Cymru sy'n ymroddedig i gynnal hawliau a lles plant a phobl ifanc sydd yn neu wedi derbyn gofal – bum digwyddiad ar draws Cymru er mwyn ymgysylltu ag ymadawyr gofal. Cawson ni wahoddiad i hwyluso sesiynau'r bore ym mhob achos. Defnyddion ni'r sesiynau hynny i hyrwyddo hawliau plant, rôl y Comisiynydd, a hefyd yn gyfle i gasglu barn pobl ifanc ar ein prosiect Erthygl 31: Mynediad i gyfleoedd Chwarae, Hamdden a Diwylliannol. Hefyd llwyddon ni i roi adborth i'r bobl ifanc ar ein gwaith Breuddwydion Cudd. Roedd llawer o'r rhai oedd yn bresennol wedi ymgysylltu â'r gwaith hwnnw a rhannu eu barn, felly roedd yn bwysig eu bod nhw'n clywed beth oedd wedi digwydd ers iddyn nhw ymgysylltu â ni.

>>>



# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## Cynnydd ac argymhelliad

Mae argymhellion Breuddwydion Cudd, yn arbennig yr eithriadau o ran Treth y Cyngor a gwybodaeth ariannol glir i bobl ifanc, yn rhan o waith y Grŵp Cyngori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau i Blant. Hyd yma, nid yw'r argymhellion hynny wedi gwneud cynnydd mor gyflym â'r rhai sy'n cael eu datblygu'n uniongyrchol gan Awdurdodau Lleol. **Rwy'n argymhell** bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ymadawyr gofal ac awdurdodau lleol i gynhyrchu gwybodaeth ariannol glir sydd ar gael yn genedlaethol, i helpu pobl ifanc a'u hymgynghorwyr personol i gael mynediad i'r ystod o grantiau, budd-daliadau a phethau y gallant eu hawlio sydd ar gael iddynt wrth adael gofal.

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## EIRIOLAETH

### Y materion allweddol

Nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016-17 gynnydd sylweddol o ran sefydlu Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Ar 31 Mawrth 2017 barnwyd bod lefel y cynnydd yn 'ambr', gan nad oedd y dull gweithredu wedi dod i rym eto.

### Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Rydyn ni'n eithriadol o falch o gydnabod bod y Dull Gweithredu Cenedlaethol wedi dod i rym yn swyddogol yn haf 2017. Rydyn ni wedi mynychu cyfarfodydd monitro gyda Llywodraeth Cymru, a arweiniodd at sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ffurfiol i fonitro cynnydd y gweithredu. Galwyd am hyn yn yr adroddiad blynyddol y llynedd, a hefyd yn ein ymatebion ymgynghori a tydtiolaeth Pwyllgorauar y pwnc hwn.

O ganlyniad i'r monitro uniongyrchol ar y cyfnod gweithredu, gwnaed newidiadau i'r broses 'Cynnig Gweithredol' fel bod pobl ifanc sydd mewn gofal neu sydd â'u henwau ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael eu hatgyfeirio'n awtomatig i'r gwasanaeth eiriolaeth annibynnol, oni bai eu bod yn gwrthod hynny'n benodol. Dangosodd y data a gasglwyd gan awdurdodau lleol fod y nifer oedd yn manteisio ar eiriolaeth yn llawer uwch pan gynhelid cyfarfod cynnig gweithredol. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau adroddiad Lleisiau Coll fy Swyddfa i, oedd yn nodi bod pobl ifanc yn annhebygol o fanteisio ar eiriolaeth heb wybod yn fanwl beth ydyw a sut gall eu cefnogi.

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## Enghraifft o Achos Ymchwiliadau a Chyngor

Rydyn ni'n monitro ymwybyddiaeth o eiriolaeth a'r nifer sy'n manteisio arni trwy achosion sydd wedi cyrraedd ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor. Mae nifer o achosion rydyn ni wedi delio gyda nhw o hyd lle nad yw pobl ifanc yn ymwybodol y gallan nhw hawlio gwasanaethau eiriolaeth, felly byddwn ni'n parhau i'w cyfeirio ymlaen at ddarparwyr eiriolaeth trwy'r gwaith hwn.

## Barn plant a phobl ifanc

Yn ddiweddar fe gwrddon ni â merch 10 oed mewn prosiect eiriolaeth yn Wrecsam. Dyma beth ddwedodd wrthyn ni am bwysigrwydd eiriolaeth iddi hi:

**'Mae fy eiriolydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i fi. Fe wnaeth hi'n siŵr mod i'n cael gweld mam unwaith y mis, ac mae hynny'n fy ngwneud yn hapus iawn.'**

## Cynnydd ac argymhelliad

Fel y nodwyd uchod mae'n gadarnhaol iawn cydnabod y cynnydd a gyflawnwyd yn y maes hwn. Mae'n bwysig bod y monitro ar y nifer sy'n manteisio ar y cynnig gweithredol a'r canlyniadau o ganlyniad i dderbyn gwasanaethau eiriolaeth yn parhau. **Rwy'n argymhell** bod Côd Ymarfer Rhan 10 yn cael ei newid i roi grym statudol i'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol, gan gynnwys pob un o'r dogfennau cysylltiedig.

# Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais

## DEWIS ADDYSGU GARTREF

### Y materion allweddol

Yn y 2 Adroddiad Blynyddol diwethaf, rydyn ni wedi galw ar Lywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol bod rhieni'n cofrestru'r ffaith eu bod yn addysgu eu plant gartref, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweld ac yn gallu trafod yr addysg maen nhw'n ei derbyn, a'u bod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel.

Ym mis Hydref 2017, cyhoeddwyd adolygiad tystiolaeth o'r risgiau i blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn gan ganolfan ymchwil CASCADE, a'i gomisiynu gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Canfu'r adroddiad fod plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn tueddu i gael mynediad gwaelach i wasanaethau cyffredinol na'u cyfoedion sy'n cael eu haddysgu yn yr ysgol. Er nad oedd camdriniaeth ac esgeuluso yn fwy amlwg ymhlith y grŵp hwn o blant nag unrhyw blant eraill, os caiff plant eu cam-drin pan fyddan nhw'n derbyn eu haddysgu gartref, mae'n gallu bod yn fwy anodd canfod hynny os bydd rhiant yn dewis cyfyngu mynediad at eu plentyn, ac mae addysg gartref wedi cael ei defnyddio'n ddull o atal mynediad i rai plant. "Mae arfer cyfredol yn gadael rhai plant mewn perygl oherwydd bod eu rhieni'n defnyddio addysg gartref fel dull o reoli a chyfyngu ar gyswllt â'u plant"<sup>4</sup>.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru ein argymhelliad y llynedd mewn egwyddor. Cafwyd cyhoeddiad yn y Sesiwn Lawn ym mis Ionawr 2018 fod yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg yn bwriadu cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau presennol i ganfod plant nad oeddent yn derbyn addysg addas. Byddai hynny'n digwydd trwy ymgynghori ar ddefnyddio pwerau presennol Deddf Plant 2004 i fynnu bod awdurdodau lleol yn sefydlu cronfa ddata, i'w cynorthwyo i adnabod plant sydd ddim yn derbyn addysg addas. Byddai rôl hefyd i asiantaethau eraill gefnogi hyn, gan gynnwys byrddau iechyd lleol. Ni wnaed cyhoeddiadau pellach ers hynny, ac ni lanswyd ymgynghoriad.

>>>

<sup>4</sup> <http://safeguardingboard.wales/2017/11/23/home-education-children-report-2/>

# Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais

## Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Mae ein fîm wedi cwrdd â swyddogion, Gweinidogion ac Ysgrifenyddion Cabinet i drafod hyn ar hyd y flwyddyn. Mae ein swyddfa wedi sicrhau cynrychiolaeth ar y grŵp rhanddeiliaid Dewis Addysgu Gartref yn ystod y flwyddyn, yn ogystal ag ymgysylltu â grŵp gorchwyl a gorffen ar brotocol diogelu yng nghyswllt dewis addysgu gartref, fel rhan o'r Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol newydd.

Ar adeg datganiad yr Ysgrifennydd Cabinet ym mis Ionawr 2018, fe gyflwynon ni friffiad i Aelodau Cynulliad ar y pwnc a'r goblygiadau perthnasol o ran hawliau plant. Rydyn ni hefyd wedi cynnwys cwestiynau cyffredin am y pwnc hwn ar ein gwefan.

Ni wnaed cynnydd amlwg mewn perthynas â'r mater pwysig hwn o ran hawliau plant. Rwy'n pryderu'n arbennig na fydd y cynigion o reidrwydd, os a phan fyddant yn cael eu cyflwyno, yn cynnwys pwerau i weld a siarad â phob plentyn am eu haddysg. Mae hyn yn rhywbeth sy'n digwydd fel mater o drefn mewn addysg ffurfiol, felly nid yw plant sy'n cael eu haddysgu gartref ar hyn o bryd yn mwynhau'r un hawliau i dderbyn gwybodaeth a mynegi barn ar eu haddysg.

>>>



# Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais

## Enghraifft o Achos Ymchwiliadau a Chyngor

**Y Broblem:** Cysylltodd rhiant â'r swyddfa ar ôl dadgofrestru plentyn o'r ysgol oherwydd materion bwlio difrifol oedd wedi cynnwys yr heddlu, ac roedden nhw'n teimlo bod yr ysgol heb ddelio â nhw'n iawn. Roedd y rhiant wedi penderfynu addysgu'r plentyn gartref, er nad oedd yn meddwl bod hynny o reidrwydd er lles pennaf y plentyn, ac nid oedd yn gwybod at bwy i droi. Roedd y person ifanc hefyd yn profi anawsterau iechyd meddwl oedd yn cyfrannu at y bwlio. Roedd y rhiant yn pryderu bod CAMHS wedi gwybod am y person ifanc ers rhai blynyddoedd, ond nad oedd diagnosis wedi'i roi eto.

**Beth wnaethon ni:** Bu Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor yn trafod gyda'r rhiant oblygiadau dadgofrestru'r plentyn o'r ysgol, gan gynnwys effeithiau cymdeithasol posibl, a rhoddwyd cyngor ynghylch atebion amgen, gan gynnwys bod y person ifanc yn darparu cofnod ysgrifenedig o ddymuniadau a theimladau ar gyfer cyfarfod gyda'r ysgol a'r Seicolegydd Addysg. Dyma ran o'r hyn ysgrifennodd y person ifanc:

**“Pan oeddwn i yn – yr ysgol gyfun roeddwn i’n teimlo’n drist ac yn grac achos... Doedden nhw ddim yn hoffi fi ddim yn deall fi ac roedd y diwrnod yn rhy hir ac yn ormod... weithiau byddwn i’n gwneud seiniau ac yn tapio – alla i ddim helpu hynny, ond doedd yr athrawon ddim yn hoffi fe... doeddwn i byth eisiau mynd i’r ysgol achos rydw i’n wahanol, a byddwn i’n cael teimlad yn fy mol fel teimlo’n sâl a phoeni, a methu cysgu drwy’r nos... Roedd llwyth o bobl yn bwlio fi, bydden nhw’n gwthio fi yn pwnio fi yn tecstia pethau cas i fi roen i’n methu mynd allan yn yr egwyl. Rydw i’n meddwl byddwn i’n hoffi cael pethau i helpu fi, ond dydw i ddim eisiau edrych yn wahanol”**

# Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais

Bu'r swyddog Ymchwiliadau a Chyngor yn gweithio gyda'r teulu, adran dderbyniadau'r ysgol, y Seicolegydd Addysg, a'r gwasanaeth Addysg y tu allan i'r Ysgol (EOTAS) er mwyn sicrhau darpariaeth a chefnogaeth priodol i'r person ifanc. Oherwydd gwyliau haf yr ysgol, newidiadau staff yn yr awdurdod lleol, a gweithdrefnau'r awdurdod lleol ynghylch darpariaeth addysgol amgen, bu'n rhaid wrth 6 mis i ddatrys y mater hwn.

**Y Canlyniad:** Cafodd y person ifanc ddiagnosis penodol gan CAMHS, cytunwyd ar ddarpariaeth EOTAS, ac ymgysylltodd y person ifanc o'r newydd ag addysg trwy ddarpariaeth amgen. Codwyd pryderon gyda'r awdurdod lleol fod rhiant wedi dadgofrestru person ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol oherwydd diffyg darpariaeth briodol, a rhoddwyd manylion yr achos hwn i'n fîm polisi oherwydd yr amser eithriadol o hir a gymerwyd i'r person ifanc yma gael asesiad a diagnosis gan CAMHS.



## Yn y newyddion

BBC Radio 4, 4 Hydref 2017  
**Cyrhaeddiad: 3.28miliwn**

>>>

# Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais

## Cynnydd ac argymhelliad

Rydyn ni siomedig ynghylch yr oedi cyn symud ymlaen gyda'r cynigion a nodwyd gan y Llywodraeth, ac nad yw'r Llywodraeth wedi cynnwys yn ei datganiadau polisi y nod y dylai pob plentyn sy'n derbyn addysg gartref gael eu gweld gan weithiwr proffesiynol a chael cyfle i fynegi barn.

**Rwy'n argymhell bod** Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r polisi wedi'i ddiweddarau ar gyfer ymgynghori eleni, gyda'r nod o gyflawni'r tri phrawf yma'n llawn:

- **Yn gyntaf, bod modd rhoi cyfrif am bob plentyn yng Nghymru, heb i neb ohonynt lithro o dan radar y gwasanaethau sydd ar gael i bawb, a'r gymdeithas yn gyffredinol.**
- **Yn ail, bod pob plentyn yn derbyn addysg addas a'u hawliau dynol eraill, gan gynnwys iechyd, gofal a diogelwch.**
- **Ni ellir cyflawni hyn heb y trydydd nod, sef y dylai pob plentyn gael cyfle i gael eu gweld, a gwrando ar eu barn, gan gynnwys eu barn am eu haddysg, a'u profiadau.**

# Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais

## CAM-DRIN AC ECSBLOETIO RHYWIOL

### Y materion allweddol

#### Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol

Mae'r Comisiynydd yn hwyluso ac yn cadeirio cyfarfod bord gron cenedlaethol ynghylch ecsbloetio plant yn rhywiol (CSE). Yn bresennol wrth y ford gron mae cynrychiolwyr uwch o holl heddluoedd Cymru a Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, awdurdodau lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r sector gwirfoddol. Mae'r cyfarfodydd yn monitro ac yn asesu cynnydd o ran mynd i'r afael â'r mater hwn ac yn rhannu ymarfer addawol. Mae materion cysylltiedig, gan gynnwys plant sy'n mynd ar goll dros nos a threfniadau dosbarthu cyffuriau County Lines, hefyd ar yr agenda'n rheolaidd.

Ym mis Hydref 2017 gwnaeth yr aelodau y Comisiynydd yn ymwybodol o bryderon ynghylch ariannu a staffio Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCs) yn holl ranbarthau Cymru heblaw'r gogledd. Mae'r canolfannau hyn yn gysylltiedig â'r gwasanaeth iechyd, yr heddlu, darparwyr preifat a gomisiynwyd a chefnogaeth ar gyfer dioddefwyr ymosodiadau rhywiol, yn blant ac oedolion.

Roedd nifer o faterion sylfaenol yn codi. Roedd prinder aciwt o staff clinigol pediatrig ac Arolygydd Meddygol Fforensig ar gyfer y gwasanaeth. Nid oedd y darparwr sector gwirfoddol sydd â gofal am y canolfannau ac sy'n darparu gwasanaethau cwnsela ar gyfer dioddefwyr ymosodiadau rhywiol wedi derbyn y cyllid disgwylidig gan y Byrddau Iechyd Lleol perthnasol ac felly roedd yn gwneud colled. Roedd yn bosibl y byddai'r canolfannau'n cael eu cau erbyn mis Rhagfyr 2017. Roedd Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ar gyfer y gwasanaeth hwn i'r Byrddau Iechyd, ond roedd y rhan fwyaf ohonynt heb drosglwyddo'r arian i'r darparwr. Yn olaf, roedd y bwrdd prosiect hirsefydlog dan arweiniad y Gydweithredfa GIG a oedd wedi bod yn ceisio datblygu model newydd ar gyfer y gwasanaethau wedi dod i ben heb gytundeb.

# Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais

## Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Yn dilyn y cyfarfod bord gron, casglodd y Comisiynydd dystiolaeth bellach gan aelodau'r bwrdd prosiect a phartïon eraill perthnasol. Yna ysgrifennodd at yr Ysgrifennydd Cabinet Vaughan Gething a Phrif Weithredwr y GIG i amlinellu ei phryderon a gofyn am weithredu ar frys. Roedd ei llythyr yn cynnwys enghreifftiau dienw o achosion a ddarparwyd gan aelodau o'r ford gron, lle bu'n rhaid i blant aros tan yn hwyr y nos i gael eu harchwilio oherwydd prinder staff â chymwysterau a phrofiad, addas, a allai ychwanegu at y trawma roedden nhw wedi'i brofi.

Mewn ymateb, ysgrifennodd Prif Weithredwr y GIG, Andrew Goodall, at yr holl Fyrddau lechyd yn dweud bod y sefyllfa a amlinellwyd gan y Comisiynydd Plant yn 'gwbl annerbyniol' a bod angen ei datrys ar frys. Ymatebodd Prif Weithredwr y Byrddau lechyd i'r Comisiynydd yn addo datrys y sefyllfa.

Yn dilyn ymyrraeth y Comisiynydd, ysgrifennodd prif weithredwr New Pathways – gwasanaeth cymorth ar gyfer argyfyngau treisio a cham-drin rhywiol – i esbonio:

**“...yn fy marn i mae'r Comisiynydd wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ailfywiogi'r broses.”**



# Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais

## Enghraifft o Achos Ymchwiliadau a Chyngor

**Y Broblem:** Cysylltodd rhiant â ni oherwydd bod ei phlentyn wedi sôn am ddioddef ymosodiad rhywiol gan ddisgybl arall, ac roedd y rhiant yn anfodlon ag ymateb yr ysgol a'r awdurdod lleol i'w phryderon. Nid oedd y person ifanc yn mynychu'r ysgol oherwydd pryderon ynghylch diogelwch.

**Beth wnaethon ni:** Fe wnaeth Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor gwrdd â'r person ifanc a siarad â nhw ar sawl achlysur. Cytunwyd i weithredu ar ran y person ifanc a siarad â'r ysgol a'r awdurdod lleol er mwyn cael hyd i ateb a fyddai'n golygu bod modd iddyn nhw aros yn yr ysgol bresennol a theimlo'n ddiogel. Roedd hynny'n gofyn bod y swyddog yn datblygu perthynas o ymddiriedaeth gyda'r disgybl a oedd yn teimlo dadrihiad ynghylch oedolion, oherwydd teimlad y dylen nhw fod wedi bod yn rhoi amddiffyniad.

Roedd hwn yn achos cymhleth oedd yn gofyn bod y swyddog Ymchwiliadau a Chyngor yn gweithredu fel canolwr yn y trafodaethau rhwng y rhiant a'r person ifanc, yn ogystal ag amrywiaeth o swyddogion uwch yr ysgol a'r awdurdod lleol, yr oedd gan bawb ohonynt bersbectif gwahanol ar yr achos. Cymerodd yr achos dri mis i'w ddatrys, gan gynnwys mynychu cyfarfod amlddisgyblaeth fel rhan o'r broses ddatrys.

**Y Canlyniad:** Yn y diwedd dychwelodd y person ifanc i'r ysgol ac roedd yn fodlon ar y trefniadau diogelu a oedd wedi cael eu rhoi ar waith. Symudodd yr awdurdod lleol ymlaen â hyfforddiant i holl staff ysgolion ar sut i ddelio gydag achosion o'r math hwn, a bu'r heddlu, fel rhan o'u gwaith parhaus gydag ysgolion, yn darparu hyfforddiant i ddisgyblion yn yr ysgol ar ymddygiad priodol ac amhriodol.

# Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais



## Yn y newyddion

BBC Radio Wales, 17 Tachwedd 2017: 'Comisiynydd Plant:  
Angen dysgu gwersi o Ynys Bŷr'  
**Cyrhaeddiad: 137,000**

## Cynnydd ac argymhelliad

Yn dilyn ymyrraeth y Comisiynydd, mae bwrdd prosiect y GIG wedi cael ei ailsefydlu ac mae'r cyllid ar gyfer SARCs (Sexual Assault Referral Centers) wedi cael ei ddatrys yn y tymor canolig. Mae aelod staff wedi cael ei benodi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i arwain y dull gweithredu rhanbarthol. Mae problemau i'w datrys o hyd ynghylch staffio'r rotâu pediatrig ac Archwilwyr Meddygol Fforensig, i arbed plant a phobl ifanc rhag gorfod teithio'n rhy bell neu aros am asesiadau brys.

**Rwy'n argymhell y dylai'r** Llywodraeth sicrhau fod darpariaeth Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ar gyfer ardal pob bwrdd iechyd yn cynnwys mynediad 24/7 i rota o bediatregwyr ac archwilwyr meddygol fforensig sydd wedi'u hyfforddi'n addas, fel nad oes rhaid i unrhyw blentyn aros am oriau lawer neu hyd yn oed ddyddiau am archwiliad, a bod gwasanaethau cwnsela ac adferiad digonol ar gael i ddiodefswyr ledled Cymru.

# Addysg, dinasyddiaeth a gweithgareddau diwylliannol

## Addysg perthnasoedd iach

### Y materion allweddol

Un dull sylfaenol o atal camdriniaeth rhywiol, corfforol ac emosiynol yw bod plant a phobl ifanc yn cael addysg am berthnasoedd iach, er mwyn iddyn nhw fedru datblygu perthnasoedd cadarnhaol a chyfartal ag eraill, ac adnabod perthnasoedd camdriniol.

Eleni fe ddalion ni ati i hybu adnodd Agenda, a gynhyrchwyd ar y cyd â'r NSPCC a Chymorth i Ferched Cymru, dan arweiniad yr Athro Emma Renold o Brifysgol Caerdydd. Mae'n galluogi pobl ifanc i archwilio cydraddoldeb rhywedd, agweddau at rywoldeb a stereoteipio, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau creadigol.

### Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Bu'r fîm yn gweithio gyda grŵp o ysgol gyfun Aberpennar ar eu hargymhellion ar gyfer addysg perthnasoedd iach i rwydwaith Comisiynwyr Plant Ewrop ac yn trefnu bod dau ddisgybl a dau athro yn teithio i gyfarfod Ewropeaidd ym Mharis ym mis Mehefin 2017, i rannu eu syniadau gyda phobl ifanc o bob rhan o Ewrop. Yna teithiodd un o'r myfyrwyr gyda'r Comisiynydd i Helsinki ym mis Medi 2017 i gyflwyno adnodd Agenda i Gomisiynwyr o bob rhan o Ewrop ac ymuno â'r drafodaeth ar addysg rhyw a pherthnasoedd ar lefel Ewropeaidd.

>>>

# Addysg, dinasyddiaeth a gweithgareddau diwylliannol



## Yn y newyddion

'Sex education needs to be less about biology and more about rights',  
Children's Commissioner for Wales  
Wales Online, 13 December 2017  
**Cyrhaeddiad: 1.06M**

## Barn plant a phobl ifanc

Yn 2016, buon ni'n gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd, NSPCC Cymru a Chymorth i Ferched Cymru i greu AGENDA: Canllaw pobl ifanc i sicrhau bod perthnasoedd cadarnhaol yn bwysig ([www.agenda.wales](http://www.agenda.wales)) Eleni, fe fuon ni'n gweithio gyda'r un partneriaid i gefnogi datblygiad fersiwn ysgol gynradd o AGENDA. Bydd AGENDA cynradd yn arddangos astudiaethau achos sy'n amlygu enghreifftiau arfer da o weithio gyda phlant o dan 11 oed mewn grwpiau addysg a chymuned, gan hybu perthnasoedd iach a herio anghydraddoldebau rhywedd, normau rhywedd gormesol, trais yn erbyn menywod, homoffobia a thrawsffobia. Bydd AGENDA cynradd yn cefnogi ymarferwyr i archwilio a herio'r materion hyn mewn modd creadigol gyda phlant iau. Mae plant cyniadd yn aml yn coi materion ynghylch cydraddoldeb rhyw, stereoteipio a pherthnasau iach gyda'n tim; bydd yr adnoddau yma yn eu helpu i drafod y materion yma ac i wneud newidiadau.

>>>

# Addysg, dinasyddiaeth a gweithgareddau diwylliannol

## Cynnydd ac argymhelliad

Sefydlodd y Llywodraeth Banel Arbenigol dan gadeiryddiaeth yr Athro Renold, ac roedd ein swyddfa'n rhan o hynny. Cyflwynodd y Panel adroddiad ym mis Rhagfyr 2017, gyda fframwaith ar gyfer Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb statudol seiliedig ar hawliau.

**Rwy'n argymhell bod** Llywodraeth Cymru yn datblygu argymhellion adroddiad eu Panel arbenigol, ac yn gwneud addysg perthnasoedd iach yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd. Dylai addysg perthnasoedd iach fod yn seiliedig ar hawliau ac yn cael ei llywio gan ymwneud dysgwyr â'r dyluniad.



# Addysg, dinasyddiaeth a gweithgareddau diwylliannol

## DIWYGIO'R CWRICWLWM

### Y materion allweddol

Mae ein swyddfa wedi chwarae rhan weithredol yn y broses o ddiwygio'r cwricwlwm hyd yma, ond rydyn ni wedi galw am gynnwys pobl ifanc yn uniongyrchol wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei lunio. Rydyn ni hefyd wedi galw am sicrhau bod hawliau plant yn elfen sy'n darparu sylfaen ar gyfer y cwricwlwm newydd, fel bod y cwricwlwm cyfan yn cael ei lunio gan ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant.

### Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Mae ein swyddfa wedi ymgysylltu'n rheolaidd ag uwch swyddogion yn Llywodraeth Cymru, yn ogystal â mynychu'r Grŵp Cyngori Annibynnol ac ymgysylltu ag arweinyddion y Meysydd Dysgu a Phrofiad (AoLEs). Fe wnaethon ni hefyd hwyluso sesiwn gweithdy ym mis Ionawr 2018, er mwyn i bobl ifanc ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Grŵp Cyngori Annibynnol mewn perthynas â hawliau plant a chyfranogiad yn y cwricwlwm.

Rydyn ni wedi paratoi papur safbwynt manwl ar addysg hawliau dynol yn y cwricwlwm newydd, sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Mae'r papur yn egluro pam dylai hawliau dynol ddarparu sylfaen orfodol, waelodol ar gyfer y Cwricwlwm newydd, ac mae'n:

- **Darparu diffiniad o addysg hawliau dynol;**
- **Nodi manteision addysg hawliau dynol;**
- **Mapio integreiddio hawliau plant ar hyn o bryd ar draws 4 Diben a 6 Maes Dysgu a Phrofiad y Cwricwlwm newydd (AoLE).**

# Addysg, dinasyddiaeth a gweithgareddau diwylliannol



Yn y newyddion

**Trydar: @WG\_Education**

'Open and honest – young people challenging curriculum advisory group with @childcomwales'

## Barn plant a phobl ifanc

Fe drefnon ni fod pobl ifanc yn mynychu'r Grŵp Cyngori Annibynnol ar gyfer Diwygio'r Cwricwlwm, ynghyd â'r Comisiynydd, i bwysleisio'r angen am gynnwys plant a phobl ifanc yn weithredol yn y broses ddiwygio ac amlygu eu dealltwriaeth werthfawr. Cynrychiolwyd saith lleoliad addysg gwahanol, oedd yn cynnwys rhai ffurfiol ac anffurfiol, yn y cyfarfod, ac fe gyflwynon nhw'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer diwygio'r cwricwlwm ym mhob un o'u hysgolion neu eu grwpiau. Fe fuon nhw hefyd yn archwilio heriau allweddol wrth ddiwygio'r cwricwlwm gydag aelodau o'r grŵp.

Cynhaliwyd digwyddiad i lansio '[Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru](#)' mewn dwy ysgol, un gynradd ac un uwchradd. Roedd cynrychiolwyr o dîm diwygio'r cwricwlwm Llywodraeth Cymru yn bresennol yn y digwyddiad, lle bu pobl ifanc ac athrawon o'r ddau leoliad yn esbonio effaith trawsffurfiannol dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn eu hysgolion

Ers hynny rydyn ni wedi hyfforddi 313 o athrawon am y dull gweithredu hwn yn ystod 8 digwyddiad i'n Llysgenhadon Ysgol ac rydyn ni hefyd wedi cyflwyno'r dull gweithredu mewn cyfarfodydd a chynadleddau ychwanegol, gan gynnwys gweithio gyda chonsortia addysg i roi cyflwyniadau mewn cynadleddau rhanbarthol i arweinwyr ysgol.

# Addysg, dinasyddiaeth a gweithgareddau diwylliannol

## Cynnydd ac argymhelliad

Er gwaethaf cyswllt rheolaidd a chynigion cefnogaeth, bu'r cynnydd yn araf yn y maes hwn, ac er gwaethaf y sicrwydd a roddwyd, ni wnaed fawr ddim cynnydd i sicrhau bod CCUHP yn darparu sylfaen ar gyfer pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Heblaw am y sesiwn a hwyluswyd gan fy swyddfa, nid yw pobl ifanc wedi cael unrhyw ymwneud parhaus â'r broses

**Rwy'n argymhell bod** canlyniadau cyflawni'r cwricwlwm newydd yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn dysgu am eu hawliau, a bod dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn darparu sylfaen ar gyfer egwyddorion tywys darparu'r cwricwlwm. Dylai cyfranogiad plant a phobl ifanc gael ei wreiddio'n systematig yng nghyfnod nesaf datblygu'r cwricwlwm.

# Addysg, dinasyddiaeth a gweithgareddau diwylliannol

## RHAGLEN CYSWLLT YSGOLION CYMRU GYFAN

### Y materion allweddol

Rhaglen atal troseddu ac amddiffyn plant a ariannir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a phedwar Heddlu Cymru yw Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan. Mae gan bob un o ysgolion y wladwriaeth yng Nghymru swyddog cyswllt â'r heddlu sy'n cyflwyno gwersi ar themâu camddefnyddio sylweddau, diogelwch personol a materion cymdeithasol a chymunedol. Mae'r heddwys hefyd yn gweithio gyda'r ysgol i ymateb i achosion posibl o droseddu yn yr ysgol, gan gynghori'r myfyrwyr, y staff a'r rhieni, rhoi dulliau gweithredu adferol ar waith, ac atal troseddoli lle bynnag mae hynny'n bosib ac yn briodol. Mae protocol ar gyfer yr ymyriadau hyn, er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae swyddogion yr heddlu wedi ymwneud yn fwy â thaclo ymddygiad ar-lein, gan gynnwys bwlio, tecstio rhywiol ac ecsbloetio plant yn rhywiol.

### Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Mae'r Comisiynydd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Chydlynnydd Cenedlaethol Gwasanaeth Cyswllt Cymru Gyfan, Pennaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yng Nghymru ac uwch swyddogion yr heddlu, sydd wedi rhoi'r newyddion diweddaraf iddi ar y materion ariannu.

>>>

# Addysg, dinasyddiaeth a gweithgareddau diwylliannol

## Cynnydd ac argymhelliad

Mae'r gwasanaeth unigryw, cynhwysfawr hwn i Gymru o dan fygythiad oherwydd penderfyniad y Llywodraeth i roi'r gorau i ariannu ei rhan hi o'r costau yn 2019. Er y gallai fod rhywfaint o bosibilrwydd ailwampio peth o'r ddarpariaeth ar ôl rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith yn llawn, byddai colli arbenigedd y swyddog cyswllt â'r heddlu wrth ddelio gydag achosion, sy'n adeiladu ar y berthynas gadarnhaol a ddatblygwyd trwy'r rhaglen addysg ataliol, yn arwyddocaol i'n hysgolion a'u myfyrwyr. Mae perygl y byddai digwyddiadau fel tecstio rhywiol a thrais yn cael eu hesgaladu'n gyflymach i'r system cyfiawnder troseddol.

Ni chynhaliwyd Asesiad Effaith ar Hawliau Plant ynghylch y penderfyniad i ddod â'r arian i ben.

**Rwy'n argymhell bod** Llywodraeth Cymru yn gweithredu i gytuno ar fodel ariannu gyda'r pedwar heddlu er mwyn sicrhau bod holl ysgolion Cymru yn parhau i fwynhau manteision perthynas gadarnhaol gyda swyddog cyswllt â'r heddlu, a bod rôl y rhaglen o ran cyfrannu at Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant yn y cwricwlwm newydd yn gydlynus ac yn addas at y dyfodol. Dylid cynnal asesiad o effaith unrhyw benderfyniad ynghylch dyfodol y Rhaglen ar hawliau plant.



# Safon byw sy'n ddigonol

## TRAFNIDIAETH

### Y materion allweddol

Ar draws Cymru, mae plant a phobl ifanc o bob oed wedi codi pryderon gyda ni ynghylch mynediad at opsiynau trafndiaeth dibynadwy a fforddiadwy. Mae mynediad at trafndiaeth yn effeithio ar allu plant i fynychu'r ysgol neu'r coleg, i gyrchu cyfleoedd cyflogaeth, ac i fynychu gweithgareddau cymdeithasol a hamdden.

### Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2018, er mwyn ystyried sut dylai trafndiaeth sy'n cael cymhorthdal weithredu ac i ba grwpiau oedran y dylai fod yn berthnasol. Cyflwynodd fy swyddfa ymateb i'r ymgynghoriad, ac rydyn ni hefyd yn cael ein cynrychioli ar Banel Trafndiaeth Hygyrch Llywodraeth Cymru.

### Barn plant a phobl ifanc

Cwblhaodd ychydig o dan 40 o blant a phobl ifanc a fu'n cymryd rhan yn ein gweithdai rhyngweithiol weithgaredd oedd yn cynnwys ysgrifennu llythyr at y Comisiynydd, yn dweud wrthi pa brif rwystrau oedd yn eu hatal rhag chwarae, defnyddio'u hamser rhydd a chymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon, hamdden, celfyddydau, diwylliant a threftadaeth. Trafndiaeth oedd un o'r 3 mater y soniwyd amdanynt amlaf.

**Trafndiaeth gyhoeddus wael - £3.90 am docyn i'r dref ac yn ôl - mor ddrud!**

Cylch Merched

**Angen trafndiaeth i ble mae pethau'n digwydd/mae rhai gweithgareddau'n rhy bell**

Grŵp dydd Mawrth Ceredigion - mae'n cynnwys plant ag anableddau

**Efallai bydd pobl ifanc sy'n byw mewn tlogi yn cael trafferth talu am docynnau trên ac ati er mwyn teithio i weld eu ffrindiau a defnyddio cyfleusterau - eithrio.**

Fforwm Ieuencid Caerffili

# Safon byw sy'n ddigonol

## Cynnydd ac argymhelliad

Bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun presennol yn cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc er mwyn diwallu eu hanghenion a bod yn hwylus i gael hyd i ffordd drwyddo.

**Rwy'n argymell bod** y cynllun newydd, fan lleiaf, yn sicrhau bod tocyn plentyn yn cael ei estyn i 18 oed.

**Rwyf hefyd yn argymell bod** CRIA yn cael ei gynnal ar gynigion i ddiwygio'r cynllun Fy Nhocyn Teithio er mwyn canfod unrhyw grwpiau a allai gael eu heithrio, fel rhieni ifanc a gofawyr, ymadawyr gofal sy'n dilyn hyfforddiant yn y gweithle neu brentisiaeth, a'r rhai sy'n gwneud gwaith gwirfoddol.

# Safon byw sy'n ddigonol

## IECHYD MEDDWL

### Y materion allweddol

Mae rhaglen y GIG, Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) wedi bod yn gweithio i wneud gwelliannau systemig i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) ers mis Chwefror 2015. Er fy mod i'n croesawu'r gwelliannau a wnaed o ran amserau aros ar gyfer CAMHS arbenigol, mae wedi dod yn fwyfwy amlwg y bydd angen dull gweithredu sy'n cwmpasu'r holl systemau yn fwy er mwyn darparu ymateb digonol i'r galw cynyddol am wasanaethau.

Er mai nod rhaglen T4CYP oedd rhoi sylw i ataliaeth ac ymyrraeth gynnar yn ogystal â gwasanaethau clinigol, dyma'r maes lle gwelwyd y cynnydd lleiaf. Rydyn ni wedi galw'n gyson am sicrhau bod plant yn cael y gefnogaeth angenrheidiol, a hynny ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn. Y ffordd orau o ymdrin ag ataliaeth fyddai dulliau gweithredu ysgol gyfan yng nghyswllt llesiant a iechyd meddwl, gyda chefnogaeth a chynghor gweithwyr iechyd proffesiynol a darpariaeth ieuentid a chymuned.

Mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd sydd angen help a chefnogaeth yn aml yn canfod nad yw eu hanghenion yn cael eu hystyried yn ddigon difrifol eto i fod yn gymwys ar gyfer CAMHS neu wasanaethau gofal cymdeithasol, neu nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau sefydledig. Er enghraifft, efallai na fydd plant sydd ag anghenion ymddygiadol neu emosiynol nad ydynt yn anhwylderau meddyliol yn derbyn cefnogaeth gan CAMHS. Mae rhaglen T4CYP wedi creu rhai llwybrau cliriach ar gyfer gwasanaethau, ond nid yw'r rheiny bob amser yn cael eu cymhwyso'n gyson ledled Cymru. Mae'r rhaglen hefyd wedi cychwyn rhaglen 'Mewn-Gymorth' beilot, y mae disgwyl iddi ddarparu mwy o gymorth iechyd meddwl mewn ysgolion, ond fe hoffwn i weld gweledigaeth gryfach o ran sut byddai hyn yn cydweddu â dull gweithredu cydlynus, ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant, gan gynnwys diwygio'r cwricwlwm. Byddwn i hefyd yn hoffi gweld sut bydd y rhaglen yn cael ei gwerthuso er mwyn sicrhau ei bod yn helpu plant a phobl ifanc i deimlo'n well.

>>>

# Safon byw sy'n ddigonol

## Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Fe gyflwynon ni dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Iechyd Meddwl ac Emosiynol Plant a Phobl Ifanc ym mis Medi 2017, a rhoi tystiolaeth lafar ym mis Tachwedd 2017. Hefyd fe wnaeth y Comisiynydd gwrdd ag Ysgrifenyddion y Cabinet ar gyfer Iechyd ac Addysg ym mis Ionawr 2018 i fynegi ei phryder ynghylch y diffyg gweithio ar y cyd rhwng Rhaglen T4CYP a'r diwygiadau addysg, gan gynnwys diwygio'r cwricwlwm, wrth ddatblygu dull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer llesiant a iechyd meddwl. Hefyd hysbysodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd fod anghysondeb rhwng byrddau Iechyd o ran llwybrau atgyfeirio CAMHs, a dilynodd y cyfarfod hwn â rhagor o wybodaeth ysgrifenedig.

## Enghraifft o achos Ymchwiliadau a Chyngor

**Y Problem:** Cysylltodd rhiant â'r swyddfa oherwydd pryder ynghylch yr heriau roedd wedi'u hwynebu yn cael mynediad i CAMHs, er bod eu plentyn yn dioddef o bryder eithafol oedd wedi arwain at golli cyfnodau sylweddol o'r ysgol a hunan-niweidio. Roedd y plentyn wedi bod yn hysbys i CAMHs o'r blaen, ond bu'n rhaid ail-atgyfeirio cyn gallu cyrchu rhagor o gefnogaeth gan nad oedd y salwch gwreiddiol wedi codi eto. Er bod y plentyn wedi cael asesiad diweddar a bod cytundeb ynghylch therapi, nid oedd amserlen ar gyfer pryd byddai hynny'n cael ei gyflawni na chyngor ynghylch beth ddylai ddigwydd petai'r sefyllfa'n gwaethygu yn y cyfamser. Roedd y rhiant wedi ceisio cysylltu â CAMHs, ond doedd neb yn ateb nac yn dychwelyd y galwadau.

**Beth wnaethon ni:** Cysylltodd Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor â CAMHs, a llwyddo i siarad â'r unigolyn perthnasol, a lwyddodd i hwyluso atgyfeiriad pan eglurwyd y sefyllfa. Cododd y swyddog hefyd y pryderon ynghylch anhawster cysylltu â CAMHs gyda thîm cwynion y Bwrdd Iechyd Lleol, gan fod rhaid iddi hithau aros am gyfnod afresymol o hir cyn i neb ateb ei galwad ffôn. O ganlyniad i'w cwyn, ffoniodd y cyswllt CAMHs perthnasol y swyddog yr un diwrnod, a llwyddwyd i symud y mater ymlaen.

Rhannwyd yr wybodaeth a gafwyd gan y rhiant gyda chydweithwyr polisi yn y swyddfa, i'w helpu gyda'u gwaith dylanwadu.

# Safon byw sy'n ddigonol

**Y Canlyniad:** Cysylltodd CAMHS â'r rhiant ar ôl ein hymyrraeth, a chafodd y person ifanc apwyntiad ar gyfer asesiad CAMHS o fewn cyfnod rhesymol o amser. Mae'n annhebygol y byddai hyn wedi digwydd mor gyflym heb i'r swyddfa ymyrryd.



## Yn y newyddion

Sunday Politics ar y BBC, 14 Ionawr 2018

**Cyrhaeddiad: 1.15 Miliwn**

'Comisiynydd Plant: 'Ffordd bell i fynd' i wella gwasanaethau iechyd meddwl plant'

Newyddion y BBC, 22 Tachwedd 2017

**Cyrhaeddiad: 11.7 Miliwn**

## Barn plant a phobl ifanc

Mae plant a phobl ifanc yn codi materion sy'n ymwneud â chymorth iechyd meddwl ac emosiynol fel rhan o bron pob ymweliad grŵp ysgol a chymuned y mae'r Comisiynydd yn ei wneud. Mae plant a phobl ifanc yn dweud wrthyn ni eu bod nhw eisiau rhagor o help mewn ysgolion. Maen nhw eisiau i'w hathrawon a'u cyfoedion wybod mwy am iechyd meddwl a llesiant, fel bod rhwydwaith cefnogi o'u cwmpas pan fyddan nhw'n cael amser anodd.

Mae plant a phobl ifanc yn dweud wrthyn ni fod angen un pwynt cyswllt arnyn nhw mewn ysgolion ac yn eu cymuned, lle gallan nhw gael mynediad i'r help a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnyn nhw.



# Safon byw sy'n ddigonol

## Cynnydd ac argymhelliad

Cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg eu hymchwiliad i iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc yn ystod 2017-18, gan dynnu tystiolaeth a gasglwyd gan ystod eang o barfïon, oedd yn cynnwys pobl ifanc, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Dangosodd y dystiolaeth, er bod cynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r rhestrau aros ar gyfer asesiadau cychwynnol gwasanaethau iechyd meddwl clinigol mewn rhannau o Gymru, na welwyd fawr ddim cynnydd o ran darparu ataliaeth ac ymyrraeth ym maes iechyd meddwl. Roedd gweithwyr proffesiynol ac arweinwyr o wahanol ddisgyblaethau yn pryderu bod dim modd i lawer o'r rhai sydd eu hangen gael mynediad i wasanaethau clinigol.

Mewn rhai awdurdodau lleol mae cynnydd wedi'i wneud o ran darparu dull gweithredu mwy cydlynus. Mae hyn yn cael ei gynorthwyo'n sylweddol gan strwythurau cynllunio penodol amlasiantaeth ar gyfer plant a phobl ifanc, a all weithredu fel is-bwyllgor i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y boblogaeth gyfan a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

**Rwy'n argymhell bod** Llywodraeth Cymru yn gweithredu drwy fynnu bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) yn sefydlu strwythurau cynllunio amlasiantaeth penodol i blant a phobl ifanc, a fydd yn adrodd i'r BPRh. Dylen nhw fynnu hefyd bod BPRhau yn cymryd camau i integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a iechyd meddwl plant i dimau aml-ddisgyblaeth, a fydd yn ymateb i anghenion eu poblogaethau plant a phobl ifanc lleol y mae anngen cefnogaeth a thriniaeth emosiynol, ymddygiad, neu iechyd meddwl arnynt. Ar ben hynny, achoswyd pryder gan rai achosion eleni lle bu'n anodd iawn cael hyd i'r gofal cywir ar gyfer rhai pobl ifanc ag anghenion emosiynol, ymddygiad a iechyd meddwl cymhleth dros ben.

**Rwy'n argymhell bod** Llywodraeth Cymru yn cymryd camau pendant tuag at gomisiynu darpariaeth newydd sy'n gallu diwallu anghenion gofal a iechyd meddwl y nifer bychan o bobl ifanc sydd ag anawsterau ymddygiad ac emosiynol heriol iawn, nad oes fawr ddim darpariaeth breswyl addas ar eu cyfer yng Nghymru ar hyn o bryd.

# Safon byw sy'n ddigonol

## EIRIOLAETH IECHYD

### Y materion allweddol

Yn Adroddiad Blynyddol y llynedd fe wnes i amlygu bwlch posibl o ran eiriolaeth i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau iechyd. Y rheswm am hyn oedd trefniant comisiynu gwahanol ym mhob rhanbarth a diffyg eglurder o ran y cyfarwyddiadau a'r canllawiau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru.

### Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Ym mis Medi 2017 fe wnaeth ein swyddogion gwrdd â swyddogion o'r gwasanaethau cymdeithasol a iechyd yn Llywodraeth Cymru i archwilio sut gallai gwersi a ddysgwyd o'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol yn y gwasanaethau cymdeithasol gael eu hefelychu ar draws y ddarpariaeth iechyd. Er bod potensial i eiriolaeth mewn lleoliadau iechyd a/neu addysg gael ei hychwanegu at gontractau rhanbarthol y gwasanaethau cymdeithasol, dim ond dau ranbarth sydd wedi gwneud hynny, ac mae'r ddarpariaeth ar draws Cymru yn anghyson. Mae hyn mewn cyferbyniad ag egwyddorion y Dull Gweithredu Cenedlaethol, a gyflwynwyd er mwyn darparu gwasanaethau cyson a sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r gefnogaeth y gallan nhw gael mynediad iddi.

>>>

# Safon byw sy'n ddigonol

## Cynnydd ac argymhelliad


Derbyniodd Llywodraeth Cymru fy argymhelliad yn adroddiad y llynedd, a nodi yn eu hymateb y bydden nhw'n adolygu'r ddarpariaeth bresennol o fewn 12 mis. Hyd yma ni wnaed dim newidiadau i unrhyw ganllawiau na dogfennau sy'n rhoi gwybodaeth i blant a'u teuluoedd sy'n cyrchu gwasanaethau iechyd.

**Rwy'n argymhell bod** Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliad o ddarpariaeth eiriolaeth i rai o dan 18 oed mewn lleoliadau iechyd ac yn symud ymlaen gyda mesurau i sicrhau bod unrhyw fylchau a nodwyd yn cael eu llenwi.

**Rwyf hefyd yn argymhell bod** gwybodaeth cleifion Rhoi Pethau'n lawn yn cael ei diweddarau er mwyn rhoi cyfarwyddyd i bobl ifanc a'u teuluoedd ynghylch sut gallan nhw gael mynediad i eiriolaeth wyneb yn wyneb mewn lleoliadau iechyd ledled Cymru.



**DIWEDDGLO A  
CHRYNHOI'R  
ARGYMHELLION**



Ym mis Chwefror 2016, cyflwynwyd y nodau canlynol ar gyfer hawliau plant yng Nghymru. Erbyn 2019, rwydym ni'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni'r gwelliannau canlynol i blant:

- Bydd plant a phobl ifanc yn cael mynediad i'r gwasanaethau iechyd meddwl sydd eu hangen arnyn nhw yn brydlon. Bydd rhaglenni cryfach ar gyfer hybu iechyd a llesiant emosiynol yn ein gwasanaethau cymdeithasol a iechyd, mewn ysgolion a gwasanaethau pobl ifanc
- Bydd profiadau cyfoes plant o fwlio yn cael eu deall yn well, a bydd mwy o ysgolion yn atal ac yn taclo bwlio'n effeithiol
- Bydd gwell mynediad i chwarae, diwylliant a gweithgareddau hamdden gan y plant sy'n fwyaf tebygol o golli cyfle i gael y pethau hynny, yn arbennig y rhai sy'n byw mewn tlodi a phlant anabl
- Bydd ymadawyr gofal yn cael gwell mynediad i opsiynau tai diogel a sicr, a chynnig gweithredol swydd, neu le mewn hyfforddiant neu addysg
- Bydd pob person ifanc sydd angen cefnogaeth iechyd a chymdeithasol barhaus yn cael pontio'n well i wasanaethau oedolion
- Bydd plant yn cael yr un amddiffyniad cyfreithiol ag oedolion rhag ymosodiad corfforol
- Bydd plant a phobl ifanc yn ymwneud yn well â gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys fy sefydliad fy hun.

Bydd ein swyddfa yn parhau i chwarae ei rhan tuag at gyflawni rhai o'r nodau hyn. Yn 2018/19 byddwn ni'n gweithio ar brosiectau yn y meysydd canlynol:

- Tlodi plant: sicrhau bod awdurdodau lleol yng Nghymru a Llywodraeth Cymru yn defnyddio popeth o fewn eu gallu i liniaru tlodi plant
- Dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant: galluogi mwy o gyrff sector cyhoeddus i fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant
- Taclo bwlio
- Datblygu cynlluniau llysgenhadon ar gyfer lleoliadau Anghenion Addysgol Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Cynnal Beth Nawr? | What Now? i benderfynu ar flaenoriaethau strategol 2019-2021

## Crynodeb o'r argymellion

Mewn ymateb i'r materion y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad blynyddol hwn, yma rydym yn crynhoi'r argymhellion i Lywodraeth Cymru. Mae ein hasesiad o gynnydd Llywodraeth Cymru yn erbyn argymhellion y llynedd ar gael ar ein gwefan [yma](#). Rydyn ni'n diweddarau'r asesiad hwn bob chwarter, cyn cyfarfod y Comisiynydd gyda'r Gweinidog dros Blant.

### MAES POLISI

### ARGYMHELLIAD

#### Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

##### Amddiffyniad Cyfartal

**Rwy'n argymell** y dylai Bil gael ei gyflwyno cyn gynted â phosib i sicrhau bod ymrwymiad y Llywodraeth yn cael ei gyflawni.

##### Breuddwydion Cudd

**Rwy'n argymell** bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ymadawyr gofal ac awdurdodau lleol i gynhyrchu gwybodaeth ariannol glir sydd ar gael yn genedlaethol, i helpu pobl ifanc a'u hymgyngorwyr personol i gael mynediad i'r ystod o grantiau, budd-daliadau a phethau y gallant eu hawlio sydd ar gael iddynt wrth adael gofal.

##### Eiriolaeth

**Rwy'n argymell** bod Côt Ymarfer Rhan 10 yn cael ei newid i roi grym statudol i'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol, gan gynnwys pob un o'r dogfennau cysylltiedig.

#### Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais

##### Dewis Addysgu Gartref

**Rwy'n argymell** bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r polisi wedi'i ddiweddarau ar gyfer ymgynghori eleni, gyda'r nod o gyflawni'r tri phrawf yma'n llawn:

- Yn gyntaf, bod modd rhoi cyfrif am bob plentyn yng Nghymru, heb i neb ohonynt lithro o dan radar y gwasanaethau sydd ar gael i bawb, a'r gymdeithas yn gyffredinol.
- Yn ail, bod pob plentyn yn derbyn addysg addas a'u hawliau dynol eraill, gan gynnwys iechyd, gofal a diogelwch.
- Ni ellir cyflawni hyn heb y trydydd nod, sef y dylai pob plentyn gael cyfle i gael eu gweld, a gwrando ar eu barn, gan gynnwys eu barn am eu haddysg, a'u profiadau.



## Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais (parhad)

**Cam-drin ac ecsbloetio rhywiol**

**Rwy'n argymell** y dylai'r Llywodraeth sicrhau fod darpariaeth Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ar gyfer ardal pob bwrdd iechyd yn cynnwys mynediad 24/7 i rota o bediatregwyr ac archwilwyr meddygol ffforensig sydd wedi'u hyfforddi'n addas, fel nad oes rhaid i unrhyw blentyn aros am oriau lawer neu hyd yn oed ddyddiau am archwiliad, a bod gwasanaethau cwnsela ac adferiad digonol ar gael i ddioddefwyr ledled Cymru.

## Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

**Addysg Perthnasoedd Iach**

**Rwy'n argymell** bod Llywodraeth Cymru yn datblygu argymhellion adroddiad eu Panel arbenigol, ac yn gwneud addysg perthnasoedd iach yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd. Dylai addysg perthnasoedd iach fod yn seiliedig ar hawliau ac yn cael ei llywio gan ymwneud dysgwyr â'r dyluniad.

**Diwygio'r Cwricwlwm**

**Rwy'n argymell** bod canlyniadau cyflawni'r cwricwlwm newydd yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn dysgu am eu hawliau, a bod dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn darparu sylfaen ar gyfer egwyddorion tywys darparu'r cwricwlwm. Dylai cyfranogiad plant a phobl ifanc gael ei wreiddio'n systematig yng nghyfnod nesaf datblygu'r cwricwlwm.

**Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan**

**Rwy'n argymell** bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu i gytuno ar fodel ariannu gyda'r pedwar heddlu er mwyn sicrhau bod holl ysgolion Cymru yn parhau i fwynhau manteision perthynas gadarnhaol gyda swyddog cyswllt â'r heddlu, a bod rôl y rhaglen o ran cyfrannu at Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant yn y cwricwlwm newydd yn gydlynus ac yn addas at y dyfodol. Dylid cynnal asesiad o effaith unrhyw benderfyniad ynghylch dyfodol y Rhaglen ar hawliau plant.

**Trafnidiaeth**

**Rwy'n argymell** bod y cynllun newydd, fan lleiaf, yn sicrhau bod tocyn plentyn yn cael ei estyn i 18 oed.

**Rydym hefyd yn argymell** bod CRIA yn cael ei gynnal ar gynigion i ddiwygio'r cynllun Fy Nhocyn Teithio er mwyn canfod unrhyw grwpiau a allai gael eu heithrio, fel rhieni ifanc a gofalwyr, ymadawyr gofal sy'n dilyn hyfforddiant yn y gweithle neu brentisiaeth, a'r rhai sy'n gwneud gwaith gwirfoddol.

**Canllawiau 'Parchu Eraill'**

**Rwy'n argymell** bod canllawiau 'Parchu Eraill' Llywodraeth Cymru yn gofyn bod ysgolion yn integreiddio strategaethau gwrthfwlio cadarn a lywiwyd gan blant a phobl ifanc, fel rhan o ddull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant.

## Safon Byw sy'n Ddigonol

## Iechyd meddwl

**Rwy'n argymhell** bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu drwy fynnu bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) yn sefydlu strwythurau cynllunio amlasiantaeth penodol i blant a phobl ifanc, a fydd yn adrodd i'r BPRh. Dylen nhw fynnu hefyd bod BPRhau yn cymryd camau i integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a iechyd meddwl plant i dimau amlddisgyblaeth, a fydd yn ymateb i anghenion eu poblogaethau plant a phobl ifanc lleol y mae angen cefnogaeth a thriniaeth emosiynol, ymddygiad, neu iechyd meddwl arnynt.

**Rwy'n argymhell** bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau pendant tuag at gomisiynu darpariaeth newydd sy'n gallu diwallu anghenion gofal a iechyd meddwl y nifer bychan o bobl ifanc sydd ag anawsterau ymddygiad ac emosiynol heriol iawn, nad oes fawr ddim darpariaeth breswyl addas ar eu cyfer yng Nghymru ar hyn o bryd.

## Eiriolaeth Iechyd

**Rwy'n argymhell** bod Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliad o ddarpariaeth eiriolaeth i rai o dan 18 oed mewn lleoliadau iechyd ac yn symud ymlaen gyda mesurau i sicrhau bod unrhyw fylchau a nodwyd yn cael eu llenwi.


**Rwyf hefyd yn argymhell** bod gwybodaeth cleifion Rhoi Pethau'n lawn yn cael ei diweddarau er mwyn rhoi cyfarwyddyd i bobl ifanc a'u teuluoedd ynghylch sut gallan nhw gael mynediad i eiriolaeth wyneb yn wyneb mewn lleoliadau iechyd ledled Cymru.

# Prosesau Sefydliadol





# Prosesau Sefydliadol



## Pobl y Comisiynydd

---

### Hyfforddiant:

Bu wyth unigolyn o bob rhan o'r sefydliad yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Datblygiad Proffesiynol Parhaus gyda darparwr allanol, gyda chefnogaeth y sefydliad.

Bu aelodau o'r fîm oedd yn amrywio o ran graddau, patrymau gweithio a rhywedd yn gwneud cais am hyfforddiant ac yn elwa ohono.

Ar ben hynny, yn ystod blwyddyn ariannol 2017-2018, bu pob aelod o'r fîm, gan gynnwys y rhai oedd ar secondiad ac absenoldeb mabwysiadu, yn cymryd rhan mewn dysgu a datblygu a ddarparwyd gan hwyluswyr allanol:

- Hyfforddiant Cyfryngau
- Ymwybyddiaeth Ofalgar
- Afasic Cymru
- Blake Morgan (materion cyfreithiol).
- Datgelu Camarfer
- Rheoli Prosiectau
- Stonewall Cymru

### Salwch:

y ganran gronol ar gyfer 2017/18 yw 3.8%

### Proffil y Gweithlu a Phroffil Cyflogau Cyfartal ar gyfer y flwyddyn ariannol o 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2018

---

Rydyn ni'n casglu ystadegau am y gweithlu mewn perthynas â'r holl nodweddion a amddiffynnir sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'r ystadegau hyn yn ein helpu i nodi camau gweithredu cadarnhaol mewn perthynas â chydarddoldeb bob blwyddyn.


Nid ydym yn cyhoeddi'r holl ystadegau hyn yn y ddogfen hon oherwydd maint bach ein gweithlu, ac anhawster sicrhau bod ein data sensitif yn parhau'n ddiennw.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein hystadegau cyflogaeth o ran rhywedd, cyflog a hyfforddiant.

## 1. Ystadegau Rhywedd y Gweithlu

Tabl 1

Nifer yr unigolion yn ôl rhywedd, gan gymharu yn erbyn data poblogaeth cyfrifiad 2014 Cymru (3092,000) 31 Mawrth 2018




Nid yw rhaniad rhywedd CPC ar 31 Mawrth 2018 yn adlewyrchu rhaniad rhywedd poblogaeth gyfan Cymru.

Rydyn ni'n weithlu benyw yn bennaf, ac rydym wedi bod yn ymwybodol iawn o'r gostyngiad yn nifer aelodau gwryw ein fîm yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel y gwelir yn Nhabl 2 isod. Fodd bynnag, eleni rydyn ni'n falch o adrodd bod cynnydd bychan, ac rydyn ni'n dal i weithio'n galed i wella'n hamrywiaeth rhywedd gyda hysbysebion sydd wedi'u geirio'n ofalus a phaneli cyfweld cytbwys o ran rhywedd.



## 2. Ystadegau Oedran y Gweithlu

Tabl 2  
Proffil Oedran



Mae pob ystod oed yn cael eu cynrychioli yn y sefydliad, gyda rhaniad cymharol deg, ar hyn o bryd, ac eithrio 65 oed a throsodd.

### 3. Ystadegau Rhywedd a Chyflogau'r Gweithlu

#### Nifer yr unigolion ar 31 Mawrth 2018 yn ôl rhywedd, gradd a phatrwm gweithio

Mae system cyflogaeth CPC wedi'i seilio ar y System Gwerthuso a Graddio Swyddi (JEGS). Mae'r system hon yn rhoi bandiau i swyddi unigol ar sail saith ffactor gwaith gwahanol: annibyniaeth, datrys problemau, gwneud penderfyniadau, effaith, rheoli adnoddau, cysylltiadau a chyfathrebu, gwybodaeth a sgiliau. Mae'r system hon yn sicrhau bod gwahaniaethau cyflog yn cyfateb i ofynion penodol swyddi.

Mae dadansoddi ein gweithlu presennol ymhellach yn ôl rhywedd, band cyflog, contract a phatrwm gweithio yn datgelu bod rhai gwasanaethau cyflog yn parhau rhwng y rhywiau, er bod y sefyllfa wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fel bod y gwahaniaeth rhwng cyflogau cyfartalog gweithwyr gwryw a benyw bron yn ddim:

#### **Graddau:**

O'r 17 aelod benywaidd o staff mewn swyddi ar 31 Mawrth 2018, cyflogir 4 aelod o staff benywaidd (23.5% o'r gweithlu benywaidd) yn y tri band cyflog uchaf, cydbwysir hynny â 3 aelod gwrywaidd o staff (37.5% o'r gweithlu gwrywaidd). Ar 31 Mawrth 2018, roedd cydbwysedd rhywedd da yn y fîm Rheoli, ond ar draws y gweithlu cyfan, mae'r nifer llai o gyflogeion gwryw yn llenwi nifer anghymesur o'r rolau uwch.

Dim ond aelodau staff benywaidd CPC sydd ar y band cyflog isaf, a bu hynny'n wir ers 2011 pan ddechreuon ni gasglu ystadegau cydraddoldeb y gweithlu.

#### **Cyflog:**

Cyflog cyfartalog gweithiwr benyw ar 31 Mawrth 2018 oedd £37,596 a chyflog cyfartalog gweithiwr gwryw oedd £37,566. Mae'r differyn yn 17/18 bron yn ddim, sy'n welliant o gymharu â'r sefyllfa yn 16/17 (£2762) a'r differyn yr adroddwyd amdano yn 15/16 (£5482).

#### **Patrwm gweithio:**

O'r 17 aelod o staff benyw a gyflogwyd, mae bron hanner y gweithwyr yn llenwi rolau rhan amser (47% o'r gweithlu benywaidd neu 8 person) o gymharu ag un cyflogai gwryw yn unig (12.5% o'r gweithlu gwrywaidd).

#### 4. Ystadegau'r rhai a adawodd y Gweithlu

##### Ymadawyr rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018 yn ôl rhywedd, gradd a phatrwm gwaith

Ymunodd pedwar aelod newydd o staff â'r tîm rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018 (1 swydd dros dro a 3 parhaol) a gadawodd 3 aelod o staff y tîm yn yr un cyfnod.

Mae hon yn gyfradd drosiant o 12%.

## Prosesau Sefydliadol

### Safonau'r Gymraeg

Mae'r wybodaeth sy'n dilyn yn cynnwys manylion sut rydym wedi cydymffurfio ag adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n gofyn bod y Comisiynydd yn cadw at gyfres o safonau iaith Gymraeg ers yn 2016.

### Sut rydyn ni wedi cydymffurfio â'r Ddeddf

Ry' ni'n hybu'r Gymraeg ac egwyddorion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn frwd ac ry' ni'n wedi rhoi mesurau strwythurol ar waith i sicrhau bod ei swyddfa'n cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae'r Comisiynydd wedi dynodi aelod o'i thîm rheoli i arwain cydymffurfiaeth â holl ofynion deddfwriaethol cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg.

**Yn ystod y cyfnod adrodd cyfredol, mae'r swyddfa wedi:**

- **Parhau i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r iaith Gymraeg mewn cyfarfodydd tîm rheoli misol.**
- **Gwella sgiliau Cymraeg y gweithlu. Mae'r holl staff sydd ddim yn rhugl wedi bod yn cael gwersi Cymraeg yn fewnol. Mae cyfleoedd dysgu wedi cael eu darparu i'r staff yn unol â lefel eu sgil.**
- **Cynnwys dau aelod o staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau Cymraeg ffurfiol trwy fynychu cyrsiau hyfforddi allanol.**
- **Adolygu gyda'r staff y cyfleoedd sy'n bodoli i wella'u sgiliau Cymraeg a rhoi newidiadau ar waith o ran darparu gwersi Cymraeg yn fewnol.**
- **Gwreiddio'n llawn yr arfer o ddarparu gweminarau a diwrnodau hyfforddi Llysgenhadon Gwych yn gyfangwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.**
- **Adolygu disgrifiad un swydd allweddol, sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cyhoedd – Cynorthwy-ydd Gweithredol y Comisiynydd – a newid y gofyniad sgiliau iaith i ddwyieithog. Llwyddwyd i recriwtio i'r swydd hon.**

## Prosesau Sefydliadol

**Nifer y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw (Safon 145) – Ar 31 Mawrth 2018 roedd 25 aelod o staff yn cael eu cyflogi yn swyddfa'r Comisiynydd. O'r 25 person oedd yn cael eu cyflogi yn ystod y cyfnod hwnnw:**

**Roedd 8 yn disgrifio'u hunain fel rhai oedd yn rhugl yn Gymraeg.**

**Roedd 6 yn disgrifio'u hunain fel rhai oedd â sgiliau Cymraeg lefel uwch.**

**Roedd 3 yn disgrifio'u hunain fel rhai oedd â sgiliau Cymraeg canolradd.**

**Roedd 0 yn disgrifio'u hunain fel rhai oedd â sgiliau Cymraeg sylfaenol.**

**Roedd 8 yn disgrifio'u hunain fel rhai oedd yn methu siarad Cymraeg/â sgiliau Cymraeg lefel mynediad.**

**Nifer y cyflogeion a fu'n mynychu cyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn**  
– Wnaethon ni ddim cynnig unrhyw gyrsiau hyfforddi yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn, heblaw am yr amrywiol gyrsiau hyfforddi Iaith Gymraeg.

**Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn a gafodd eu categorio fel swyddi lle roedd:**

- **Sgiliau Cymraeg yn hanfodol – 1 swydd Swyddog Cyfranogiad ac 1 Swyddog Cymorth Gweithredol i'r Comisiynydd.**
- **Angen dysgu sgiliau Cymraeg wrth benodi i'r swydd – 0**
- **Sgiliau Cymraeg yn ddymunol – 2 swydd Ymgynghorydd Polisi.**
- **Sgiliau Cymraeg yn ddianghenraid – 1 swydd Swyddog Cyllid dros dro**

**Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â chydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oedd dyletswydd arnon ni i gydymffurfio â nhw – Nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion mewn perthynas â chydymffurfio â'r safonau gweithredu.**

## Prosesau Sefydliadol

### Dyletswydd Cydraddoldeb

Mae ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-2020](#), yn amlinellu sut rydyn ni'n bwriadu gweithio tuag at sicrhau bod plant a phobl ifanc yn tyfu i fyny mewn gwlad lle mae cydraddoldeb a hawliau dynol plant yn hanfodol i sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu. Rydyn ni wedi pennu pedwar amcan cydraddoldeb strategol cyffredinol:

- 1. Mae ein fîm arweinyddiaeth a llywodraethu yn sicrhau bod amcanion cydraddoldeb yn cael eu cynnwys yn ein holl brosesau cynllunio.**
- 2. Darparu gwasanaeth effeithiol, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ac yn sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc a'r cyhoedd yn gyffredinol yn ganolog i sut mae gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u darparu.**
- 3. Datblygu a hyrwyddo adnoddau a gwybodaeth i alluogi eraill i ymateb i anghenion plant a phobl ifanc sydd â nodweddion a amddiffynnir.**
- 4. Cyflogaeth, tâl a hyfforddiant: creu gweithle cefnogol, cynhwysol a grymusol trwy hyrwyddo arferion delfrydol o ran rheoli pobl a pherfformiad, gan ddefnyddio tystiolaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb.**

Caiff ein cynnydd wrth gyflawni'r amcanion hyn ei adolygu'n ffurfiol bob chwarter yng nghyfarfod y fîm rheoli.

### Cynaliadwyedd Ariannol a Gwerth am Arian

#### Ailgyrchu

Fe wnaethon ni wahodd Pwyllgor Eco Ysgol Gynradd Glyncollen i archwilio ein hymarfer ailgyrchu. Fe wnaethon nhw awgrymiadau ar gyfer gwelliant, gan gynnwys mwy o rhannu ceir, cyflwyno papur wedi'i ailgyrchu'n llwyr at ddefnydd y swyddfa, defnyddio llathr eco-gyfeillgar ar gyfer ein gwaith celf gyda phlant, a chyflwyno gwell systemau ailgyrchu ar gyfer gwastraff y swyddfa. Fe aethon ni ati i wella cyfradd rhannu ceir, dod o hyd i bapur wedi'i ailgyrchu, gwell llathr, a gweithio gyda'r Cyngor a chwmni preifat i'n helpu i wella ein cyfraddau ailgyrchu. Mae Pwyllgor Eco Ysgol Gynradd Glyncollen wedi cytuno i gynnal archwiliad eto yn 2018/19 i wirio'n cynnydd.

Mae rhagor o wybodaeth am ein cynaliadwyedd ariannol yn y datganiad ariannol.





Cyfrifon





## Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i Gomisiynydd Plant Cymru 2017/18 Diben yr Adroddiad Blynyddol

**Fel rhan o'i Gylch Gorchwyl, mae'n ofynnol bod y pwyllgor yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn crynhoi'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn i gefnogi'r Cyfrifon Blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu. Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiynydd Plant (ARAC) yn falch, felly, o gyflwyno'r adroddiad hwn ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2018.**

### Cyflwyniad

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi dod yn un o is-bwyllgorau Panel Ymgynghorol y Comisiynydd Plant, sydd newydd ei sefydlu. Mae creu'r Panel Ymgynghorol wedi caniatáu i ni ganolbwyntio'n fwy ar lywodraethu yn ogystal â materion archwilio a sicrhau risg, er bod ein haelodau yn dal ar gael i'r Comisiynydd os bydd arni angen cyngor ar faterion penodol. Mae Margaret Provis, Cadeirydd y Panel Ymgynghorol, hefyd yn aelod o'n pwyllgor. Ein rôl bellach yw darparu cyngor arnibynnol i'r Comisiynydd, i'w helpu i gyflawni ei dyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu ein bod ni'n adolygu ac yn herio'r sicrwydd a roddir gan staff y Comisiynydd a'i harchwilwyr mewnol ac allanol, ac yn ei chynghori ynghylch llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

### Aelodaeth

#### Aelodau Anweithredol

- Wyn Mears (Cadeirydd tan fis Mai 2017, pan ddaeth ei gyfnod o wasanaeth i ben)
- Jocelyn Davies, a fu'n Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Cadeirydd ers mis Mai 2017)
- Aine Denver, cyfreithiwr gofal plant
- Dr Iolo Doull - Pediatregydd Resbiradol Ymgynghorol yn Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd (hyd at fis Chwefror 2018)
- Margaret Provis, a fu gynt yn Was Sifil
- Nina Riddle, Pennaeth Ymgysylltiad Polisi Cyhoeddus ym Mhrifysgol Wrecsam-Glyndŵr
- Arwel Thomas, a fu gynt yn Was Sifil

#### Staff y Comisiynydd

- Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru
- Tony Evans, Pennaeth Cyllid
- Sara Jermin, Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad
- Christian Webb, Cynorthwy-ydd Gweithredol i'r Comisiynydd, sy'n darparu cymorth Ysgrifenyddiaeth i ARAC

#### Eraill

Cynrychiolwyr o Deloitte LLP (archwilwyr mewnol) a Swyddfa Archwilio Cymru (archwilwyr allanol)

# Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i Gomisiynydd Plant Cymru 2017/18 Diben yr Adroddiad Blynyddol

## Taliadau

Nid yw'r aelodau'n derbyn unrhyw dâl, ond mae ad-daliad ar gael iddynt am unrhyw dreuliau y maent wedi gorfod eu talu.

## Gwrthdaro budd

Fel aelodau o ARAC, mae pob aelod o'r Pwyllgor yn cwblhau datganiad blynyddol o fuddiannau. Yn ogystal, roedd yr eitem gyntaf ar agenda unrhyw gyfarfod ARAC yn caniatáu ar gyfer datgan unrhyw fudd penodol i eitemau agenda'r cyfarfod hwnnw.

## Hyfforddiant

Ynghyd â'r Comisiynydd a Sara Jermin, Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad y Comisiynydd, es innau a Margaret Provis i Weithdy Seiber-ddiogelwch, GDPR a Sicrhau Risg a gynhaliwyd gan Deloitte ym mis Mai, ac ar y cyd â Tony Evans, es i sesiwn friffio Swyddfa Archwilio Cymru ar Seiber-ddiogelwch ym mis Hydref.

## Cyfarfodydd

Ein nod yw cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Yn 2017, cyfarfu'r pwyllgor ym mis Mai, mis Gorffennaf a mis Hydref. Yn 2018, cafodd cyfarfod mis Mawrth ei ganslo oherwydd tywydd gwael. Roedd y Comisiynydd Plant yn bresennol ym mhob cyfarfod. Ar sawl achlysur, ymunodd aelodau â'r cyfarfod trwy gyfleuster fideo-gynadledda a ffôn. Ym mis Mawrth fe wnaethon ni gytuno ar y Cynllun Archwilio y tu allan i'r pwyllgor, wedi i'r cyfarfod oedd wedi cael ei drefnu orfod cael ei ganslo.

## Busnes y Pwyllgor

Fel cadeirydd, rwy'n adolygu'r agenda cyn ei hanfon at aelodau'r Pwyllgor a'r rhai fydd yn bresennol. Ym mhob cyfarfod rydyn ni'n derbyn nifer o eitemau agenda sefydlog, gan gynnwys:

- Cofrestr Risgiau
- Adroddiad Cyllid
- Adroddiadau Archwilio Mewnol
- Diweddariad Archwilio Allanol
- Fframwaith Llywodraethu / Gwerthuso

Mae ein Cylch Gorchwyl, a gafodd ei ddiweddarau a'i gymeradwyo ym mis Mai 2018, yn amlinellu'n fanwl raglen waith y Pwyllgor.

Yn ogystal â'r materion arferol, cwblhawyd adolygiad o'r Cylch Gorchwyl ym mis Mai. Ym mis Gorffennaf buon ni'n edrych ar Seiber-ddiogelwch ac roedden ni'n falch o weld Cofrestr Asedau Gwybodaeth yn cael ei chreu a gwaith yn cychwyn i adolygu Polisi Cronfeydd wrth Gefn y Comisiynydd a'r Polisi Risg. Ym mis Hydref fe gawson ni gyflwyniad ar y Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor a mynegi ein bwriad i graffu ymhellach ar y Polisi Cadw Dogfennau yn ddiweddarach. Buon ni hefyd yn archwilio ac yn herio'r Amcangyfrif Drafft ac yn cynnig cyngor ar y broses a'r ystyriaethau priodol ar gyfer yr Adolygiad Llety.

# Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i Gomisiynydd Plant Cymru 2017/18 Diben yr Adroddiad Blynyddol

## Asesiad Cyffredinol

### Archwilio Allanol

Yn yr Adroddiad ar Archwilio'r Datganiadau Ariannol a'r Llythyr Rheoli, soniodd Swyddfa Archwilio Cymru am fwriad yr Archwilydd Cyffredinol i gyflwyno adroddiad archwilio digwestiwn ar ddatganiadau ariannol y Comisiynydd. Dywedodd yr adroddiad wrthyn ni fod yr holl faterion a amlygwyd y flwyddyn flaenorol ac y bydd pob un o argymhellion eleni yn derbyn sylw erbyn mis Mawrth 2019.

### Archwilio Mewnol

Fel yr archwilwyr mewnol a benodwyd gan y Comisiynydd, cwblhaodd Deloitte LLP raglen archwilio fewnol lawn yn 2017/18, wedi'i chymeradwyo gan ARAC. Rôl archwilio mewnol yw darparu sicrwydd annibynnol, gwrthrychol i'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu. Yn eu hadroddiad blynyddol i'r Pwyllgor, dywedodd Deloitte LLP y canlynol:

**“Yn 2017/18 roedd ein harchwilio mewnol yn golygu cymryd camau dilynol o ran gweithredu'r argymhellion a godwyd yn 2016/17 ac asesu unrhyw newidiadau sylweddol i'r amgylchedd llywodraethu corfforaethol. Ar sail y gwaith a wnaethom yn archwiliadau mewnol 2016/17 a 2017/18 ein hasesiad cyffredinol yw mai dosbarthiad sicrwydd llywodraethu corfforaethol yw sicrwydd sylweddol.”**

**“Yn 2017/18 roedd ein harchwilio mewnol yn golygu cymryd camau dilynol o ran gweithredu'r argymhellion a godwyd yn 2016/17 ac asesu unrhyw newidiadau sylweddol i'r amgylchedd llywodraethu corfforaethol. Ar sail y gwaith a wnaethom yn archwiliadau mewnol 2016/17 a 2017/18 ein hasesiad cyffredinol yw mai dosbarthiad sicrwydd llywodraethu corfforaethol yw sicrwydd sylweddol.”**

**“Ar sail y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, gallwn ddod i'r casgliad bod gan y Comisiynydd, yn y bôn, system gadarn o reolaeth fewnol, a ddylai ddarparu sicrwydd sylweddol ynghylch cyflawni amcanion y Comisiynydd.”**

**“Cyflawnwyd sicrwydd sylweddol neu gymedrol ar gyfer pob archwiliad mewnol a gyflawnwyd lle rhoddyd gradd am sicrwydd yn 2017/18.”**

## Casgliad

Mae'r Pwyllgor wedi'u bodloni bod y sicrwydd cynhwysfawr a gafwyd yn ystod y flwyddyn wedi dangos yr amgylchedd rheolaeth fewnol, adroddiadau ariannol a rheoli risg yn foddhaol, a hefyd ansawdd y gwaith archwilio mewnol ac allanol a wnaed. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor wedi gallu rhoi sicrwydd sy'n cefnogi'r Comisiynydd Plant yn effeithiol i gydymffurfio â'i chyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu, yn arbennig o ran cynorthwyo i baratoi'r Datganiadau Ariannol, sy'n ymgorffori'r Datganiad Llywodraethu.

Paratowyd gan  
**Jocelyn Davies, Cadeirydd**

## Cyfrifon 2017-18

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

#### Cyflwyniad

Sefydliad annibynnol sy'n ymdrin â hawliau dynol plant yw Comisiynydd Plant Cymru. Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant. Mae dwy gyfraith yn nodi'r rheolau ynghylch sut gall hi wneud ei gwaith, ac yn rhoi pwerau penodol iddi, sef Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (a oedd yn diwygio Deddf Safonau Gofal 2000).

#### Dyma grynodedb o bwerau'r Comisiynydd

- Pŵer i adolygu a monitro'r trefniadau ar gyfer cwynion, datgelu camarfer ac eiriolaeth mewn cyrff cyhoeddus a ddiffiniwyd;
- Pŵer i adolygu sut mae cyrff cyhoeddus a ddiffiniwyd yn ymarfer eu swyddogaethau (pwerau a dyletswyddau), gan gynnwys Llywodraeth Cymru;
- Pŵer i archwilio achosion sy'n ymwneud â phlant unigol;
- Pŵer i roi cymorth i blant unigol; a hefyd
- Pŵer i gyflwyno sylwadau i Brif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch unrhyw faterion sy'n effeithio ar hawliau a lles plant sy'n destun pryder iddi ac nad oes ganddi bŵer i weithredu yn eu cylch.

Nid oes gan y Comisiynydd b er i weithredu mewn nifer o amgylchiadau a ddiffiniwyd:

- **Materion sydd heb eu datganoli i Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys mewnfudo a lloches, tloedi plant, cyfiawnder a phlisma, a phlant yn y lluoedd arfog;**
- **Lle gall CAFCASS (Gwasanaeth Ymgynghorol Plant a'r Llysoedd) weithredu;**
- **Lle mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau yng nghyswllt achosion teulu; a**
- **Ni chaiff wneud ymholiadau ynghylch neu adrodd ar unrhyw fater sydd neu a fu'n destun achos cyfreithiol.**

Cychwynnodd yr Athro Sally Holland yn ei swydd fel Comisiynydd ar 20fed Ebrill 2015, ar ôl cael ei phenodi gan Brif Weinidog Cymru, am gyfnod o saith mlynedd. Cychwynnodd yr uwch swyddogion eraill ar eu penodiadau rhwng mis Mai 2006 a mis Awst 2016, ac fe'u penodwyd gan y Comisiynydd o dan Atodlen 2 paragraff 4 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

#### Uwch swyddogion

Bu'r bobl ganlynol yn gwasanaethu fel Tîm Rheoli yn ystod y flwyddyn:

- **Yr Athro Sally Holland - Comisiynydd Plant Cymru;**
- **Andy Wallsgrove – Pennaeth Ymarfer a Chyfranogiad;**
- **Sara Jermin, Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad;**
- **Tony Evans, Pennaeth Cyllid;**
- **Amanda Evans – Pennaeth Adnoddau Dynol;**
- **Hywel Dafydd – Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, o 1 Ebrill tan 21 Mai 2017; a**
- **Rachel Thomas – Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, o 22 Mai 2017.**

## Cyfrifon 2017-18

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

#### Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiynydd yn rhoi cyngor a sicrwydd ynghylch llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a mesurau rheoli yn swyddfa'r Comisiynydd a digonoldeb y trefniadau archwilio mewnol ac allanol. Mae'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn o leiaf, ac yn cynnwys swyddogion uwch o Swyddfa'r Comisiynydd ac aelodau Anweithredol. Aelodau Anweithredol y Pwyllgor yw:

- **Wyn Mears – Ymgynghorydd Busnes a Chyn Gyfarwyddwr Cymdeithas y Cyfrifyddion Siartredig Ardystiedig, hyd at fis Mai 2017;**
- **Jocelyn Davies – Cyn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru**
- **Dr Iolo Doull - Pediatregydd Resbiradol Ymgynghorol yn Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd;**
- **Aine Denvir - Cyfreithiwr Gofal Plant;**
- **Margaret Provis, a fu gynt yn Was Sifil;**
- **Nina Ruddle, Pennaeth Ymgysylltiad Polisi Cyhoeddus ym Mhrifysgol Wrecsam-Glyndŵr, ac**
- **Arwel Thomas, a fu gynt yn Was Sifil.**

#### Ariannu

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ei ariannu ganddi. Yn 2017-18 derbyniodd y Comisiynydd £1.583 miliwn (2016-17: £1.543 miliwn) i gyllido gweithgareddau'r Comisiynydd. Roedd hyn yn cynnwys £40,000 gan Lywodraeth Cymru i ariannu prosiect penodol (Bright Spots) o fewn y cyfnod hwn.

#### Fformat y Cyfrifon

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Pharagraff 7(2) Atodlen 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru. Mae copi o'r cyfarwyddyd hwnnw ar gael oddi wrth Gomisiynydd Plant Cymru, Tŷ Ystumllwynarth, Llys Siarter, Ffordd Ffenics, Abertawe, SA7 9FS.

Paratowyd y cyfrifon hyn ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2018, ac maent yn adlewyrchu alldro asedau, rhwymedigaethau ac adnoddau'r Comisiynydd Plant. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyflwynwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r polisiâu cyfrifo a geir yn yr FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IFRS), fel y'u mabwysiadwyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

#### Canlyniadau ar gyfer y Flwyddyn

Dengys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr wariant o £1.524 miliwn ar gyfer y cyfnod (2016-17: £1.409 miliwn). Y gweddill yn y gronfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yw £271,000 (2016-17: £215,000).

Yn ystod 2017-18 newidiodd staff y Comisiynydd i 22.36 (cyfwerth amser llawn) o 20.7 (cyfwerth amser llawn) aelod o staff, sy'n cynnwys gweithwyr llawn amser a rhan amser.



## Cyfrifon 2017-18

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

#### Dysgu a Datblygu

Mae'r Comisiynydd yn parhau i fuddsoddi mewn darparu cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer y staff.

Trwy Broses Arfarnu'r Comisiynydd anogir yr holl staff i nodi anghenion datblygu personol a chofnodi'r anghenion hynny ar Gynllun Datblygu Personol. Proses yw'r Polisi Arfarnu sy'n cysylltu perfformiad a datblygiad unigolion ag amcanion y sefydliad. Prif ddiben y broses honno yw gwella perfformiad pob gweithiwr a'u cyfraniad at gyflawni amcanion trwy roi iddynt y sgiliau a'r amgylchedd priodol er mwyn eu galluogi i wneud eu gwaith hyd eithaf eu gallu.

Mae'r Swyddfa hefyd yn darparu sesiynau datblygu staff rheolaidd i'r holl weithwyr ym mhob blwyddyn ariannol. Mae'r rhain yn cyflawni ei rhwymedigaethau o ran dysgu a datblygu naill ai yn unol â statud, neu lle bernir bod hynny'n hanfodol i'r holl grwpiau o staff, gan gwmpasu pynciau, er enghraifft, megis Amddiffyn a Diogelu Plant.

#### Ymgynghori â'r Staff ac Ymgysylltiad

Mae'r Comisiynydd yn ymgynghori'n rheolaidd â'i staff ynghylch newidiadau sylweddol i'r sefydliad a blaenoriaethau datblygu trefniadol. Cyflawnir hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys cyfarfodydd staff wythnosol (Fika), arolygon rheolaidd a diwrnodau datblygu i'r fîm cyfan. Yn ogystal, darparwyd cyfleoedd i'r holl staff, yn unigol ac mewn grwpiau, gyfrannu at y cynllunio strategol.

#### Absenoldeb Staff

Yn ystod 2017-18, cyfradd absenoldeb salwch swyddfa'r Comisiynydd oedd 3.8 y cant (2016-17: 2.8 y cant), wedi'i seilio ar ganran o gyfanswm y diwrnodau gwaith oedd ar gael.

#### Cynaliadwyedd

Mae'r Comisiynydd yn ymroddedig i'r egwyddorion a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sef:

- **Cymru ffyniannus;**
- **Cymru gydnerth;**
- **Cymru iachach;**
- **Cymru fwy cyfartal;**
- **Cymru o gymunedau cydlynus;**
- **Cymru sydd â diwylliant bywiog a iaith Gymraeg lewyrchus; a**
- **Chymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang.**

Mae'r Comisiynydd yn ymroddedig i leiafu effaith ei Swyddfa ar yr amgylchedd lle bynnag y bo modd, ac mae'n ceisio lleihau'r effaith honno trwy gymryd y camau canlynol:

- **Deunydd ysgrifennu ac adnoddau swyddfa: anogir y staff i gyfyngu cymaint â phosib ar eu defnydd o nwyddau traul y swyddfa. Cyfyngir gymaint â phosib ar argraffu a llungopio;**
- **Teithio: lle bo hynny'n ymarferol, cynhelir cyfarfodydd trwy ddefnyddio fideo-gynadledda. Mae dros 90 y cant o deithiau swyddogol y Comisiynydd yn digwydd ar drên neu ar feic, ac mae hi'n annog ei staff i wneud yr un peth;**
- **Ynni: mae'r Comisiynydd yn annog pob aelod o staff i fod yn ymwybodol o ynni, ac i ystyried ffyrdd o leihau eu hól-troed carbon; a**
- **Gwaredu Gwastraff: mae'r Comisiynydd yn ymroddedig i ailgylchu pob gwastraff, yn amodol ar gyfyngiadau allanol.**

Mae'r Comisiynydd wedi cael ei chynorthwyo hefyd gan Ysgol Gynradd Glynollen i helpu i wella effeithlonrwydd ynni er mwyn lleihau'r ynni a ddefnyddir; a lleihau ôl-troed carbon y swyddfa.

## Cyfrifon 2017-18

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

#### Cyfle Cyfartal

Ystyrir pob cais am gyflogaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru ar y sail y dylai pob ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal am gyflogaeth a dyrchafiad ar sail eu gallu, eu cymwysterau a'u haddasrwydd ar gyfer y gwaith. Ni ddylai unrhyw ymgeisydd am swydd na gweithiwr dderbyn triniaeth lai ffafriol ar sail hil, lliw, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, statws priodasol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teuluol/domestig na phatrymau gwaith, ac ni ddylai unrhyw unigolyn gael ei roi dan anfantais chwaith gan amodau na gofynion na ellir eu cyfiawnhau.

#### Archwilwyr

Caiiff cyfrifon Comisiynydd Plant Cymru eu harchwilio a'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 9 o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Mae Deloitte LLP yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol ar gyfer y Comisiynydd.

Yn ystod y cyfnod ni thalwyd unrhyw gdnabyddiaeth i'r archwilwyr am waith heblaw archwilio.

#### Datgelu Gwybodaeth i'r Archwilwyr

Mor bell ag y mae Swyddfa'r Comisiynydd yn ymwybodol, nid oes gwybodaeth archwilio nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni; ac mae'r Swyddfa wedi cymryd pob cam y dylasai ei gymryd i'w gwneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

#### Digwyddiadau Cysylltiedig â Data Personol

O fewn y flwyddyn ariannol, nid adroddwyd am ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol. Mae'r Comisiynydd yn cynnal polisi a gweithdrefnau diogelu gwybodaeth sy'n sicrhau y cyfyngir gymaint â phosib ar ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol.

#### Digwyddiadau ers Diwedd y Flwyddyn Ariannol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol sy'n effeithio ar ddealltwriaeth o'r datganiadau ariannol hyn.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Atodlen 2 o'r Ddeddf Safonau Gofal, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i Gomisiynydd Plant Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf yr hyn a nodwyd yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon ac ar y sail honno. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt ddarparu darlun gwir a theg o sefyllfa fusnes Comisiynydd Plant Cymru, yr incwm a'r gwariant, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifoedd arian y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn bod y Swyddog Cyfrifyddu yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn arbennig â'r canlynol:

- **glynu at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cyfrifeg a datgelu, a defnyddio polisiau cyfrifeg addas yn gyson;**
- **dod i benderfyniadau a llunio amcangyfrifon ar sail resymol;**
- **datgan a yw'r safonau cyfrifo perthnasol, fel y'u cyflwynir yn yr FReM, wedi cael eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw achosion pwysig yn y cyfrifon lle na ddilynwyd y safonau hynny; a**
- **pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.**

Y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer ei swyddfa yn sgîl paragraff 10 o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000. Cyflwynir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Comisiynydd Plant Cymru, yn y Memorandwm ar gyfer Swyddogion Cyfrifyddu a luniwyd gan Drysorlys EM.

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

---

**Mae'r Datganiad hwn gan Gomisiynydd Plant Cymru yn nodi ar ba sail y sefydlwyd y corff, sut mae'n cael ei lywodraethu a'i reoli, a sut y mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud.**

### Rôl Comisiynydd Plant Cymru

---

Sefydlwyd Comisiynydd Plant Cymru gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, ac mae'n sefydliad hawliau dynol annibynnol. Mae cylch gorchwyl y Comisiynydd wedi'i nodi yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, a newidiodd Ddeddf Safonau Gofal 2000. Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant. Rhaid mai dyma amcan gor-redol y Comisiynydd pan fydd hi'n cyflawni ei swyddogaethau.

Mae crynodeb o bwerau'r Comisiynydd i'w weld [yma](#).

### Deilydd cyfredol y Swydd

---

Cychwynnodd yr Athro Sally Holland yn ei swydd fel Comisiynydd ar 20fed Ebrill 2015, ar ôl cael ei phenodi gan Brif Weinidog Cymru, am gyfnod o saith mlynedd.

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

## Strwythur Llywodraethu

Isod ceir disgrifiad o'n strwythur llywodraethu. Mae rhagor o fanylion ynghylch aelodaeth pob grŵp, presenoldeb a'u cylchoedd gorchwyl ar gael [yma](#).

### Sally Holland – Comisiynydd Plant Cymru

- Corfforaeth Un Person
- Swyddog Cyfrifyddu

### Y Tîm Rheoli (TRh)

**Yn cynnwys: Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad, Pennaeth Ymarfer, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Pennaeth Adnoddau Dynol. Dan gadeiryddiaeth y Comisiynydd.**

Prif ddiben y TRh yw rhoi cefnogaeth a chynghor i'r Comisiynydd ynghylch cyfeiriad strategol y sefydliad, gan gynnwys cyfrannu at ddatblygu nodau strategol a chynlluniau gwaith blynyddol. Y TRh sydd hefyd yn gyfrifol am arweinyddiaeth strategol y sefydliad, a rheoli gwaith y swyddfa o ddydd i ddydd yn unol â gwerthoedd y sefydliad.

### Panel Ymgynghorol y Comisiynydd a'r Panel Pobl Ifanc

**Cadeirydd: Margaret Provis, gyda'r aelodau'n cynnwys 10-12 o oedolion a 2-4 o bobl ifanc**

**Panel Pobl Ifanc dan gadeiryddiaeth Malin (yn y gogledd) ac Eve (yn y de), sy'n cynnwys 15 o aelodau 11-18 oed**

Darparu cynghor, cefnogaeth, craffu a her annibynnol i'r Comisiynydd a'i staff, er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol y Comisiynydd Plant yn cael eu cyflawni'n effeithiol, a gweithredu fel ffrind beirniadol a seinfwrdd ar gyfer y Comisiynydd a'i staff ynghylch polisiau a chynigion, gan lywio polisi a blaenoriaethau strategol.

### Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

**Cadeirydd: Jocelyn Davies**  
**Yn cynnwys: 4-6 o aelodau**

Cynghori'r Comisiynydd ynghylch prosesau strategol risg, rheolaeth a llywodraethu, polisiau cyfrifyddu, y cyfrifon, a chynlluniau gweithgaredd a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol.

## Fframwaith Llywodraethu

---

**Gan fy mod mewn swydd gyhoeddus sy'n derbyn arian cyhoeddus, rwy'n ymroddedig i weithredu systemau trylwyr a thryloyw o ran atebolrwydd a gwneud penderfyniadau.**

Mae fy fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau a'r gwerthoedd sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r sefydliad. Mae'r trefniadau hyn wedi'u gwreiddio'n gadarn yn 'The Good Governance for Public Services', y cyfeiriodd Swyddfa Archwilio Cymru ato fel model arfer gorau, a'r 'International Framework: Good Governance in the Public Sector'. Mae hefyd yn tynnu ar elfennau o'r 'UK Corporate Governance Code'. Mae'n adeiladu ar Egwyddorion Nolan ar gyfer ymddygiad unigolion mewn bywyd cyhoeddus trwy gyflwyno chwe egwyddor allweddol llywodraethu da mewn cyrff gwasanaeth cyhoeddus.

Isod ceir manylion ynghylch i ba raddau mae'r sefydliad yn llwyddo i gyrraedd y safonau hyn, ac eglurir y rhesymau dros addasu'r egwyddorion i gydweddu â'r sefydliad. Yn unol â safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae llywodraethu corfforaethol wedi bod yn destun archwilio mewnol gan ein hymgynghorwyr, Deloitte. Maent wedi cynnig sicrwydd sylweddol ynghylch ein llywodraethu corfforol yn 2017-18.





### Bod yn eglur ynghylch diben a chanlyniadau'r sefydliad

Mae bod â diben sefydliadol pendant a set o amcanion clir yn un o nodweddion llywodraethu da. Ein dull strategol o gynllunio yw'r dull systemig o bennu ein nodau. Mae'n galluogi'r swyddfa i gadw at ei chylch gorchwyl deddfwriaethol a chyflawni'r weledigaeth a'r amcanion a gyflwynwyd yn fy nghynllun tair blynedd: 'Cynllun ar gyfer Pob Plentyn a Pherson Ifanc 2016-2019'.

Mae'r prosesau cynllunio strategol a blynyddol yn darparu cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer holl swyddogaethau'r swyddfa; ac yn helpu i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau sefydliadol er mwyn mwyafu ein heffaith ar ran plant a phobl ifanc yng Nghymru.

### Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwireddu atebolrwydd

Yn 2015-16 fe gynhalion ni ein hymgyngoriad mwyaf erioed â phlant a phobl ifanc. Bu dros 7000 o blant, pobl ifanc ac oedolion yn rhan o hyn. Cyfrannodd eu barn a'u safbwyntiau hwy at lunio'r 'Cynllun ar gyfer Pob Plentyn a Pherson Ifanc 2016-2019', sy'n amlinellu fy amcanion strategol ar gyfer y sefydliad.

Fy rôl i yw bod yn llais annibynnol i holl blant a phobl ifanc Cymru. I fod yn bencampwr effeithiol i blant a phobl ifanc, mae angen i mi glywed yn uniongyrchol ganddyn nhw beth dylwn i fod yn codi llais yn ei gylch. Mae strategaeth cyfranogiad y sefydliad yn sicrhau fy mod i'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ledled Cymru ac yn codi llais ar eu rhan, beth bynnag yw eu cefndir neu eu cred. Ar lefel strategol rwyf wedi sefydlu panel ymgynghorol pobl ifanc sy'n rhoi cyngor i mi ac yn craffu ar fy ngwaith.

Fy uchelgais yw Cymru lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod. Er mwyn sicrhau bod yr uchelgais hon yn cael ei gwireddu, mae fy nhim yn targedu materion hawliau ar 3 lefel:

- 1. Darparu sylfaen ar gyfer polisiau a chyfreithiau hawliau plant: Bydda i'n gweithio i ddylanwadu ar y rhain a'u newid fel eu bod yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi hawliau plant yn y canol.**
- 2. Gweithredu'r polisiau a'r cyfreithiau hyn yn effeithiol ledled Cymru ac ar gyfer pob grŵp o blant: Bydda i'n monitro sut mae hawliau plant yn cael eu cyflawni, yn hybu arfer gorau, ac yn herio'r rhai sydd ddim yn parchu hawliau.**
- 3. Profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc: Bydda i'n gwrando ar blant a phobl ifanc ac yn ceisio sicrhau newidiadau go iawn yn ansawdd eu bywyd pob dydd a chyfleoedd cyfartal i gyflawni eu potensial.**

Mae'r holl waith yma'n cael ei gefnogi gan dair strategaeth fewnol gynhwysfawr ar gyfer materion cyhoeddus, cysylltiadau allanol a gwaith cyfranogiad gyda phlant a phobl ifanc.

## Fframwaith Llywodraethu

### Capasiti a gallu i fod yn sefydliad effeithiol

Rydyn ni'n cydnabod bod llywodraethu'n cael ei gryfhau gan gyfranogiad pobl sydd â llawer o wahanol fathau o wybodaeth a phrofiad. Rydyn ni'n hyderus, yn sgîl ein Fframwaith Datblygu Perfformiad newydd, fod gan bob aelod o staff y sgiliau, yr wybodaeth a'r capasiti angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Mae pob aelod newydd o staff yn dilyn proses sefydlu, ac mae gennym raglen dreigl dysgu a datblygu ar gyfer yr holl staff.

Mae ein harolwg staff, bob dwy flynedd, hefyd yn helpu'r sefydliad i fesur profiad y gweithwyr, ac yn cyfrannu at y cylch parhaus o welliannau yng nghyswllt arferion pobl.

Ym mis Mawrth 2017, cwblheais adolygiad o'r ailstrwythuro yn 2016. Roedd yn adlewyrchu'r ffaith mai barn mwyafrif llethol aelodau'r staff oedd bod yr ailstrwythuro wedi arwain at newidiadau cadarnhaol ar gyfer y sefydliad yn gyffredinol.

### Hybu Gwerthoedd ar draws y Sefydliad ac Arddangos Gwerthoedd Llywodraethu Da trwy Gynnal Safonau Uchel o ran Ymddygiad ac Ymarfer

Mae ein gwerthoedd a'n hegwyddorion cyflawni, a ddatblygwyd gyda'r staff yn ystod 2015, yn sylfaen ar gyfer ein holl bolisiâu gweithredol a staff, yn ogystal â'n strategaeth tair blynedd. Maen nhw'n cael eu rhannu gydag aelodau newydd o staff yn ystod y cyfnod sefydlu, a'u cyfathrebu yn allanol ar ein gwefan [www.complantcymru.org.uk](http://www.complantcymru.org.uk) ac yn ein cyhoeddiadau strategol, gan gynnwys ein strategaeth tair blynedd.

Rydym yn ymroddedig i alluogi a grymuso gweithwyr i gyrraedd nodau unigol, tîm a strategol, ac yn barnu bod y broses arfarnu flynyddol, pennu amcanion a phrosesau cynllunio datblygiad personol yn rhan hanfodol o gyflawni hynny.

Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddwyd ein Fframwaith Datblygu Perfformiad newydd. Datblygwyd y Fframwaith hwn, a ddatblygwyd gyda staff, i'n helpu i feithrin diwylliant sy'n gosod gwerth ar berfformiad lefel uchel ac yn cryfhau ac yn gwella sut rydyn ni'n cyflawni ein rolau.

Fel sefydliad, rydyn ni'n ymroddedig i fuddsoddi amser ac adnoddau i ddatblygu pawb sy'n gweithio yma a datblygu systemau a strwythurau clir i gynnal ein ffordd o weithio, a hynny am y rhesymau canlynol:

- **Rydyn ni'n gwybod bod sefydlu dealltwriaeth a rennir ynghylch yr hyn sydd i'w gyflawni, a bod pawb yn deall eu rôl oddi mewn i hynny, yn galluogi pobl i gyflawni ar ran y sefydliad a thros blant a phobl ifanc yng Nghymru. Byddwn ni'n cyflawni hyn trwy ddatblygu ein nodau strategol tymor hwy a'n cynlluniau gwaith blynyddol.**
- **Rydyn ni'n gwybod bod pobl yn gwneud eu cyfraniad gorau ac yn darparu gwaith o'r ansawdd uchaf pan fydd ganddyn nhw waith clir, ystyrlon a heriol i'w wneud. Byddwn ni'n cyflawni hyn trwy bennu amcanion gwaith unigol ar gyfer y flwyddyn.**
- **Rydyn ni'n gwybod bod ansawdd y sgysiau rhwng rheolwyr llinell ac unigolion yn cael effaith uniongyrchol ar ein llwyddiant fel sefydliad. Rydyn ni'n gobeithio cyflawni hyn trwy strwythur trafodaethau goruchwyliaeth rheolaidd.**
- **Rydyn ni hefyd yn gwybod bod cael amser i gynllunio gwaith ac adfyfrio ar y pethau fu'n llwyddiannus a'r pethau allai fod yn wahanol yn y dyfodol yn galluogi unigolion i dyfu a gwella yn eu hymarfer. Byddwn ni'n cyflawni hyn trwy ein hymarfer arfarnu a datblygiad personol a'n dull o reoli prosiectau.**

## Fframwaith Llywodraethu

### Gwneud Penderfyniadau Gwybodus a Thyloyw sy'n Destun Craffu Effeithiol a Rheoli Risg

Fel corfforaeth un person, fi sydd â'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau yn y swyddfa. Fodd bynnag, rwyf wedi dirprwyo agweddau ar y penderfyniadau gweithredol i'r Tîm Rheoli. Mae rolau a chyfrifoldebau'r holl staff wedi'u diffinio'n glir yn eu disgrifiadau swydd ac o fewn y Fframwaith Llywodraethu. Mae gan bob gweithiwr amodau cyflogaeth a disgrifiadau swydd clir, sy'n nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae gofyn bod pob aelod o staff yn gweithio oddi mewn i'n dull rheoli prosiectau, sy'n sicrhau bod ein hallbynnau a'n canlyniadau arfaethedig ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael eu diffinio'n glir a'u cyflawni. Mae cynllun rheoli prosiectau cynhwysfawr yn cael ei ddatblygu ar gyfer pob prosiect, yn unol â'n Polisi Cynllunio Strategol diwygiedig, sydd wedi'i gadw yn ganolog fel bod yr holl staff yn gallu cael mynediad iddo. Mae manylion ein holl waith prosiectau i'w gweld yma [www.complantcymru.org.uk](http://www.complantcymru.org.uk). I gefnogi'r ffordd yma o weithio, mae pob aelod o'r tîm wedi cael mynediad i gwrs hyfforddi rheoli prosiectau a gymeradwywyd gan Gymdeithas Rheoli Prosiectau, ac mae cyfran uchel o'r aelodau staff ar bob lefel o fewn y sefydliad wedi sicrhau cymhwyster rheoli prosiectau.

Mae trafodaethau a phenderfyniadau'r Tîm Rheoli a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael eu hysgrifennu i lawr a'u nodi yn y cofnodion, sy'n cael eu rhannu gyda'r holl staff yn fisol ac yn chwarterol yn eu tro. Rhennir gwybodaeth gritigol neu sensitif o ran amser gyda'r tîm staff trwy e-bost neu yn ein cyfarfodydd 'Fika' wythnosol, sy'n cynnwys pob aelod o staff. Mae canlyniadau trafodaethau gyda'r paneli ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg hefyd yn cael eu rhannu gyda'r staff, ac mae aelodau o'r tîm yn chwarae rhan yn y cyfarfodydd hynny fel sy'n briodol.

Fel rhan o'n cynllun treigl i adolygu gweithrediad mewnol a pholisïau Adnoddau Dynol, rydyn ni wedi diweddarau ein Polisi Rheoli Risg eleni. Mae'r ddogfen hon yn diffinio'r fframwaith ar gyfer rheoli risg oddi mewn i'r sefydliad. Mae wedi ei seilio ar ganllawiau arfer da gan y Sefydliad Rheoli Risg, y safonau rhyngwladol ar gyfer rheoli risg a amlinellir yn ISO 31000 a'r 'Llyfr Oren: Rheoli Risg - Egwyddorion a Chysyniadau', a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Mae'r system reoli fewnol yng nghyswllt risg wedi'i seilio ar broses barhaus a luniwyd i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau o safbwynt cyflawni amcanion strategol y sefydliad a chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau. Mae hynny'n cynnwys gwerthuso tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hynny ac effaith eu gwireddu ar y sefydliad ac ar blant a phobl ifanc, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddiwasttraff. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu bod pob aelod o staff yn derbyn bod risgiau'n anochel. Mae hefyd yn golygu, yn ymarferol, y dylai pob aelod o staff fod yn rhagweithiol wrth ganfod a rheoli risgiau, er mwyn sicrhau bod ein cynllun strategol tair blynedd yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

Gallwn reoli risg ar dair lefel:

- **Ein cofrestr risgiau gorfforaethol, sy'n nodi risgiau cysylltiedig â'n hamcanion strategol**
- **Mae cofrestrau risg ein prosiectau a'r logiau materion, ar gyfer pob prosiect sy'n rhan o'n cynllun gwaith blynyddol, yn cael eu rheoli gan ein rheolwyr prosiectau, sy'n adrodd i'r Tîm Rheoli bob mis.**
- **Mae ein cofrestrau risg thematig yn eu lle ar gyfer meysydd penodol o'n gwaith craidd, e.e. seiber-ddiogelwch. Mae'r rhain yn cael eu cynnal gan swyddogion sy'n gyfrifol am y maes gwaith hwnnw.**

Mae'r rheolaeth ofalus ar risg wedi bod yn destun Archwilio Mewnol, yn unol â safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Daeth Deloitte, ein harchwilwyr mewnol, i'r casgliad bod dosbarthiad sicrwydd rheoli risg yn 2017-18 yn 'sicrwydd sylweddol'. Bu ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg hefyd yn bwrw golwg dros effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg.

Mae rheolaeth ariannol wedi'i seilio ar fframwaith o wybodaeth gyson i reolwyr a chyfres o weithdrefnau ariannol clir, sydd i'w gweld yn llawlyfr Cyllid y sefydliad. Mae'r broses o adolygu gwybodaeth i reolwyr yn cynnwys monitro ac adrodd rheolaidd ar y gyllideb. Bob mis mae'r Tîm Rheoli yn cael eu hysbysu ynghylch sut mae'r gwariant yn cyfateb i'r gyllideb, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael yr wybodaeth honno bob chwarter. Mae ein dull gweithredu seiliedig ar reoli prosiectau hefyd yn


## Fframwaith Llywodraethu

gofyn bod pob rheolwr prosiect yn datblygu cyllideb fanwl, a rhoddir adroddiad misol ar y rheiny yn y Tîm Rheoli. Mae ein harchwilwyr mewnol wedi darparu sicrwydd sylweddol ynghylch ein rheolaeth ar y gyllideb a'n hasedau sefydlog, a sicrwydd cymedrol ar gyfer ein prosesau bancio a rheoli arian parod.

Rwyf hefyd yn cymryd materion sy'n ymwneud â thwyll a chamweinyddu o ddifri calon. Mae gennym bolisiâu yn eu lle ar ddatgelu camarfer, gwrthwynebu twyll, cōd ymddygiad a chwynion - mae pob un ohonynt wedi cael eu diwygio eleni, ac maent yn rhan o amserlen adolygu dreigl.

### Cyflawni'n effeithiol mewn swyddogaethau a rolau a ddiffiniwyd yn glir

Mae'r sefydliad yn cynnwys tair swyddogaeth ryng-gysylltiedig sy'n cydweithio ar ffurf fîm cyfan. Rydym yn cyflawni rhaglen waith sy'n gwbl ryngddibynnol. Mae'r swyddogion yn cyflawni rolau arbenigol yn ôl eu harbenigedd, ond maent yn dibynnu ar rannau eraill o'r sefydliad i gyflawni'r rhaglen waith.



Mae gan yr holl bwyllgorau a phaneli ymgynghorol sy'n gysylltiedig â'r Comisiynydd Gylch Gorchwyl, sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn, ac yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan [www.complantcymru.org.uk](http://www.complantcymru.org.uk).

Fel yr amlinellwyd yn ein Polisi a'n Proses Cynllunio Strategol, mae'r Tîm Rheoli yn adolygu cynnydd yn erbyn ein holl brosiectau sy'n rhan o'r cynllun gwaith blynyddol, bob mis. Bob blwyddyn, trwy'r Adroddiad Blynyddol, byddaf yn rhoi sylw i'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'n hamcanion strategol.

Mae ein fframwaith gwerthuso yn galluogi'r sefydliad i ddangos bod ein gwaith craidd a'n prosesau mewnol yn cael eu cyflawni'n effeithiol, ac mae'n canolbwyntio ar bedair elfen: Pobl y Comisiynydd, Prosesau sefydliadol, Cynaliadwyedd ariannol a gwerth am arian a Phlant a Phobl Ifanc. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu trafod bob mis yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli a phob chwarter yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Mae dau banel ymgynghorol wedi bod ar waith ers dwy flynedd. Mae eu cylch gorchwyl yn cynnwys gofyniad penodol i gynnig cyngor pwyllog i mi a'm staff, yn ôl y galw, er mwyn gwella ein heffeithiolrwydd a chyflawni fy ngofynion gwaith.

## Adolygu Effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system lywodraethu, ac yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus yng Nghymru, a ydwyf i'n cydymffurfio â Chôd Llywodraethu Corfforaethol Swyddfa'r Cabinet. Mae fy adolygiad o'r system honno yn cael ei lywio gan waith yr archwilywyr mewnol a'r Tîm Rheoli sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol a sylwadau'r archwilywyr allanol yn eu llythyr at y rheolwyr ac adroddiadau eraill. Rwyf hefyd wedi derbyn cyngor ynghylch effeithiolrwydd y system lywodraethu trwy waith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Rwyf wedi ymrwmo i sicrhau gwelliant parhaus yn y systemau mewnol ac i ymdrin ag unrhyw wendidau wrth iddynt godi.

Roedd y broses a ddefnyddiwyd wrth gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu fel a ganlyn:

- **bu'r Tîm Rheoli wrthi ar y cyd yn trafod ac yn adolygu gweithrediad y mesurau rheoli ariannol mewnol ac ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd**
- **cwblhaodd archwilio mewnol adolygiad o effeithiolrwydd mesurau rheoli mewnol allweddol; a**
- **chyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystod y flwyddyn a chynghori ar oblygiadau sicrwydd a roddwyd ynghylch llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a mesurau rheoli, digonoldeb y trefniadau archwilio mewnol ac allanol ac ymatebion rheolwyr i'r argymhellion archwilio**

Deloitte fu'n darparu'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer fy swyddfa yn ystod y cyfnod. Maen nhw'n gweithredu'n unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Maent yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd fy system rheolaeth fewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwelliant.

Ar sail fy adolygiad effeithiolrwydd, nid oes materion rheolaeth fewnol arwyddocaol yn codi a lle bo hynny'n berthnasol, rwy'n cydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellwyd yn y Côd Llywodraethu Corfforaethol.

## Rhaglen Wella ar gyfer Materion Llywodraethu

Gyda'm Tîm Rheoli byddaf yn parhau i fonitro'r amgylchedd rheoli mewnol a sicrhau bod y fframwaith llywodraethu yn parhau i ddiwallu anghenion y sefydliad.

Fel Swyddog Cyfrifyddu mae dyletswydd gyfreithiol arnaf fi i reoli'n briodol yr adnoddau a ddarparwyd ar fy nghyfer er mwyn i'm swyddfa gyflawni ei rhwymedigaethau statudol. Rhaid i mi sicrhau hefyd fod trefniadau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod fy swyddfa'n cael ei rheoli a'i llywodraethu'n briodol. Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn wedi darparu disgrifiad manwl o'r trefniadau hyn.

## Ardystiad gan y Swyddog Cyfrifyddu

Rwyf wedi fy sicrhau bod y system lywodraethu a fu'n weithredol yn fy swyddfa yn ystod 2017-18 wedi bod yn un gadarn. Ar sail yr adolygiad o effeithiolrwydd y systemau rheoli mewnol, rwyf wedi fy sicrhau bod y trefniadau presennol yn diwallu anghenion y swyddfa ac yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag arfer gorau.

### Yr Athro Sally Holland,

Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifyddu  
19 Gorffennaf 2018



## Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff

### Taliadau i Aelodau Uwch o'r Tim Rheoli

Gweinidogion Cymru sy'n pennu'r taliad i Gomisiynydd Plant Cymru, yn unol ag Atodlen 2 paragraff 3 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Yn achos aelodau eraill y Tim Rheoli, pennwyd y taliadau cydnabyddiaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru, ar sail cyfarwyddyd gan arbenigwyr recriwtio yn y gwasanaeth sifil.

Mae'r adrannau canlynol, a fu'n destun archwilio, yn darparu manylion am daliadau cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn y swyddogion uchaf sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig yn swyddfa'r Comisiynydd:

	Cyflog £000*		Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)*		Buddion Pensiwn (i'r £1000 agosaf)*		Cyfanswm £000*	
	2017-18	2016-17	2017-18	2016-17	2017-18	2016-17	2017-18	2016-17
Yr Athro Sally Holland – Comisiynydd Plant Cymru	90-95	85-90	-	-	36,000	35,000	126-131	120-125
Sara Jermin – Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad**	50-55	35-40	-	-	-	-	50-55	35-40
Andy Wallsgrove – Pennaeth Ymarfer	55-60	55-60	-	-	19,000	17,000	74-79	72-77
Eleri Thomas – Prif Swyddog Gweithredol a Dirprwy Gomisiynydd***	-	5-10	-	-	-	2,000	-	7-12
Tony Evans – Pennaeth Cyllid***	-	45-50	-	-	-	19,000	-	64-69

\* Mae'r wybodaeth hon yn destun archwiliad.

\*\* Mae Sara Jermin yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Partneriaeth, a thalwyd £4,688 o gyfraniadau cyflogwr yn ystod y cyfnod.

\*\*\* Fe wnaeth Eleri Thomas adael y sefydliad ar 31 Mai 2016 ac ailraddiwyd swydd Tony Evans o 1 Awst 2016.

## Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff

### Taliadau Canolrif

	2017-18	2016-17 Ailddatgan*
Band taliadau'r unigolyn y telir y symiau mwyaf iddo/iddi (£'000)	90-95	85-90
Cyfanswm y Canolrif	30,246	30,538
Cymhareb	1:3.02	1:3.19

\* Mae'r gymhareb flaenorol wedi'i hailddatgan i adlewyrchu newid yn y dull cyfrif yn 2017-18.

Mae'n ofynnol fy mod yn datgelu'r berthynas rhwng y taliad a wnaed i'r unigolyn a dderbyniodd y cyflog uchaf a chanolrif taliadau'r gweithwyr. Band taliadau'r unigolyn a dderbyniodd y taliad uchaf yn 2017-18 oedd £90-£95,000 (2016-17: £85-£90,000). Rwyf wedi defnyddio pwynt canol yr ystod hon i gymharu'r symiau hyn, a chael cymhareb o 3.06 gwaith (2016-17: 2.87) taliad canolrif y gweithwyr. Mae cyfanswm y taliadau yn cynnwys y cyflog a'r buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau cyflogwr i bensiwn na gwerth trosglwyddo ariannol cyfatebol pensiynau.

### Iawndal a dalwyd, Dyfarniadau Sylweddol i Uwch Reolwyr Blaenorol

Yn ystod y cyfnod 2017-18 ni wnaed taliadau iawndal na dyfarniadau sylweddol i uwch-reolwyr blaenorol.

## Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff

### Buddion Pensiwn – Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

	Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn*	CETV(i) ar 31.3.18*	CETV(i) ar 31.3.17*	Cynnydd/ (gostyngiad) gwirioneddol yn CETV*
	£000	£000	£000	£000
Yr Athro Sally Holland – Comisiynydd Plant Cymru	0-2.5	72	46	18
Sara Jermin, Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad	Nodyn 1	Nodyn 1	Nodyn 1	Nodyn 1
Andy Wallsgrove – Pennaeth Ymarfer	0-2.5	556	515	10
Eleri Thomas – Prif Swyddog Gweithredol a Dirprwy Gomisiynydd**	-	-	114	-
Tony Evans – Pennaeth Cyllid**	-	-	371	-

Nodyn 1: Mae Sara Jermin yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Partneriaeth, a thalwyd £4,688 o gyfraniadau cyflogwr yn ystod y cyfnod.

\* Mae'r wybodaeth hon yn destun archwiliad.

\*\* Fe wnaeth Eleri Thomas adael y sefydliad ar 31 Mai 2016 ac ailraddiwyd swydd Tony Evans o 1 Awst 2016.

## Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff

### Y Cynllun Pensiwn

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod yn rhan o un o bedwar cynllun buddion diffiniedig; naill ai cynllun 'cyflog terfynol' (**classic**, **premium** neu **classic plus**); neu gynllun 'gyrfa gyfan' (nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, a thelir am gost y buddion ag arian sy'n destun pleidlais gan y Senedd bob blwyddyn; ac er mai cynlluniau buddion diffiniedig yw'r rhain, nid oes modd datgelu swm eu hasedau a'u hatebolrwydd. Mae'r pensiynau sy'n daladwy o dan **classic**, **premium**, **classic plus** a **nuvos** yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion priodol diffiniedig neu bensiwn rhanddeiliad 'prynu arian' o ansawdd da, gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Pennir cyfraniadau'r gweithwyr ar ganran o'r enillion pensiynadwy ar gyfer **classic**, **premium**, **classic plus** a **nuvos**. Mae'r buddion **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Ar ben hynny, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn yn daladwy adeg ymddeol. Yn achos y **premium**, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig. Cyfuniad o'r ddau yw **classic plus** yn y bôn, gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel yn achos y **classic** a'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn achos y **premium**. Yn **nuvos** mae aelod yn crynhoi pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif yr aelod ar gyfer y pensiwn a enillwyd yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn ystod y flwyddyn honno o'r cynllun, a chaiff y pensiwn a gronwyd ei uwchraddio yn unol â'r Mynegai Prisiau Adwerthu (RPI). Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn **partneriaeth**. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewiswyd gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond lle bo'n dewis gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn gwneud taliadau cyfatebol i'r rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% arall o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn eu gwaith ac ymddeol oherwydd afiechyd).

>>>

## Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff

---

Y pensiwn cronol a ddyfynnwyd yw'r pensiwn y gall yr aelod ei hawlio wrth gyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd yn peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydyw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n h n. Oedran pensiwn yw 60 yn achos aelodau classic, premium a classic plus a 65 yn achos aelodau nuvos.

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan [www.civilservice-pensions.gov.uk](http://www.civilservice-pensions.gov.uk).

### (i) Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafol asesedig actiwari y buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw'r buddion a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn sy'n daladwy i briod amodol o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu'n berthnasol iddi yn unig. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Prif Wasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnir i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hun. Cyfrifir CETVs o fewn y canllawiau a'r fframwaith a ragnodwyd gan Sefydliad a Chyfadrann yr Actiwariaid ac nid ydynt yn rhoi sylw i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl i fuddion yn sgîl Treth Lwfans Oes y gall fod angen ei thalu pan dynnir buddion pensiwn.

### (ii) Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV y telir amdano i bob pwrpas gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd yn sgîl chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### Newidiadau i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

---

O 1af Ebrill 2015 daeth cynllun pensiwn newydd, o'r enw Alpha, yn weithredol. Mae'r cynllun Alpha yn disodli'r cynlluniau **classic**, **premium**, **classic plus** a **nuvos**. Trosglwyddodd mwyafrif y staff yn uniongyrchol i Alpha ar 1af Ebrill 2015.

## Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff

Gall gweithwyr ddewis agos cyfrif pensiwn partneriaeth, neu pensiwn rhanddeiliad gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £20,213 i un neu fwy o banel o ddarparwyr pensiwn rhanddeiliad penodedig (2016-17: £16,904). Mae cyfraniadau cyflogwr yn gysylltiedig ag oed, ac yn amrywio o 3 i 12.5 y cant o'r cyflog pensiynadwy (2016-17: 3 i 12.5 y cant). Mae cyflogwyr hefyd yn gwneud tâl sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr, hyd at 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy. Ar ben hynny, roedd cyfraniadau cyflogwr o £1,412 neu 0.8 y cant o'r cyflog pensiynadwy, yn daladwy i PCSPS i dalu am gost darparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn sgîl marwolaeth yn ystod gwasanaeth ac ymddeoliad gweithwyr oherwydd afiechyd (2016-17: £972 neu 0.8 y cant). Roedd cyfraniadau o £14,355 yn ddyledus i ddarparwyr pensiwn y bartneriaeth ar 31 Mawrth 2017, (2016-17: £10,481). Mae'r holl gyfraniadau hyn wedi'u cynnwys yn y costau Pensiwn.

b) Roedd nifer cyfartalog y personau cyfwerth amser llawn a gyflogwyd (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y cyfnod fel a ganlyn:

	2017-2018	2016-2017		
	Staff a Gyflogir yn Barhaol	Arall	Cyfanswm	Cyfanswm
Cyflogeion Uniongyrchol	22.36	-	22.36	20.7
<b>Cyfanswm</b>	<b>22.36</b>	<b>-</b>	<b>22.36</b>	<b>20.7</b>



## Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff

### Niferoedd Staff a Chostau Cysylltiedig

	2017-2018		2016-2017	
	Staff a Gyflogir yn Barhaol	Arall	Cyfanswm	Cyfanswm
Tâl a Chyflogau	858	-	858	852
Costau Nawdd Cymdeithasol	85	-	85	76
Costau Pensiwn	139	-	139	106
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>1,082</b>	<b>-</b>	<b>1,082</b>	<b>1,034</b>
Llai adenillion ar gyfer secondiadau allan	(78)	-	(78)	(44)
<b>Cyfanswm Costau Net</b>	<b>1,004</b>	<b>-</b>	<b>1,004</b>	<b>990</b>

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu i lawer o gyflogwyr, ond ni all y sefydliadau cyfranogol nodi eu cyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol. Cafodd y cynllun ei brisio ddiwethaf gan actiwari ar 31 Mawrth 2007, ond ers y dyddiad hwn, ataliwyd prisiau actiwaraid o'r Cynllun gan ddisgwyl gweithrediad argymhellion Adolygiad Hutton. Ceir manylion yng Nghyfrifon Adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Budd-dal Ymddeol Sifil – [www.civilservice-pensions.gov.uk](http://www.civilservice-pensions.gov.uk)

Ar gyfer 2017-18, roedd cyfraniadau cyflogwr o £103,669 yn daladwy i PCSPS (2016-17: £77,980) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod o 16.7 y cant i 24.3 y cant o'r tâl pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr, fel arfer bob pedair blynedd, yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu am gost y buddion a dalwyd i bensiynwyr cyfredol yn ystod y cyfnod hwn.

## Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff

---

### Paratoi Adroddiadau ar Gynlluniau Iawndal y Gwasanaeth Sifil ac Eraill - Pecynnau Ymadael:

---

Yn ystod y cyfnod 2017-18 ni wnaed taliadau iawndal na phecynnau ymadael i gyn-weithwyr.

Talwyd costau dileu swyddi a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a luniwyd o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Lle bo'r Comisiynydd wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir am y costau ychwanegol gan y Comisiynydd, ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir am gostau ymddeoliad oherwydd afiechyd gan y cynllun pensiwn, ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y tabl.

Codir costau llawn yr ymadawiad ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mlwyddyn gwneud y penderfyniad. Credydur y symiau sy'n daladwy mewn blynyddoedd i ddod i ddarpariaeth a ddefnyddir pan wneir y taliadau.

#### **Yr Athro Sally Holland,**

Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifyddu  
19 Gorffennaf 2018

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018 o dan baragraff 9(2) o atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000. Maent yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lifoedd Arian, Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiâu cyfrifo a gyflwynwyd ynddynt. Y fframwaith adroddiadau ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi, sy'n seiliedig ar Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRSs), fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion Comisiynydd Plant Cymru ar 31 Mawrth 2018 a'r gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- fe'u paratowyd yn briodol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a gyflwynwyd o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

### Sail ar gyfer y farn hon

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y Deyrnas Unedig (ISAs (UK)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen ar gyfer fy marn.

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol y mae ISAs (UK) yn gofyn fy mod yn adrodd i chi os bydd yr achosion canlynol yn codi:

Ile mae'r defnydd o sail busnes gweithredol wrth gyfrifyddu a pharatoi datganiadau ariannol yn amhriodol; neu

Ile nad yw'r Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu, yn y datganiadau ariannol, unrhyw ansicrwydd pwysig a nodwyd a allai arwain at amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sylfaen busnes gweithredol wrth gyfrifyddu, a hynny am gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad awdurdodi rhyddhau'r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwyswyd yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad innau fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, a heblaw am i'r graddau fel arall a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd yn eu cylch.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall i ganfod anghysondebau pwysig â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd, a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn ffeithiol anghywir ar sail yr wybodaeth a gefais wrth gynnal yr archwiliad, neu'n ffeithiol anghyson â'r wybodaeth honno. Os deuf yn ymwybodol o unrhyw gamdatganiadau ymddangosiadol pwysig neu anghysondebau, byddaf yn ystyried goblygiadau hynny o ran fy adroddiad.

### Barn ynghylch Rheoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr bwysig, defnyddiwyd y gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad ar ofynion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed fel rhan o'm harchwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol yn ei chylch yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol, ac fe'i paratowyd yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol yn ei chylch yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol, ac fe'i paratowyd yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt yn ôl eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd wrth gynnal yr archwiliad, nid wyf wedi nodi cam-ddatganiadau pwysig yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff, na chwaith yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol, lle byddaf yn adrodd i chi os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifo priodol;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- na ddatgelwyd gwybodaeth a bennwyd gan Weinidogion Cymru ynghylch taliadau cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau Comisiynydd Plant Cymru am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r cyfarwyddyd a wnaed yno gan Weinidogion Cymru, er mwyn cael ei fodloni bod y farn a roddir yn wir a theg, ac er mwyn sicrhau'r mesurau rheoli mewnol y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n barnu bod angen amdanynt, er mwyn medru paratoi datganiadau ariannol sydd heb gamddatganiadau pwysig, p'un ai twyll neu wall sy'n gyfrifol am hynny.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu yn ôl y galw faterion sy'n ymwneud â gweithrediad y busnes, a defnyddio'r sylfaen busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu, oni bai bod hynny'n cael ei farnu'n amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw caffael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd rhag cam-ddatganiadau pwysig, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad pwysig pan fydd yn codi. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall, a bernir eu bod yn bwysig os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol (FRC) [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad fel archwilydd.



# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

---

## Cyfrifoldebau o ran rheoleidd-dra

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Mae'n ofynnol fy mod yn casglu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
20 Gorffennaf 2018

24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

---

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Comisiynydd Plant Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

### Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

	Nodyn	2017-18 £000	2016-17 £000
<b>Gwariant</b>			
Costau gweinyddu:			
Costau staff	2.3	1,004	990
Dibrisiad	2.2	8	11
Costau Gweinyddu Eraill	2.1	512	408
		1,524	1,409
<b>Incwm</b>			
Incwm o Weithgareddau		-	-
Incwm Arall		-	-
		-	-
Gwariant Net		1,524	1,409
Llog taladwy/derbynadwy		-	-
Gwariant Net ar ôl llog		1,524	1,409
Gwariant Arall Cynhwysfawr			
Enillion/(colled) net o ran ailbriso Peiriannau a Chyfarpar		-	-
<b>Cyfanswm y Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018</b>		1,524	1,409

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus. Nid oes enillion na cholledion ac eithrio'r rhai yr adroddwyd amdanynt yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae'r Comisiynydd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 126 i 133 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2018

	Nodyn	£000	2018 £000	2017 £000	2017 £000
<b>Asedau anghyfredol:</b>					
Eiddo, peiriannau a chyfarpar	4		5		9
<b>Asedau cyfredol:</b>					
Elfennau masnach ac eraill derbyniadwy	5	66		60	
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	6	507	573	329	389
<b>Cyfanswm Asedau</b>			578		398
<b>Rhwymedigaethau cyfredol:</b>					
Elfennau masnach ac eraill taladwy	7	(147)	(147)	(92)	(92)
<b>Cyfanswm Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol</b>			431		306
<b>Rhwymedigaethau anghyfredol:</b>					
Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau	13	(160)	(160)	(91)	(91)
<b>Cyfanswm Asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau</b>			271		215
<b>Ecwiti Trethdalwyr:</b>					
Cronfa gyffredinol			271		215

### Yr Athro Sally Holland

Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifyddu  
19 Gorffennaf 2018

Mae'r nodiadau ar dudalennau 126 i 133 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

### Datganiad o Lifoedd Arian ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2018

		2017-2018	2016-2017
	Nodyn	£000	£000
<b>Lifoedd arian o weithgareddau gweithredu</b>			
Gwariant Net	2	1,524	1,409
Addasu ar gyfer trafodion heblaw rhai ag arian parod	2	(85)	(11)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn elfennau masnach ac eraill derbyniadwy	5	6	(71)
(Cynnydd)/gostyngiad mewn elfennau masnach taladwy	7	(55)	(17)
Defnydd o Ddarpariaethau	13	8	107
<b>Defnydd o Ddarpariaethau</b>		<b>1,398</b>	<b>1,417</b>
<b>Lifoedd arian o weithgareddau buddsoddi</b>			
Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar*	4	7	1
<b>All-lif arian net o weithgaredd buddsoddi</b>		<b>7</b>	<b>1</b>
<b>Lifoedd arian o weithgareddau ariannu</b>			
Cyllido net gan Lywodraeth Cymru		(1,583)	(1,543)
<b>Cyllido Net</b>		<b>(1,583)</b>	<b>(1,543)</b>
Cynnydd/(gostyngiad) net o ran arian a'r hyn sy'n cyfateb iddo	6	178	125
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod		329	204
<b>Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod</b>		<b>507</b>	<b>329</b>

\* Nid yw'r asedau ychwanegol a brynwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys yr asedau hynny a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, ond y talwyd amdanynt ag arian parod yn ystod y cyfnod ariannol dilynol.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 126 i 133 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

### Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2018

	Cronfa Gyffredinol	
	Nodyn	£000
<b>Gweddill ar 31 Mawrth 2016</b>		78
Cyllido gan Lywodraeth Cymru		1,543
Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		(1409)
Addasiad ar gyfer eitem nad aeth trwy'r gwariant net		3
<b>Gweddill ar 31 Mawrth 2017</b>		215
<b>Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 2017-2018</b>		1,583
Cyllido gan Lywodraeth Cymru		(3)
Addasiad ar gyfer eitem nad aeth trwy'r Gost Weithredol Net		
Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		(1,524)
<b>Gweddill ar 31 Mawrth 2018</b>		271

Mae'r nodiadau ar dudalennau 126 i 133 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. Datganiad o Bolisiau Cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyflwynwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r polisiau cyfrifo a geir yn yr FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IFRS), fel y'u mabwysiadwyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiynydd, at ddiben rhoi golwg wir a theg. Fe'u defnyddiwyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau y barnwyd eu bod yn bwysig yng nghyswllt y cyfrifon.

Rydym wedi ystyried effaith safonau a dehongliadau sydd wedi'u cyflwyno ond nad ydynt yn effeithiol hyd yma, ac sydd heb gael eu mabwysiadu'n gynnar gan y Comisiynydd. Ac eithrio Prydlesi IFRS16 y Safonau Rhyngwladol ar gyfer Adroddiadau Ariannol (IFRS), mae'r Comisiynydd yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r Safonau a'r dehongliadau hyn mewn cyfnodau yn y dyfodol yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Nid oes modd rhesymol ar hyn o bryd i amcangyfrif effaith IFRS16, sydd wedi'i gyflwyno gan Fwrdd Rhyngwladol Safonau Cyfrifo (IASB), ond sydd heb ei fabwysiadu eto gan yr Undeb Ewropeaidd, a bydd yn berthnasol o 2019-20.

Disgrifir y polisiau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru isod.

### 1.1 Confensiwn Cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol gan fod Comisiynydd Plant Cymru yn barnu nad oes pwys i effaith ailbriso asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r sefydliad trwy gyfeirio at eu cost gyfredol.

### 1.2 Ariannu

Yr unig ffynhonnell o gyllid ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru yw Llywodraeth Cymru trwy grant blynyddol, sy'n cael ei gredydu i'r gronfa gyffredinol pan dderbynnir y grant. Cydnabyddir y grant yn y cyfnod pryd y darperir y gwasanaethau.

### 1.3 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Mae'r Comisiynydd wedi priso'r holl asedau anghyfredol yn ôl eu cost hanesyddol, gan nad yw unrhyw addasiadau ailbriso, ym marn y Comisiynydd, yn bwysig. Y lefel isaf ar gyfer cyfalafiad asedau unigol yw £1,000. Grwpwyd niferoedd mawr o'r un math o asedau gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

### 1.4 Dibrisiad

Darperir dibrisiad ar gyfraddau y cyfrifir y byddant yn diddymu gwerth asedau nad ydynt yn gyfredol mewn rhandaliadau cyfartal dros y cyfnod a amcangyfrifir ar gyfer eu hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

- |                          |           |
|--------------------------|-----------|
| • Offer TGCh             | 3 blynedd |
| • Celfi                  | 5 mlynedd |
| • Cyfarpar Swyddfa       | 5 mlynedd |
| • Gosodiadau a Ffitiadau | 5 mlynedd |

Codir am ddibrisiad blwyddyn lawn yn y flwyddyn gaffael.

### 1.5 Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr

Incwm a gwariant gweithredu yw'r hyn sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau gweithredu y Comisiynydd. Mae'n cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd ar sail cost lawn. Dosbarthir yr holl wariant fel gwariant gweinyddu.

### 1.6 Treth ar Werth

Nid yw'r Comisiynydd wedi cofrestru ar gyfer TAW. Cyfrifir gwariant a phwrcasau asedau sefydlog gyda TAW wedi'i gynnwys, gan na ellir adennill TAW.



## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 1.7 Pensiynau

Mae staff y Comisiynydd wedi'u cynnwys o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig. Cydnabyddir cost elfen buddion diffiniedig y cynllun yn systematig a rhesymegol dros y cyfnod pryd y bydd yn cael mantais o wasanaethau cyflogaion trwy dalu symiau a gyfrifir ar sail gronol i'r PCSPS. Mae'r atebolrwydd am dalu buddion yn y dyfodol yn gyfrifoldeb ar y PCSPS. Yng nghyswllt elfennau cyfraniad diffiniedig y cynllun, mae'r Comisiynydd Plant yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn; codir y symiau hyn ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mlwyddyn eu talu.

### 1.8 Prydlesi

Dosbarthir prydlesi asedau lle mae holl risgiau a manteision perchnogaeth ar ased wedi'i phrydlesi i bob pwrpas yn nwylo'r Comisiynydd fel prydlesi cyllidol. Cofnodir yr ased fel ased sefydlog diriaethol a chofnodir dyled i'r prydleswr o isafswm y taliadau prydles. Codir y taliadau ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, a chodir tâl cyllid ar sail y gyfradd llog sy'n ddealliedig yn y brydles.

Codir taliadau rhentu prydlesi gweithredol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fesul symiau cyfartal ar hyd cyfnod y brydles.

### 1.9 Adroddiadau Segmentol

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r nodiadau cysylltiedig yn adlewyrchu'r segmentau lle'r adroddir am y canlyniadau gweithredu.

### 1.10 Treuliau Staff

Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer absenoldebau tymor byr adferedig sydd heb eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn.

### 1.11 Darpariaethau

Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu gontractiol y mae eu hamseru neu eu symiau'n ansicr ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant y bydd ei angen ar gyfer y rhwymedigaeth.

### 1.12 Arian Parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

Mae'r Comisiynydd yn cadw arian parod, sy'n cael ei adneuo mewn cyfrif banc masnachol wrth ei dderbyn. Hefyd cedwir arian mân yn swyddfa'r Comisiynydd.

## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 2. Costau Gweinyddu Eraill

	2017-18 £000	2016-17 £000
2.1 Costau gweinyddu:		
Safleoedd	95	100
Swyddfa	67	56
Hyfforddi a recriwtio	33	21
Teithio a chynhaliaeth	15	11
Taliadau i archwilio allanol	18	18
Taliadau i'r Archwilydd Mewnol	12	10
Cyfathrebu	51	40
Cyfarpar TGCh	21	13
Arall	114	113
Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol	9	26
Darpariaeth a wnaed o fewn y flwyddyn	77	-
	512	408
2.2 Tâl dibrisiad ar asedau cyffredin		
	8	11
	8	11
2.3 Costau staff:*		
Tâl a Chyflogau	858	852
Costau nawdd cymdeithasol	85	76
Pensiwn	139	106
Llai adenillion ar gyfer secondiadau allan	(78)	(44)
	1,004	990
	1,524	1,409

\*Mae rhagor o wybodaeth ynghylch costau staff i'w gweld yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth.

## Nodiadau i'r Cyfrifon

---

### 3. Gwybodaeth Segmentaidd

---

Mae swyddfa'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Barn y Comisiynydd, felly, yw mai mewn un segment yn unig y mae ei swyddfa'n gweithredu, fel yr adroddwyd.

## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 4. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

	Offer TG	Gosodiadau a Ffitiadau	Celfi a Chyfarpar Swyddfa	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
<b>Cost</b>				
Ar 1 Ebrill 2017	189	197	211	597
Ychwanegiadau	4	-	-	4
Gwarediadau	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2018	193	197	211	601
<b>Dibrsiad</b>				
Ar 1 Ebrill 2017	183	195	210	588
Tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn	6	1	1	8
Gwarediadau	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2018	189	196	211	596
Llyfrwerth net Ar 31 Mawrth 2017	6	2	1	9
Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2018	4	1	-	5
<b>Cyllido asedau:</b>				
A berchnogir				
Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2017	6	2	1	9
A berchnogir				
Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2018	4	1	-	5

Mae'r holl asedau yn eiddo i'r Comisiynydd, nid oes dim asedau'n cael eu cyllido trwy brydles ariannol.

## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 5. Elfennau masnach ac eraill derbyniadwy

	2017-2018	2016-2017
	£000	£000
<b>Symiau fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn:</b>		
Elfennau masnach ac eraill derbyniadwy	-	-
Rhagdaliadau ac incwm cronol	66	60
	<b>66</b>	<b>60</b>

### 6. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

	2017-2018	2016-2017
	£000	£000
Gweddill ar 1 Ebrill	329	204
Newid net yn y gweddillion arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	178	125
Gweddill ar 31 Mawrth 2017	<b>507</b>	<b>329</b>

Roedd yr holl weddillion ar 31 Mawrth 2018 ar ffurf daliadau gyda banc Masnachol ac arian mewn llaw.

### 7. Elfennau masnach ac eraill taladwy

Symiau fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn

	2017-2018	2016-2017
	£000	£000
Trethi a Nawdd Cymdeithasol	81	22
Elfennau masnachol taladwy	12	16
Croniadau	54	54
	<b>147</b>	<b>92</b>

### 8. Ymrwymadau o dan brydlesi

Prydlesi Gweithredol  
Roedd y Comisiynydd yn ymroddedig i wneud y taliadau canlynol yng nghyswllt prydlesi gweithredol oedd yn dod i ben

	2017-2018 £000	2016-2017 £000		
	Tir ac Adeiladau	Arall	Tir ac Adeiladau	Arall
Rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredol:				
Heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn	50	1	50	1
Ar ôl un flwyddyn a chyn pen pum mlynedd	116	4	166	5
Ar ôl pum mlynedd	-	-	-	-
	<b>166</b>	<b>5</b>	<b>216</b>	<b>6</b>

## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 9. Offerynnau ariannol

Mae IFRS7, Offerynnau Ariannol, yn gofyn bod rôl offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod yn cael ei datgelu o ran creu neu newid y risgiau mae endid yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd natur anfasnachol gweithgareddau'r Comisiynydd, a'r dull o gyllido'i gweithrediadau, nid yw ei swyddfa'n cael ei gadael yn agored i'r lefel o risg ariannol mae endidau busnes yn ei hwynebu. Ymhellach, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl sy'n llawer mwy cyfyngedig o ran creu neu newid risg nag a fyddai'n nodweddu'r cwmnïau rhestredig y mae IFRS7 yn bennaf berthnasol iddynt. Mae gan y Comisiynydd bwerau cyfyngedig iawn i fenthg neu fuddsoddi cronfeydd sy'n weddill a chynhyrchir asedau ariannol a rhwymedigaethau gan ei gweithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd, yn hytrach na'u dal i newid y risgiau y mae'n eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

#### Risg Hylifedd

Ariannir gofynion y Comisiynydd o ran refeniw net ac adnoddau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Nid yw ei swyddfa felly yn cael ei gadael yn agored i risgiau hylifedd sylweddol.

#### Risg cyfradd Llog

Nid yw asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd yn cael eu gadael yn agored i risgiau cyfradd llog.

#### Risg Arian Tramor

Nid yw asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd yn cael eu gadael yn agored i risgiau arian tramor.

#### Gwerthoedd Teg

Nid oes gwahaniaeth rhwng llyfrwerthoedd a gwerthoedd teg asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd ar 31 Mawrth 2018.

### 10. Ymrwymadau cyfalaf

Nid oedd dim ymrwymadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2018.

### 11. Rhwymedigaethau Amodol

Nid oedd dim rhwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2018.

### 12. Trafodion Parhŷon Cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig, a derbyniodd y Comisiynydd ei hunig ffynhonnell gyllido oddi wrth Lywodraeth Cymru; derbyniodd £1.583 miliwn yn ystod y cyfnod. Cafodd y Comisiynydd nifer bach o drafodion pwysig yn ystod y cyfnod gyda Chyllid y Wlad (taliadau Treth ac Yswiriant Gwladol); a Swyddfa'r Cabinet (taliadau yng nghyswllt Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil).

Ni chafwyd trafodion o bwys gyda sefydliadau lle roedd gan staff uwch, nac unrhyw aelodau o'u teuluoedd, swyddi dylanwadol.



## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 13. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

	Ymadael yn Gynnar	Dadfeiliadau	Cyfanswm
	£000	£000	£000
Gweddill ar 1 Ebrill 2017	91	-	91
Defnydd o'r ddarpariaeth	(8)	-	(8)
Darpariaeth o fewn y flwyddyn	-	77	77
Gweddill ar 31 Mawrth 2018	83	77	160

### Dadansoddiad o Amseriadau Disgwyliedig Darpariaethau

	Ymadael yn Gynnar	Dadfeiliadau	Cyfanswm
	£000	£000	£000
Heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn	8	-	8
Ar ôl un flwyddyn a chyn pen pum mlynedd	75	77	152
Ar ôl pum mlynedd	-	-	-
Gweddill ar 31 Mawrth 2018	83	77	160

### Costau Ymadael yn Gynnar

Mae'r Comisiynydd yn talu am gost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion arferol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yng nghyswllt gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar trwy dalu'r symiau angenrheidiol yn flynyddol i'r PCSPS dros y cyfnod rhwng ymadael yn gynnar ac oedran arferol ymddeol. Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer hyn yn llawn pan fydd yr ymadawiad cynnar yn dod yn rhwymol trwy sefydlu darpariaeth ar gyfer y taliadau a amcangyfrifir.

### Dadfeiliadau

Mae'r Comisiynydd yn talu am gost cyflawni ei rhwymedigaethau o dan delerau prydles ei swyddfa yn Abertawe, prydles sy'n dod i ben ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer hyn yn llawn trwy sefydlu darpariaeth ar gyfer y taliadau a amcangyfrifir.

### 14. Digwyddiadau wedi'r cyfnod adrodd

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau rhwng dyddiad datganiad y sefyllfa ariannol a dyddiad llofnodi'r cyfrifon sy'n effeithio ar y datganiadau hyn. Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu y datganiadau ariannol hyn i'w rhyddhau ar 19 Gorffennaf 2018.

## Dyma sut i gysylltu gyda ni:

**Comisiynydd Plant Cymru**  
Rhadbost RRGL XLYC BHGC  
Abertawe SA7 9FS

**0808 801 1000 / 80800\***  
**post@complantcymru.org.uk**

**@complantcymru**  
**complantcymru.org.uk**

\* Tecstiwch ni am ddim (gan ddechrau eich neges â COM)



**Comisiynydd  
Plant Cymru**

Children's  
Commissioner  
for Wales